------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Ionawr 2026

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddSafonau@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Comisiynydd Safonau: Sesiwn dystiolaeth - Trafodaeth

(09.30-10.00) (Tudalennau 1 - 15)

## 3 Comisiynydd Safonau: Sesiwn dystiolaeth

(10.00-10.45)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Adroddiad Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau

(Tudalennau 16 - 149)

### 5.2 Llythyr gan y Cadeirydd Comisiwn y Senedd

(Tudalennau 150 - 151)

### 5.3 Cyflwyno mwy o annibyniaeth a chymorth i'r broses gwyno yn y Senedd ymateb ychwanegol

(Tudalennau 152 - 153)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 5.1

**Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau**

**Member Accountability Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBAA@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBAA
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddMAB@senedd.wales
senedd.wales/SeneddMAB
0300 200 6565

Hannah Blythyn AS
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Dyddiad: 23 Rhagfyr 2025

Annwyl Hannah,

Pwnc: Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) – Adroddiad craffu Cyfnod 1

Er gwybodaeth, mae Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau wedi cyflwyno ei adroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau). Yn benodol, hoffwn dynnu'ch sylw at Gasgliad 9 ac Argymhelliad 8, sy'n debygol o fod yn berthnasol i'ch ymchwiliad cyfredol ar atebolrwydd aelodau unigol ac i'ch gwaith cymynol.

Yn gywir

David Rees AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Senedd Cymru
**Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau**

# Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)
## Adroddiad Cyfnod 1

Rhagfyr 2025





senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddBAA**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddBAA@senedd.cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)

## Adroddiad Cyfnod 1

Rhagfyr 2025

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 15 Hydref 2025. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddBAA**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**David Rees AS**
Llafur Cymru



**Lesley Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Sam Rowlands AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru



**Sioned Williams AS**
Plaid Cymru

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y Bil.



**Paul Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Casgliadau** ..... **7**

**Argymhellion** ..... **10**

**1. Cyflwyniad** ..... **13**

Cylch gorchwyl a'n dull craffu ..... 13

Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd ..... 15

**2. Cefndir y Bil** ..... **16**

Atebolrwydd Aelodau yn seneddau eraill y DU ..... 16

Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ..... 17

Ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd ..... 18

Atebolrwydd Aelodau Unigol: Adalw ..... 18

Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol ..... 19

Gwaith parhaus y Pwyllgor Safonau sy'n ymwneud ag atebolrwydd aelodau unigol ..... 20

Ymgynghoriad a gwaith ymgysylltu cyn cyflwyno'r Bil a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ..... 21

**3. Egwyddorion cyffredinol y Bil, cymhwysedd deddfwriaethol a'r angen am ddeddfwriaeth.** ..... **23**

Y Bil: amseriad ei gyflwyno i'r Senedd a'r angen am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd i gyflawni'r amcanion cyffredinol ..... 23

Datblygu'r Bil a'i gyflwyno i'r Senedd ..... 23

Yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd i gyflawni'r amcanion cyffredinol ..... 27

Rhan 4 o'r Bil, dod i rym a gweithredu ..... 29

Cymhwysedd deddfwriaethol ..... 33

Pwerau yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth. ..... 34

Costau ..... 36

Ein barn ni ..... 39

**4. Rhan 1 o'r Bil: Adalw Aelodau o'r Senedd ..... 43**

Cychwyn pôl adalw ..... 43

Digwyddiad sbardun A ..... 46

Digwyddiad sbardun B ..... 48

'Sbardunau' eraill ..... 52

Rhedeg pôl adalw ..... 54

Dyddiad y pôl adalw a'r hysbysiad ..... 54

Terfynu pôl adalw yn gynnar ..... 60

Rhedeg pôl adalw ..... 63

Canlyniad y pôl adalw ..... 65

Swyddogaethau swyddogion ..... 70

Dehongli Rhan 1 a darpariaeth ganlyniadol ..... 72

Ein barn ni ..... 73

**5. Rhan 2 o'r Bil: Safonau ymddygiad Aelodau o'r Senedd ..... 79**

Safonau ymddygiad ..... 79

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ..... 79

Materion eraill sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Senedd ..... 94

Comisiynydd Safonau y Senedd ..... 94

Pŵer Comisiynydd Safonau y Senedd i ymchwilio ar ei ysgogiad ei hun ..... 94

Comisiynydd Safonau y Senedd: cymhwysedd ..... 99

Materion eraill sy'n ymwneud â rôl Comisiynydd Safonau y Senedd ..... 99

Ein barn ni ..... 101

**6. Rhan 3 o'r Bil: Rhedeg etholiadau Senedd Cymru ..... 106**

Cefndir ..... 106

Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau etc. y Senedd ..... 108

Cyflwyno trosedd newydd drwy is-ddeddfwriaeth ........ 109
Cwmpas y darpariaethau yn adran 22 ........ 111
Diffiniadau ........ 114
Cynnwys datganiadau camarweiniol ........ 117
Ymgynghoriad ar Orchymyn ........ 118
Gorfodadwyedd ........ 119
Amserlen ar gyfer cyflwyno Gorchymyn ........ 120
Cymhwyso’r gwaharddiad ........ 121
Asesiad effaith ar gyfiawnder ac asesiad effaith ar hawliau dynol ........ 122
Ein barn ni ........ 123
**Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ........ 128**
**Atodiad 2 : Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig ........ 130**
Gwybodaeth ychwanegol ........ 131

# Casgliadau

**Casgliad 1.** Rydym yn pryderu bod methiant i ddiwygio Rhan 3 o'r Bil yn unol â'n hargymhelliad 11 (gweler Pennod 6) yn golygu na fydd y Bil yn cael cefnogaeth Aelodau o'r Senedd pan ofynnir iddynt gymeradwyo'r Bil yng nghyfnod 4, sy'n golygu y bydd Rhannau 1 a 2 yn cael eu colli hefyd. .......... Tudalen 41

**Casgliad 2.** Pe bai'r Seithfed Senedd yn cytuno i adolygu'r system etholiadol sydd ar waith ar gyfer etholiadau'r Senedd, rhaid ystyried yr effaith ar system adalw (pe bai'r Bil hwn yn cael ei basio a'i ddeddfu) fel rhan o'r adolygiad cyfannol hwnnw. .......... Tudalen 74

**Casgliad 3.** Pe bai'r Bil yn cael ei basio gan y Senedd a'i ddeddfu, credwn y bydd angen ymdrech sylweddol gan bawb sy'n ymwneud â'r system adalw i sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn cael addysg ddigonol am y system a chanlyniadau unrhyw bolau adalw. .......... Tudalen 74

**Casgliad 4.** Rydym yn cydnabod y safbwyntiau a fynegwyd i ni ynghylch goblygiadau'r darpariaethau polau adalw yn y Bil ar gyfer apeliadau y gellir eu clywed yn y system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, o ystyried nad oes unrhyw fecanwaith yn rhoi amser ar gyfer apeliadau yn y darpariaethau sy'n rheoli anghymhwyso aelod yn awtomatig os yw wedi cael ei euogfarnu o drosedd a'i ddedfrydu i garchar am fwy na 12 mis, gallwn werthfawrogi'r rhesymeg pam y dylai'r ddwy system gyd-fynd â'i gilydd. .......... Tudalen 76

**Casgliad 5.** Mae mwyafrif y Pwyllgor o'r farn, pe bai mwyafrif yn pleidleisio o blaid y canllawiau adalw, y byddai hynny'n adlewyrchu'n well prosesau presennol y Senedd sy'n ymwneud â safonau. .......... Tudalen 77

**Casgliad 6.** Credwn y byddai'n fuddiol archwilio sut y gellid ychwanegu darpariaeth ychwanegol ar wyneb y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd ymgynghori'n fwy helaeth â rhanddeiliaid a chraffu'n fwy manwl cyn y gellir gwneud rheoliadau o dan adran 11. .......... Tudalen 77

**Casgliad 7.** Byddem yn croesawu gwella'r diffiniad o "Llywydd" yn adran 16 o'r Bil yn unol ag awgrym y Llywydd .......... Tudalen 78

**Casgliad 8.** Mater i'r Senedd yw gweithdrefnau'r Senedd. Dylid gosod y cyfyngiadau lleiaf posibl mewn deddfwriaeth ar allu'r Senedd i ddylunio ei strwythurau ei hun, er mwyn cyflawni ei chyfrifoldebau .......... Tudalen 102

**Casgliad 9.** Yn unol ag argymhelliad 8, ar sail y dystiolaeth a glywsom, tra ein bod o'r farn o ran y canlynol:

- dylai fod gan y Senedd broses apelio wedi'i hymgorffori yn ei system safonau,
- dylai aelodau lleyg sy'n eistedd ar bwyllgor safonau ymddygiad gael hawliau pleidleisio (ac eithrio mewn perthynas â chraffu ar Filiau),
- ni ddylai cyfanswm y nifer o aelodau lleyg sy'n eistedd ar bwyllgor safonau ymddygiad fod yn fwy na nifer yr Aelodau etholedig o'r Senedd ar y pwyllgor hwnnw,
- dylid penodi aelodau lleyg am gyfnod o bum mlynedd ar y mwyaf, a dim ond unwaith y dylid adnewyddu penodiad,
- dylai'r Senedd, wrth benodi aelodau lleyg yn y lle cyntaf, ystyried tymhorau o wahanol hyd, fel nad yw pob penodiad yn dod i ben ar yr un pryd,
- dylai'r Senedd, wrth benodi aelodau lleyg, ystyried sgiliau Cymraeg y darpar benodeion er mwyn sicrhau lefel ofynnol o ran sgiliau ymhlith yr aelodau lleyg, a hefyd
- ni ddylid dewis Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o'r un blaid â'r blaid sydd mewn llywodraeth na'r blaid fwyaf a gynrychiolir yn y Senedd,

dylai'r Senedd benderfynu ar y materion hyn a darparu ar eu cyfer yn ei Rheolau Sefydlog.................................................................................... Tudalen 103

**Casgliad 10.** Rydym yn cytuno â'r dystiolaeth a glywsom, sef bod gan alluogi'r Comisiynydd Safonau i gychwyn ymchwiliadau y potensial i wella'r system safonau, ac felly rydym yn fodlon ag adran 19.................................................. Tudalen 103

**Casgliad 11.** Rydym yn cydnabod bod adran 20 o'r Bil yn diwygio Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 drwy ychwanegu dau gategori o bersonau nad ydynt yn gymwys i gael eu penodi'n Gomisiynydd Safonau y Senedd, ac rydym yn fodlon, yn amodol ar ein barn a nodir yn yr argymhelliad 9.................................................................................... Tudalen 104

**Casgliad 12.** Mae'r dadleuon a gyflwynwyd i ni mewn tystiolaeth yn awgrymu'n helaeth y dylai newid mor arwyddocaol â'r hyn a ddarperir yn adran 22 fod yn destun gwaith craffu a thryloywder y broses ddeddfwriaeth sylfaenol, ac na ddylid

ei adael i Weinidogion Cymru ei gyflwyno drwy is-ddeddfwriaeth lle na ellid diwygio'r ddeddfwriaeth. .......... Tudalen 124

**Casgliad 13.** Credwn y byddai pŵer i gyfyngu ar ryddid i lefaru cyn neu yn ystod etholiad gyda chyn lleied o baramedrau o ran cwmpas unrhyw waharddiad yn eithriadol fel y'i drafftiwyd hyd yn oed pe bai wedi'i gynnwys o fewn deddfwriaeth sylfaenol.......... Tudalen 124

**Casgliad 14.** Rydym yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Senedd roi ei chymeradwyaeth i greu trosedd ddifrifol newydd sydd ei diffinio, a allai gael canlyniadau 'sy'n diffinio bywyd', gan gyfyngu ar ryddid i lefaru yn ystod etholiad heb ystyriaeth ofalus. Nid yw'r dull a gymerwyd yn briodol o safbwynt ymarferol na chyfansoddiadol.......... Tudalen 126

**Casgliad 15.** Rydym yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r cyfnod interim rhwng pasio *Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024* a chyflwyno'r Bil hwn i wneud y gwaith sy'n ofynnol i gyflwyno trosedd newydd. Erbyn hyn, byddem wedi disgwyl llawer mwy o fanylion ar wyneb y Bil y gellid eu harchwilio'n ystyrlon, yn ogystal â rhywfaint o ymgynghori ac asesiadau effaith manwl. Pe bai hyn ar gael adeg cyflwyno'r Bil, credwn y gallai fod wedi bod yn ymarferol i'r Pwyllgor graffu'n briodol, a gwneud argymhellion i gryfhau'r Bil.
.......... Tudalen 126

**Casgliad 16.** Rydym yn cydnabod, ac yn cytuno, â'r bwriadau y tu ôl i adran 22 o'r Bil, i sicrhau bod etholiadau'n cael eu hamddiffyn rhag gweithredwyr gwael. Fodd bynnag, credwn y dylai troseddau o'r fath fod mewn deddfwriaeth sylfaenol a, heb ddigon o fanylion ar wyneb y Bil, ni allwn roi ein cymeradwyaeth i adran 22 fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd.......... Tudalen 126

**Casgliad 17.** Mae mwyafrif y Pwyllgor o'r farn, oni bai bod Llywodraeth Cymru yn gallu nodi'r drosedd a gynigir yn llawn ar wyneb y Bil a darparu manylion am y gwaith sydd wedi mynd i baratoi'r drosedd, y dylid dileu adran 22 o'r Bil.
.......... Tudalen 126

**Casgliad 18.** Credwn fod rhinweddau i Rannau 1 a 2 o'r Bil ac y byddent yn gwella atebolrwydd Aelodau o'r Senedd. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi'i amlygu ym Mhennod 3, rydym yn pryderu, oni bai bod adran 22 yn cael ei ailddrafftio yn unol â'r hyn yr ydym wedi'i nodi yn argymhelliad 11 (neu fod adran 22 yn cael ei dileu o'r Bil), ei bod yn peryglu y byddai'r Bil yn ei gyfanrwydd yn methu ar y cam olaf.
.......... Tudalen 127

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Os yw'r Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil a'i fod yn symud ymlaen i gyfnod nesaf y broses ddeddfwriaethol, rydym yn argymell bod pob Rhan o'r Bil yn cael ei diwygio a'i gwella cyn iddo gael ei basio a'i ddeddfu. Mewn perthynas â Rhan 3, rhaid i'r Bil gael ei ddiwygio i fodloni ein hargymhelliad 11.......... Tudalen 41

**Argymhelliad 2.** Dylid dileu adran 4 o'r Bil.......... Tudalen 75

**Argymhelliad 3.** Dylid diwygio adran 5 o'r Bil fel ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a sefydlir yn unol ag adran 18, ddyroddi canllawiau ynghylch y materion y mae'n rhaid i'r pwyllgor hwnnw eu cadw mewn cof wrth ystyried a ddylid argymell gwneud Aelod yn destun pôl adalw.......... Tudalen 76

**Argymhelliad 4.** Mae mwyafrif o'r Pwyllgor o'r farn y dylid diwygio'r Bil fel y gall y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ddyroddi canllawiau adalw cyn belled â bod mwyafrif syml o gyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd gan y Senedd o blaid y penderfyniad.......... Tudalen 77

**Argymhelliad 5.** O ystyried pwysigrwydd rheoliadau adran 11 i'r broses adalw, dylid diwygio'r Bil fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud y rheoliadau, yn hytrach na'u galluogi i wneud hynny fel y mae adran 11(1) wedi'i drafftio ar hyn o bryd.......... Tudalen 77

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol a rhanddeiliaid etholiadol eraill ar ffurf y papur pleidleisio ar gyfer polau adalw a dylai fod yn destun profion defnyddwyr cyn gynted â phosibl, os caiff y Bil ei basio a'i ddeddfu.......... Tudalen 78

**Argymhelliad 7.** Dylid diwygio'r Bil i ddatgan yn benodol y bydd polau adalw yn dod o fewn swyddogaethau statudol y Bwrdd Rheoli Etholiadol.......... Tudalen 78

**Argymhelliad 8.** Rydym yn cytuno y dylai'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- Pwyllgor Safonau Ymddygiad gorfodol,
- galluogi aelodau lleyg i gael eu penodi i bwyllgorau'r Senedd sy'n ystyried materion sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau o'r Senedd;

- gwahardd y canlynol rhag cael eu penodi'n aelodau lleyg:
    - aelodau etholedig presennol a chyn-aelodau etholedig o holl seneddau a deddfwrfeydd y DU,
    - aelodau o Dŷ'r Arglwyddi,
    - aelodau etholedig presennol a chyn-aelodau etholedig cynghorau cymuned, sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru,
    - comisiynwyr heddlu a throseddu presennol a chyn-gomisiynwyr ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru, a hefyd
    - personau sy'n dal y swyddi anghymhwyso yn ail golofn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1A i Ddeddf 2006 (ac eithrio'r swyddi barnwrol);

ac o ganlyniad, nid ydym yn ystyried bod angen unrhyw ddarpariaeth arall sydd yn adran 18 ar hyn o bryd, a dylid diwygio'r Bil yn unol â hynny.102

**Argymhelliad 9.** Dylid diwygio'r Bil fel bod y bobl ganlynol wedi'u hanghymhwyso rhag cael eu penodi'n Gomisiynydd Safonau y Senedd:

- aelodau etholedig presennol a chyn-aelodau etholedig o holl seneddau a deddfwrfeydd y DU,
- aelodau o Dŷ'r Arglwyddi,
- aelodau etholedig presennol a chyn-aelodau etholedig cynghorau cymuned, sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru,
- comisiynwyr heddlu a throseddu presennol a chyn-gomisiynwyr ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru, a hefyd
- personau eraill sy'n dal y swyddi anghymhwyso yn ail golofn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1A i Ddeddf 2006 (ac eithrio'r swyddi barnwrol). ........................................Tudalen 104

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddiwygio *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* i gynnwys Comisiynydd Safonau'r Senedd yn y rhestr o gyrff cyhoeddus a restrir yn Atodlen 6 i'r Mesur. Nodwn y gellid cyflawni gwelliant o'r fath i Atodlen 6 naill ai drwy gynnwys darpariaeth ar wyneb y Bil neu drwy gyflwyno gorchymyn o dan adran 35 o'r Mesur. Yn yr un modd, dylai'r Cwnsler Cyffredinol hefyd gynnwys Comisiynydd Safonau'r Senedd mewn set o reoliadau Safonau Cymraeg perthnasol. Nodwn y gellir gwneud hyn naill ai drwy gynnwys darpariaeth ar

wyneb y Bil neu drwy reoliadau a wneir drwy ddefnyddio pwerau o dan y Mesur. Os na chaiff y newidiadau hyn eu cynnwys ar wyneb y Bil, dylid cyflwyno'r offerynnau statudol priodol cyn gynted â phosibl. ................................................Tudalen 104

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- ddrafftio darpariaethau manwl ar gyfer y drosedd a gynigir, i'w cynnwys ar wyneb y Bil, sy'n gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau o ffaith anwir neu gamarweiniol cyn neu yn ystod etholiad at ddibenion effeithio ar ethol unrhyw ymgeisydd;

- ymgynghori ar y darpariaethau hynny, gan gynnwys ymgysylltu'n gynhwysfawr â'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a chyhoeddi manylion yr ymatebion ymgynghori hynny;

- cynnal a chyhoeddi asesiadau o effaith ar gyfiawnder a hawliau dynol; ac wedi hynny

- cyflwyno'r gwelliannau perthnasol yng nghyfnod 2 a fyddai'n gosod manylion llawn y drosedd ar wyneb y Bil.

Os na tellir gwneud y newidiadau hyn mewn pryd ar gyfer trafodion Cyfnod 2, neu os ystyrir bod y gwelliannau a gyflwynwyd yng nghyfnod 2 yn annigonol ac felly ni chânt eu cefnogi, mae mwyafrif y Pwyllgor yn argymell y dylid dileu adran 22 o'r Bil er mwyn caniatáu i waith pellach ar y mater gael ei wneud mewn deddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol. Mae Sioned Williams yn credu y gellir diwygio adran 22 ymhellach i ddiffinio cwmpas y pŵer ymhellach. ................................Tudalen 127

# 1. Cyflwyniad

Ar 3 Tachwedd 2025, cyflwynodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, Julie James AS (y Cwnsler Cyffredinol), Fil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) Llywodraeth Cymru (y Bil) i'r Senedd.[1]

**1.** Ochr yn ochr â'r Bil, gosododd y Cwnsler Cyffredinol Femorandwm Esboniadol cysylltiedig[2], yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol drafft. Hefyd ar 3 Tachwedd 2025, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol Ddatganiad o Fwriad Polisi ar y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil.[3] Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfres o asesiadau effaith yn ymwneud â darpariaethau'r Bil.[4]

**2.** Ar 4 Tachwedd 2025, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn.[5]

**3.** Yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau (y Pwyllgor) ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 23 Rhagfyr 2025.[6]

## Cylch gorchwyl a'n dull craffu

**4.** Er mwyn llywio ei waith craffu ar y Bil, cytunodd y Pwyllgor i ystyried:

- Egwyddorion cyffredinol Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) (Cymru) ac a oes angen deddfwriaeth i gyflawni amcanion polisi datganedig y Bil, sef gwella atebolrwydd Aelodau o'r Senedd drwy:

[1] Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau), fel y'i cyflwynwyd
[2] Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau), Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2025
[3] Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau), Datganiad o Fwriad Polisi, Tachwedd 2025
[4] Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau): asesiadau effaith
[5] Cyfarfod Llawn, 4 Tachwedd 2025
[6] Y Pwyllgor Busnes, Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried: Bil Senedd_Cymru_(Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau), Tachwedd 2025

  - gryfhau'r systemau sy'n bodoli ar hyn o bryd i reoleiddio ymddygiad yr aelodau ac i benderfynu ar unrhyw gosbau
  - darparu mecanwaith ar gyfer adalw aelodau etholedig, a'u diswyddo yn ystod eu cyfnod fel aelod, ar sail ewyllys penodol pleidleiswyr yn yr etholaeth berthnasol;
  - cryfhau proses safonau'r Senedd fel y'i hystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, gan gynnwys drwy ei gwneud yn ofynnol i bob Senedd sefydlu Pwyllgor Safonau Ymddygiad gorfodol a thrwy benodi aelodau lleyg;
  - rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Comisiynydd Safonau ystyried yn rhagweithiol bryderon ynghylch ymddygiad ac ymarweddiad Aelodau o'r Senedd;
  - diwygio pŵer Gweinidogion Cymru yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 i wneud darpariaeth ynghylch rhedeg etholiadau'r Senedd, yn benodol drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau anwir.
- Unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil, ac a yw'r Bil, yn ogystal â'r Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef, yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r rhwystrau posibl hyn.
- A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil, gan gynnwys goblygiadau posibl ar gyfer cynnal busnes y Senedd.
- Asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol ac effeithiau eraill y Bil, fel y'u nodir yn Rhannau 2 a 3 o'r Memorandwm Esboniadol.
- Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'u nodir yn Rhan 1: Pennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol).
- Materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw'r Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
- Y cydbwysedd rhwng yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.
- Unrhyw faterion yn ymwneud ag ansawdd y ddeddfwriaeth.

- Unrhyw fater arall sy'n ymwneud â goblygiadau cyfansoddiadol neu oblygiadau eraill y Bil.

**5.** Lansiodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus ar 4 Tachwedd 2025, a ddaeth i ben ar 19 Tachwedd; daeth 19 cyflwyniad i law. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd gan amryw o unigolion a sefydliadau. Mae manylion dull casglu tystiolaeth y Pwyllgor i'w gweld yn atodiadau 1 a 2.

**6.** Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth ac a gynorthwyodd yn ei ystyriaeth Cyfnod 1 o'r Bil.

## Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd

**7.** Yn unol â'r arfer, bu'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar y Bil hefyd. Mae gwybodaeth am waith y pwyllgorau hynny ar gael ar dudalen we y Bil.

# 2. Cefndir y Bil

Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi mai diben cyffredinol y Bil yw cynyddu atebolrwydd Aelodau o'r Senedd drwy gryfhau'r systemau presennol sy'n rheoleiddio ac yn sancsiynu eu hymddygiad.[7]

## Atebolrwydd Aelodau yn seneddau eraill y DU

**8.** Mae Deddf Adalw Aelodau Seneddol 2015 (Deddf 2015) yn darparu system adalw ar gyfer Aelodau Tŷ'r Cyffredin.

**9.** Dim ond os bodlonir un o'r tri amod a ganlyn y gellir agor deiseb adalw yn erbyn Aelod Seneddol:

- Bod Aelod Seneddol, ar ôl dod yn Aelod, yn cael ei euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o drosedd ac yn cael dedfryd o garchar nad yw'n cael ei gwrthdroi ar apêl a gyflwynir o fewn y terfyn amser arferol ar gyfer apeliadau.
- Wedi adroddiad gan ei Bwyllgor Safonau, bod Tŷ'r Cyffredin yn gorchymyn atal Aelod Seneddol rhag eistedd yn y Tŷ am gyfnod o 10 diwrnod eistedd o leiaf, neu, os na chaiff nifer penodol o ddiwrnodau eistedd eu nodi ar gyfer y cyfnod, caiff ei atal am gyfnod o 14 o ddiwrnodau o leiaf.
- Y caiff Aelod Seneddol ei euogfarnu o dan adran 10 o Ddeddf Safonau Seneddol 2009 (trosedd o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol ar gyfer hawliadau lwfansau), ni waeth beth fo'r ddedfryd a osodir.

**10.** Pan fo un o'r amodau adalw wedi'i fodloni, bydd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yn hysbysu swyddog deisebau etholaeth yr Aelod Seneddol (y swyddog canlyniadau fel arfer) o'r ffaith hon, ac yna bydd deiseb adalw yn cael ei hagor am gyfnod o chwe wythnos.

[7] Memorandwm Esboniadol, paragraff 1

**11.** Bydd deiseb adalw yn llwyddiannus pan gaiff ei llofnodi gan o leiaf 10 y cant o etholwyr seneddol cofrestredig yn yr etholaeth honno. Os bydd y ddeiseb yn llwyddiannus, bydd y swyddog deisebau yn rhoi gwybod i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin, a bydd sedd yr Aelod Seneddol yn dod yn wag.

**12.** Hyd yma, bu chwe deiseb adalw, gyda phedair o'r rhain yn cyrraedd y trothwy gofynnol o ran nifer y llofnodion. Methodd un o'r deisebau â chyrraedd y trothwy gofynnol a chafodd un ei therfynu'n gynnar pan ymddiswyddodd yr Aelod Seneddol ar ôl i'r ddeiseb fod ar agor am bythefnos.

**13.** Yn Senedd yr Alban, mae Bil Senedd yr Alban (Adalw a Diswyddo Aelodau) yn Fil Aelod sydd wedi ei gyflwyno gan Graham Simpson ASA. Mae'r Bil yn ceisio creu system adalw ar gyfer ASAau pan fyddant yn cael dedfryd o garchar am lai na chwe mis neu'n cael eu hatal rhag cymryd rhan mewn trafodion seneddol am gyfnod o ddeg diwrnod eistedd neu fwy. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i newid y meini prawf anghymhwyso ar gyfer ASAau fel eu bod yn cael eu diswyddo os ydynt yn cael dedfryd o garchar am 6-12 mis neu'n methu â bod yn bresennol yn y Senedd am 180 diwrnod heb reswm dilys. Adeg ysgrifennu hwn, mae Bil Senedd yr Alban (Adalw a Diswyddo Aelodau) yng nghyfnod 2 o'r broses ddeddfwriaethol yn Senedd yr Alban.

## Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024

**14.** Er nad yw mecanwaith adalw wedi'i gynnwys yn *Neddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024* (Deddf 2024), fe'i hystyriwyd gan y Pwyllgor Biliau Diwygio fel rhan o'i waith craffu Cyfnod 1 ar y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)(fel ydoedd bryd hynny).[8]

**15.** Argymhellodd y Pwyllgor Biliau Diwygio yn ei adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil y dylai Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd ddatblygu opsiynau ar gyfer cryfhau atebolrwydd Aelodau unigol, gan gynnwys ystyried materion sy'n cynnwys adalw Aelodau, trefniadau anghymhwyso a'r sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad pan gaiff cwyn yn erbyn Aelod ei chadarnhau.[9] Argymhellodd y Pwyllgor Biliau Diwygio hefyd y dylid cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau posibl, a hynny cyn diwedd y Chweched Senedd.[10]

[8] Y Pwyllgor Biliau Diwygio, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Adroddiad Cyfnod 1, Ionawr 2024
[9] Y Pwyllgor Biliau Diwygio, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Adroddiad Cyfnod 1, argymhelliad 50
[10] Pwyllgor Biliau Diwygio, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Adroddiad Cyfnod 1, argymhelliad 50

**16.** Yn ystod trafodion Cyfnod 2 a Chyfnod 3 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), cyflwynwyd gwelliannau, ond ni chytunwyd arnynt, mewn perthynas â chyflwyno system adalw (Gwelliannau Cyfnod 2 124 a 125[11] a Gwelliannau Cyfnod 3 40 a 42[12]).

## Ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd

### Atebolrwydd Aelodau Unigol: Adalw

**17.** Yn dilyn y drafodaeth ynghylch y posibilrwydd o system adalw yn ystod ystyriaeth y Senedd o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), a deiseb a lofnodwyd gan dros 2,000 o bobl[13], cytunodd y Pwyllgor Safonau i ystyried a ellid datblygu cynigion ar gyfer system adalw yn y Senedd.[14]

**18.** Cynhaliodd y Pwyllgor set gychwynnol o sesiynau tystiolaeth lafar ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2024, a lywiodd ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod haf 2024. Gofynnodd yr ymgynghoriad hwn nifer o gwestiynau manwl ynglŷn â sut y gallai system adalw weithio yn y Senedd, a chynigiodd ddau opsiwn posibl hefyd (gweler blwch 1).[15]

***Blwch 1***

Opsiwn 1: Mae deiseb adalw yn cael ei chynnal yn gofyn a ddylid adalw'r Aelod. Os bydd Aelod yn cael ei adalw, byddai'r ymgeisydd nesaf o restr y blaid yr etholwyd yr Aelod a gafodd ei ethol arni yn llenwi'r sedd wag. Mae'r dull hwn yn golygu y byddai llofnodi'r ddeiseb yn cael gwared â'r Aelod, yn hytrach nag arwain at is-etholiad yn yr etholaeth honno.

Opsiwn 2: Mae deiseb diswyddo a disodli yn cael ei chynnal, a fyddai'n rhoi opsiwn naill ai i gadw'r Aelod presennol neu ei ddiswyddo a phenodi'r ymgeisydd nesaf ar restr y blaid yn ei le. Byddai hyn yn amodol ar gyfnod ymgyrchu a rhoi cyfle i'r Aelod sy'n destun y broses 'adalw' amddiffyn ei sedd gyda'r etholwyr.

[11] Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli Cyfnod 2, 5 Mawrth 2024
[12] Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Rhestr o Welliannau wedi'i Didoli Cyfnod 3, 30 Ebrill 2024
[13] P-06-1386 Dylid cyflwyno ffordd i etholwyr bleidleisio i gael gwared ar eu AS cyn diwedd eu tymor
[14] Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Ymchwiliad i Atebolrwydd Aelodau Unigol
[15] Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Ymchwiliad i Atebolrwydd Aelodau Unigol, Ymgynghoriad

**19.** Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, cynhaliodd y Pwyllgor Safonau ragor o sesiynau tystiolaeth yn ystod hydref 2024, cyn cyhoeddi ei adroddiad ar adalw ym mis Ionawr 2025.[16] Cytunodd y Pwyllgor Safonau y dylid cyflwyno system adalw ar gyfer y Senedd ond y byddai angen iddi weithredu'n wahanol i'r system ar gyfer Tŷ'r Cyffredin oherwydd y system etholiadol wahanol a fydd yn cael ei defnyddio o fis Mai 2026. Argymhellodd y Pwyllgor Safonau y dylid gweithredu Opsiwn 2, gyda phleidlais gudd i'w chynnal ar un diwrnod, yn debyg i is-etholiad y Senedd.[17]

**20.** Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Safonau ar 11 Mawrth 2025.[18] Derbyniodd, neu dderbyniodd mewn egwyddor, holl argymhellion y Pwyllgor Safonau, ac ymrwymodd i gyflwyno Bil yn ystod tymor y Senedd hon i sefydlu system adalw ar gyfer y Senedd.

### Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol

**21.** Yn dilyn cais gan y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd ym mis Mawrth 2024[19], cytunodd y Pwyllgor Safonau i gynnal ymchwiliad i gasglu tystiolaeth ar rinweddau cyflwyno mecanweithiau pellach ar gyfer anghymhwyso Aelodau ac ymgeiswyr y canfyddir eu bod wedi twyllo etholwyr yn fwriadol. Cynhaliodd ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod haf 2024 i ofyn am farn ar dri opsiwn penodol i reoleiddio ymhellach ddatganiadau bwriadol gamarweiniol gan Aelodau o'r Senedd ac ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd.[20] Casglodd dystiolaeth fel rhan o'i waith ehangach ar Atebolrwydd Aelodau Unigol.

**22.** Cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau ei adroddiad ar ddichell ar 19 Chwefror 2025.[21] Yn ei adroddiad, argymhellodd y Pwyllgor Safonau nifer o fesurau i fynd i'r afael â dichell fwriadol gan Aelodau o'r Senedd ac ymgeiswyr.[22] Argymhellodd mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor Safonau y dylid rhoi mesurau gwahanol ar waith ar gyfer Aelodau o'r Senedd ac ymgeiswyr.[23]

[16] Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Adalw, Ionawr 2025
[17] Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Adalw, argymhellion 2, 4 a 7
[18] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Adalw, Mawrth 2025
[19] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 13 Mawrth 2024
[20] Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Ymchwiliad i Atebolrwydd Aelodau Unigol, Ymgynghoriad
[21] Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, Chwefror 2025
[22] Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, argymhellion 1, 3 i 5, a 7
[23] Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, paragraff 186 ac argymhellion 1 i 5

**23.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Safonau ar 26 Mawrth 2025. Derbyniodd, neu dderbyniodd mewn egwyddor, yr holl argymhellion sy'n berthnasol iddi ac a fyddai'n gofyn am newid deddfwriaethol.[24]

## Gwaith parhaus y Pwyllgor Safonau sy'n ymwneud ag atebolrwydd aelodau unigol

**24.** Ar 30 Hydref 2025, ysgrifennodd Hannah Blythyn AS, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, atom i roi gwybodaeth am waith parhaus y Pwyllgor Safonau sy'n ymwneud ag atebolrwydd aelodau unigol.[25]

**25.** Yn ei llythyr, tynnodd Hannah Blythyn sylw at rai gwahaniaethau allweddol rhwng yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Safonau a darpariaethau'r fersiwn ddrafft o'r Bil (fel y'i cyhoeddwyd ar 6 Hydref 2025), gan gynnwys:

- sbardunau a therminoleg mecanwaith adalw,
- gweithdrefn apelio arfaethedig sy'n cynnwys is-bwyllgor o aelodau lleyg, a
- gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau ffeithiol anwir neu gamarweiniol cyn neu yn ystod etholiad at ddiben effeithio ar ddychwelyd unrhyw ymgeisydd.

**26.** Rydym yn rhoi sylw i'r materion hyn yn unigol ym Mhenodau 4, 5 a 6 o'r adroddiad.

**27.** Mae llythyr Hannah Blythyn hefyd yn tynnu sylw at y rhaglen waith ehangach y mae'r Pwyllgor Safonau yn ei chynnal mewn perthynas â threfn safonau'r Senedd yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn cynnwys:

- gwaith i fwrw ymlaen ag argymhellion 8 a 9 o adroddiad y Pwyllgor ar ddichell fwriadol sy'n ymwneud â phroses i Aelodau gywiro'r cofnod ac i wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw achos o Aelod yn torri'r Cod gael ei chyhoeddi mewn ffordd fwy tryloyw;
- archwilio sut y gallai penodi aelodau lleyg weithio'n ymarferol ac i gyflwyno cynigion i'r Senedd eu hystyried.

---

[24] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, Mawrth 2025
[25] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, 30 Hydref 2025

**28.** Ynghlwm wrth y llythyr gan Hannah Blythyn mae gohebiaeth rhyngddi hi a'r Llywydd, y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, ynghylch effaith bosibl argymhellion y Pwyllgor Safonau ar raglen waith weithdrefnol y Pwyllgor Busnes. Mae hefyd yn cynnwys llythyr a phapur cysylltiedig gan Hannah Blythyn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni sy'n nodi barn y Pwyllgor ar ddiwygiadau posibl i *Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009*, y mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn y gellid eu hymgorffori yn y Bil.

## Ymgynghoriad a gwaith ymgysylltu cyn cyflwyno'r Bil a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru

**29.** Dywed y Cwnsler Cyffredinol yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"O fewn yr amserlen a oedd ar gael, ac er mwyn cyflwyno Bil ym mlwyddyn olaf tymor y Senedd, sef tua 9 mis ar ôl cyhoeddi adroddiadau'r Pwyllgor, nid oedd yn bosibl i Lywodraeth Cymru gynnal ei hymgynghoriad cyhoeddus agored ei hun ar y dewisiadau polisi arfaethedig er mwyn iddynt gael effaith drwy Fil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) neu drwy Fil drafft."*[26]

**30.** Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol fod adroddiadau'r Pwyllgor Safonau ar adalw a dichell bwriadol wedi'u llywio gan ymgynghoriad cyhoeddus agored a 21 o sesiynau tystiolaeth, gan ddatgan, "Mae'r gweithgarwch ymgysylltu a'r dystiolaeth a ddaeth i law y Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi bod, i raddau helaeth, yn sail i'r gwaith, a hynny er mwyn bodloni'r amserlenni heriol."[27]

**31.** Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi ymhellach fod nifer o argymhellion y Pwyllgor Safonau - gan gynnwys argymhellion 3, 8 a 9 o'i adroddiad ar adalw - yn gofyn i Lywodraeth Cymru ymgysylltu ymhellach â'r gymuned etholiadol wrth ddatblygu'r Bil. Felly, yn y Memorandwm Esboniadol ,mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â'r canlynol:

- ymgysylltu dwyochrog wedi'i dargedu â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys Comisiwn y Senedd a'r Comisiwn Etholiadol, i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'u barn ar y materion allweddol gan gynnwys goblygiadau ariannol y cynigion, a

[26] Memorandwm Esboniadol, paragraff 132
[27] Memorandwm Esboniadol, paragraff 134

- chydweithio'n gynnar ac yn fanwl â'r gymuned o weinyddwyr etholiadol, gan sicrhau y byddai pryderon gweinyddol yn gallu cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio'r ddeddfwriaeth.[28]

**32.** Mae'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn datgan yn y Memorandwm Esboniadol ei bod wedi ymgysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau ar ddatblygiad y Bil mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor hwnnw, gan gynnwys trafod mân ddiwygiadau i Fesur 2009 yr awgrymodd y Pwyllgor Safonau y dylid eu cynnwys yn y Bil.[29]

**33.** Mae'r Cwnsler Cyffredinol o'r farn bod yr ymgysylltiad wedi'i dargedu:

- wedi galluogi cynnwys amcangyfrifon costau manwl i gyd-fynd â'r Bil, gan gynnwys o ran ei oblygiadau i Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, gweinyddwyr etholiadol (drwy'r Bwrdd Rheoli Etholiadol), a'r Comisiwn Etholiadol;
- wedi llywio'r gwaith o lunio'r cwestiwn a'r ymatebion i'w cynnwys ar bapur pleidleisio pôl adalw gan geisio sicrhau eu bod yn gryno, wedi'u hysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg clir, yn defnyddio brawddegau byrion, ac yn osgoi defnyddio jargon neu dermau technegol na fyddai'r mwyafrif o bobl yn eu deall yn hawdd (drwy drafodaeth â'r Comisiwn Etholiadol).[30]

[28] Memorandwm Esboniadol, paragraff 135
[29] Memorandwm Esboniadol, paragraff 138
[30] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 136 a 137

# 3. Egwyddorion cyffredinol y Bil, cymhwysedd deddfwriaethol a'r angen am ddeddfwriaeth.

Mae'r Bil wedi'i rannu'n bedair Rhan, sydd wedi'u cyfansoddi o 25 o adrannau ac yn cynnwys dwy Atodlen. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

## Y Bil: amseriad ei gyflwyno i'r Senedd a'r angen am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd i gyflawni'r amcanion cyffredinol

### Datblygu'r Bil a'i gyflwyno i'r Senedd

**34.** Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi cefndir y Bil a pha ddigwyddiadau a arweiniodd at Lywodraeth Cymru yn cyflwyno'r Bil i'r Senedd.[31]

**35.** Fel y nodwyd ym Mhennod 2 o'n hadroddiad, ystyriodd y Pwyllgor Biliau Diwygio fecanwaith adalw yn ei adroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (fel ydoedd bryd hynny) ym mis Ionawr 2024. Gwnaeth y Pwyllgor Safonau ystyried y mater yn benodol wedi hynny, gan adrodd i'r Senedd ym mis Ionawr 2025. Yn fuan wedyn, adroddodd y Pwyllgor Safonau i'r Senedd hefyd ar fater dichell fwriadol gan Aelodau o'r Senedd.

**36.** Cyflwynwyd *Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024* (Deddf EEB 2024) i'r Senedd ym mis Hydref 2023, ac roedd yn cynnwys amrywiaeth o ddarpariaethau i newid gweinyddiaeth etholiadau yng Nghymru. Yng nghyfnod 2, cyflwynwyd gwelliant y cytunwyd arno gan aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a fyddai wedi galluogi anghymhwyso Aelod o'r Senedd a gafwyd yn euog o drosedd newydd o ddichell fwriadol. Daeth Llywodraeth Cymru i gytundeb yn ystod Cyfnod 3 y Bil gyda chefnogwyr y gwelliant i ddileu'r ddarpariaeth honno o'r Bil yn gyfnewid am ymrwymiad i wneud gwaith pellach ar y cynigion a chyflwyno deddfwriaeth i'r un perwyl erbyn diwedd y Senedd. Mewn llythyr at y Pwyllgor Safonau, nododd y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd y safbwynt hwn:

[31] Memorandwm Esboniadol, Pennod 3.1

> *"Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth cyn 2026 ar gyfer gwahardd Aelodau ac ymgeiswyr a gafwyd yn euog o dwyll bwriadol trwy broses farnwrol annibynnol a bydd yn gwahodd y pwyllgor i wneud cynigion i'r perwyl hwnnw.*
>
> *Y ffordd orau o ystyried y mater hwn yn fanwl yw drwy'r gwaith y mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ei wneud yn ei ymchwiliad i Atebolrwydd Aelodau Unigol, ac felly rwy'n*
>
> *gwahodd y pwyllgor i wneud cynigion ar y mater pwysig hwn fel rhan o'r gwaith hwnnw. Edrychaf ymlaen at yr argymhellion a wneir gan y Pwyllgor."*[32]

**37.** Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol[33], ym mis Rhagfyr 2024, yn ystod gwaith y Pwyllgor Safonau ar adalw a dichell fwriadol, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i gadw slot ym mhumed flwyddyn ei rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer deddfwriaeth yn ymwneud â mecanwaith adalw. Ar y pryd, dywedodd Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig:

> *"Fodd bynnag, ni ddylid tanddatgan yr amserlenni heriol, ac mae'n hanfodol bod pob rhan o'r broses yn gallu symud ymlaen yn gyflym. Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael i ddatblygu deddfwriaeth yn iawn mewn maes sydd â chynsail cyfyngedig a sicrhau bod gan y Senedd yr amser angenrheidiol i graffu ar y ddeddfwriaeth honno a'i gwella."*[34]

**38.** Yn dilyn yr ymrwymiad hwn, ac wrth ymateb yn ffurfiol i adroddiad y Pwyllgor Safonau ar adalw, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"Byddaf yn cyflwyno Bil yn ystod y Senedd bresennol a fydd yn sefydlu system adalw. Mae datblygu deddfwriaeth sylfaenol, ei drafftio, craffu arni a'i phasio cyn diddymu, a hynny mewn ychydig dros flwyddyn, yn her sylweddol, ond yn un, os mai dyna yw dymuniad y Senedd, y bydd y Llywodraeth yn ceisio ei chyflawni. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, er y dylai'r*

---

[32] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, 13 Gorffennaf 2024
[33] Memorandwm Esboniadol, paragraff 17
[34] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Safonau, 2 Ionawr 2025

*amserlen hon ganiatáu i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei rhoi ar waith, er ar fyrder, ni fyddai'n galluogi'r gwaith dilynol o ran datblygu a phasio is-ddeddfwriaeth neu unrhyw ganllawiau gan y Pwyllgor a fyddai eu hangen cyn i'r system gael ei gweithredu'n llawn. Er y bydd pasio deddfwriaeth sylfaenol yn ystod y Senedd hon yn gyflawniad pwysig, bydd angen bwrw ymlaen yn ddi-oed â'r gwaith o'i gweithredu'n llawn yn ystod y Seithfed Senedd."*[35]

**39.** Rhoddodd cynrychiolwyr y gymuned etholiadol dystiolaeth i ni ar 18 Tachwedd 2025, ac yn ystod y sesiwn hon esboniwyd eu rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Bil i ni.

**40.** Dywedodd Tom Hawthorn o'r Comisiwn Etholiadol wrthym ei fod wedi cael sgyrsiau defnyddiol iawn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, a bod y Comisiwn Etholiadol wedi bod yn ofalus i geisio cymryd yr hyn yr oedd wedi'i ddysgu o'r profiad o ddeisebau adalw ar gyfer Senedd y DU, fel y gall rannu'r profiad hwnnw a dysgu o'r profiadau hynny. Wrth wneud hynny, dywedodd Mr Hawthorn fod y Comisiwn Etholiadol yn cydnabod bod y system etholiadol ar gyfer etholiadau'r Senedd yn wahanol iawn i'r system ar gyfer etholiadau Senedd y DU, a bod angen adlewyrchu'r gwahaniaethau hynny yn y cynigion sy'n cael eu cyflwyno.[36]

**41.** Dywedodd Mark Pascoe o'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (y BRhE) wrthym ei fod wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar gynnydd y polisi wrth iddo gael ei ddatblygu, ond nad oedd wedi cael unrhyw sgyrsiau penodol ynghylch y polisi ei hun.[37]

**42.** Dywedodd Clare Sim o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (yr AEA) nad oedd wedi cael unrhyw sgyrsiau penodol ynghylch datblygiad y polisi, ond ei bod yn cydnabod y bydd llawer o'r pethau sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadau yn cael eu hadlewyrchu yn yr is-ddeddfwriaeth.[38]

**43.** Ar 6 Hydref 2025, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol fersiwn ddrafft o'r Bil ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn y datganiad ysgrifenedig cysylltiedig, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

[35] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Atebolrwydd Aelodau Unigol: Adalw
[36] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [5]
[37] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [10]
[38] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [15]

> *"Nod cyhoeddi'r Bil drafft heddiw yw rhoi cyfle i Aelodau'r Senedd a rhanddeiliaid sydd â diddordeb weld cwmpas a chyfeiriad arfaethedig y Bil cyn iddo gael ei gyflwyno'n ffurfiol yn yr hydref. Nid yw'n cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori pellach ar hyn o bryd. Mae'n parhau i fod yn ddarostyngedig i benderfyniad y Llywydd ac efallai y bydd newidiadau cyn y caiff ei gyflwyno. Felly, nid dyma'r fersiwn derfynol."*[39]

**44.** Fel arfer, mae Pwyllgor Busnes y Senedd yn gallu rhoi 10 i 12 wythnos eistedd (ar gyfartaledd) i Bwyllgorau'r Senedd i ystyried egwyddorion cyffredinol Bil yn ystod Cyfnod 1 y broses ddeddfwriaethol. Wrth i etholiad nesaf y Senedd agosáu, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i gwblhau ei rhaglen ddeddfwriaethol cyn i'r Senedd gael ei diddymu ym mis Ebrill 2026. Felly, dim ond saith wythnos eistedd a roddwyd i ni i gwblhau ein gwaith casglu tystiolaeth a chyflwyno ein hadroddiad gerbron y Senedd.

**45.** Gwnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes ar ddau achlysur[40] yn mynegi pryderon ynghylch yr amserlen heriol y gofynnwyd i ni gwblhau ein gwaith ynddi. Yn ein hail lythyr ar y pwnc hwn, dyddiedig 26 Tachwedd, gwnaethom dynnu sylw at ein pryderon cynyddol nad oedd digon o amser ar gael i ni ystyried darpariaethau'r Bil a'i oblygiadau yn llawn pe bai'n cael ei basio'n gyfraith.[41]

**46.** Dywedodd yr Athro Alistair Clark wrthym fod ganddo bryderon ynghylch pa mor gyflym y mae'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei chyflwyno. Fel darn o ddeddfwriaeth arwyddocaol, dywedodd yr Athro Clark fod angen digon o amser i graffu arno, ac, os bydd yn llwyddiannus, ei roi ar waith.[42] Ychwanegodd yr Athro Clark:

> *"Both the practice of recall, and the introduction of the issue in part 3 about making or publishing false or misleading statement are important pieces of legislation. It is more important to get these right than to have rushed and problematic legislation on the statute book in advance of the 2026 Senedd election. I therefore recommend that this legislation be paused and, should a new administration be*

[39] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Bil Drafft Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)
[40] Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 31 Hydref 2025
[41] Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 26 Tachwedd 2025
[42] MAB04 Yr Athro Alistair Clark

> *minded, be reintroduced as part of the new Welsh government's legislative programme in 2026."*[43]

**47.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, cododd Transparency International UK bryderon hefyd ynghylch pa mor gyflym y gallai'r Bil fynd drwy'r Senedd, gan awgrymu y dylid ailystyried y cyflymder, gan ddatgan hefyd:

> *"… this draft Bill introduces or amends three important aspects of the standards and accountability landscape at the Senedd which each deserve fulsome scrutiny. The pace therefore of the planned passage of the Bill is disappointing. (…)*
>
> *Essentially, these policy proposals would change the accountability mechanisms in the Senedd and introduce new, potentially criminal, offences. They must be adequately consulted upon and scrutinised and detailed provisions with clear parameters as to the impact on Members of the Senedd understood and agreed to. Public perceptions of what is changing must also be considered."*[44]

**48.** Yn ei dystiolaeth, dywedodd Unlock Democracy nad yw wedi bod yn bosibl i Unlock Democracy wneud sylwadau manwl ar y bil drafft oherwydd y cyfyngiadau amser.[45] Nododd Un Llais Cymru hefyd yr amserlen fer iawn a roddwyd i randdeiliaid i gyflwyno ymateb i ymgynghoriad oherwydd yr amserlen a osodwyd ar gyfer y Bil.[46]

## Yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd i gyflawni'r amcanion cyffredinol

**49.** Mynegodd nifer o randdeiliaid gefnogaeth gadarnhaol eang i gyflwyno'r Bil a'i nod o gynyddu atebolrwydd Aelodau o'r Senedd drwy gryfhau'r systemau presennol i reoleiddio a sancsiynu eu hymddygiad.

**50.** Dywedodd Alberto Costa AS, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin, wrthym fod Deddf 2015 yn rhan bwysig o dirwedd safonau Tŷ'r Cyffredin.[47]

[43] MAB04 Yr Athro Alistair Clark
[44] MAB11 Transparency International UK
[45] MAB08 Unlock Democracy
[46] MAB06 Un Llais Cymru
[47] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [6]

**51.** Dywedodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol (ERS) Cymru ei bod yn croesawu uchelgais Llywodraeth Cymru i wella atebolrwydd Aelodau o'r Senedd a chryfhau rheoliadau a sancsiynau ynghylch ymddygiad.[48]

**52.** Mae Paul Evans a Syr Paul Silk o'r farn bod y Bil yn ddatblygiad i'w groesawu o ran atebolrwydd democrataidd ac yn debygol o helpu i ryw raddau i atgyfnerthu hyder etholwyr yn y Senedd.[49]

**53.** Dywedodd Elkan Abrahamson wrthym fod unrhyw gamau i wella uniondeb y broses wleidyddol ac atebolrwydd y gymuned wleidyddol i'w croesawu.[50]

**54.** Mae Crynwyr Cymru o'r farn fod y Bil yn rhoi cyfle i ymwreiddio safonau gwell o ran atebolrwydd ac uniondeb etholiadau ar gyfer y Senedd, gan ei ddisgrifio fel cam mawr tuag at gryfhau sylfeini atebolrwydd democrataidd, ymddiriedaeth y cyhoedd ac uniondeb ym mywyd gwleidyddol Cymru.[51] Mae hefyd yn croesawu'r camau y mae'r Bil yn eu cymryd i wella atebolrwydd Aelodau o'r Senedd, i alluogi adalw o dan amgylchiadau priodol, i gryfhau'r fframwaith safonau ac i fynd i'r afael ag ymddygiad mewn etholiadau. Serch hynny, mae Crynwyr Cymru o'r farn y byddai'r Bil yn elwa ar eglurhad a gwelliannau, yn enwedig mewn perthynas â rôl a statws aelodau lleyg, cyfyngiadau tymor, niwtraliaeth wleidyddol a chysondeb safonau a gymhwysir i bawb sy'n rhan o'r gyfundrefn safonau.[52]

**55.** Wrth fynegi ei farn y byddai sefydlu mecanwaith adalw yn helpu i adfer rhywfaint o hyder y cyhoedd ac yn gwella atebolrwydd drwy ganiatáu adalw o dan amgylchiadau cyfyngedig, dywedodd Dr Ben Stanford wrthym hefyd fod sawl diffyg nodedig. Dywedodd:

> *"First, there is a risk that the mechanism contributes to, rather than alleviates, public apathy if voters are only given a heavily diluted power of recall in the form of a "retain or remove and replace" system, which lacks a real choice of who should succeed the removed Member. Second, there is a risk that some voters will lack representation in the Senedd for potentially several years, in between elections, if recalled*

---

[48] MAB07 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
[49] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk
[50] MAB16 Elkan Abrahamson
[51] MAB05 Crynwyr Cymru
[52] MAB05 Crynwyr Cymru

> *Members cannot be replaced due to the inability to hold a by-election."*[53]

**56.** Dywedodd Keith Bush KC, cyn-brif gynghorydd cyfreithiol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (ar y pryd), wrthym na allai natur canmoladwy nod y Bil gyfiawnhau deddfwriaeth ddrwg, ac y byddai bwrw ymlaen gyda'r Bil yn creu system adalw gymhleth, gyda chostau sylweddol, ond na fyddai'n cyflawni'r nod hwnnw. Dywedodd nad yw'r Bil yn sicrhau system gymharol syml nac effeithiol er mwyn cyrraedd y nod o wneud Aelodau o'r Senedd yn fwy atebol i etholwyr, ac y gall y system adalw a gynigir gan y Bil ddrysu a diflasu etholwyr ac arwain i deimlad ei bod wedi'i chynllunio i roi argraff gamarweiniol o well atebolrwydd. O ganlyniad i'w bryderon, mae o'r farn na ddylid bwrw ymlaen gyda Rhan 1 o'r Bil, ac y dylid datblygu mecanwaith adalw a fydd yn manteisio ar brofiad wrth weithredu'r system etholiadol newydd.[54]

**57.** Wrth roi tystiolaeth i ni ar ddiwedd ein cyfnod casglu tystiolaeth, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

> *"The Government is enabling a series of things that the Commission needs to put in place—the parliamentary authorities—and the Government is very keen not to appear to be telling the parliamentary authorities how to manage their business or run their proceedings. So, there are a large number of things in the Bill that are effectively Aunt Sallys, if you like, so a place to start the conversation, or they're permissive…".*[55]

**58.** Pan ofynnwyd iddi a ddylai'r Llywodraeth fod wedi ymgynghori â'r cyhoedd ar y Bil cyn ei gyflwyno i'r Senedd, ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"The Bill might well have benefited from pre-consultation, but this, as you know, is part of an agreement with a number of other parties in the Senedd…".*[56]

## Rhan 4 o'r Bil, dod i rym a gweithredu

**59.** Mae Rhan 4 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau cyffredinol, fel pwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol a dyddiadau dod i rym.

---

[53] MAB02 Dr Ben Stanford
[54] MAB13 Keith Bush KC
[55] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [10]
[56] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [18]

**60.** Daw Rhannau 2 a 4 o'r Bil i rym ddeuddydd ar ôl i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Daw Rhan 3 o'r Bil i rym ddeufis ar ôl Cydsyniad Brenhinol. Daw Adran 6 i rym ar ddiwrnod a nodir mewn Gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

**61.** O ran y pŵer i gychwyn Rhan 1 drwy Orchymyn, yn y Datganiad o Fwriad Polisi, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn datgan:

> *"Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol er mwyn cynllunio'r broses o weithredu'r system adalw yn ofalus. Er enghraifft, ni ddylai'r digwyddiadau sbardun fod mewn grym cyn i'r rheoliadau sy'n nodi'r modd y cynhelir pôl adalw gael eu gwneud (o dan adran 11 o'r Bil). Efallai y bydd ystyriaethau hefyd o ran amseru mewn perthynas â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn dyroddi'r canllawiau adalw sy'n ofynnol er mwyn i ddigwyddiad sbardun B fod yn weithredol, neu ar gyfer unrhyw angen i ddiwygio Rheolau Sefydlog y Senedd i ystyried y system adalw."*[57]

**62.** Hefyd, dywed y Cwnsler Cyffredinol yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"… bydd angen gwneud darpariaeth sylweddol mewn is-ddeddfwriaeth o ran y "rheolau" yn ymwneud â phôl adalw (o bosibl yn debyg i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau ar gyfer etholiadau cyffredinol i'r Senedd) a rheoleiddio ariannol ac ati. Yn sgil yr amserlen ychydig yn hirach ar gyfer llunio'r is-ddeddfwriaeth, bydd cynlluniau ymgysylltu ac ymgynghori penodol yn cael eu datblygu, gan gyflawni argymhellion penodol [y Pwyllgor Safonau]."*[58]

**63.** Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn gobeithio y bydd yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol yn cael ei chytuno'n gynnar yn y Seithfed Senedd ac mae wedi cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd pwy bynnag fydd y Llywodraeth newydd yn gallu gwneud hynny.[59]

**64.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd ERS Cymru ei bod yn pryderu ynghylch y tebygolrwydd y byddai darpariaethau'r Bil yn cael eu gweithredu yn y Senedd nesaf, gan ychwanegu:

---

[57] Datganiad o Fwriad Polisi, tudalen 9
[58] Memorandwm Esboniadol, paragraff 139
[59] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [192]

> *"The legislation, as currently drafted, makes several provisions enabling further guidance or changes to the Standing Orders of the Senedd, and confers broad powers to Welsh ministers, rather than directly making changes under primary legislation.*
>
> *Given this bill is only recently introduced and would pass only shortly before dissolution for the Senedd election, our expectations are that any guidance or amends to the Standing Orders of the Senedd would only take place in the next Senedd. Particularly, with regards to recall of Senedd Members, this would only be possible if the Standards of Conduct Committee in a future Senedd decided to draft recall guidance, and then if that guidance passed the comparatively high bar of a two thirds threshold, which would be no guarantee. Furthermore, the bill confers broad powers to future Welsh Minister to create criminal offences, which could have unintended consequences."*[60]

**65.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i ni, dywedodd y Llywydd ei bod yn bosibl "y bydd angen newidiadau sylweddol i Reolau Sefydlog y Senedd er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth". Aeth y Llywydd ymlaen i ddweud:

> *"Unwaith y cytunir ar y newidiadau angenrheidiol i Reolau Sefydlog y Senedd, bydd nifer o gamau ychwanegol y byddai angen eu cymryd er mwyn rhoi effaith i ddarpariaethau penodol. Er enghraifft, byddai angen datblygu ac ymgynghori ar unrhyw ganllawiau adalw cyn eu cynnig i'w derbyn gan y Senedd.*
>
> *Efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi, oherwydd yr amserlenni, na fydd nifer o ddarpariaethau'r Bil fel y'u drafftiwyd ar hyn o bryd yn cael effaith am gryn amser ar ôl etholiad y Senedd yn 2026."*[61]

**66.** Wrth siarad â ni am y camau sydd eu hangen i weithredu darpariaethau'r Bil, dywedodd Tom Hawthorn o'r Comisiwn Etholiadol wrthym y byddai'r Comisiwn yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch unrhyw faterion, pryderon neu awgrymiadau ar gyfer gwella'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol.[62]

[60] MAB07 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
[61] MAB14 Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones, Llywydd, Senedd Cymru
[62] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [92]

**67.** Ychwanegodd Clare Sim o'r AEA fod yr AEA fel arfer yn gofyn am weld is-ddeddfwriaeth ddrafft i wirio ei hymarferoldeb o safbwynt gweinyddol, a'i bod bob amser yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Etholiadol wedi hynny ar unrhyw faterion neu bryderon sy'n codi bryd hynny.[63]

**68.** Dywedodd Mark Pascoe o'r BRhE y gallai'r Bwrdd ddarparu fforwm i swyddogion canlyniadau i drafod cyflwyno polau adalw, ac y gallai'r platfform gwybodaeth etholiadau newydd (y mae'r BRhE yn gyfrifol amdano) ddarparu gwybodaeth am bolau adalw yn uniongyrchol i bleidleiswyr a gwybodaeth am sut y gallant gymryd rhan yn y polau.[64]

**69.** Yn dilyn ei sesiwn dystiolaeth lafar, ysgrifennodd y Comisiwn Etholiadol atom yn rhoi sylwadau pellach ar rwystrau posibl i weithredu'r Bil, gan ddatgan:

> *"… bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Swyddogion Canlyniadau Etholaeth, ymgyrchwyr a phobl eraill sy'n gyfrifol am weithredu yn cael digon o amser i baratoi at eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau newydd. Dylai pob deddfwriaeth fod yn glir (gan gynnwys cyflwyno unrhyw reoliad i'w cymeradwyo) o leiaf chwe mis cyn mae angen iddo gael ei weithredu neu y mae angen i bleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadau neu ymgyrchwyr gydymffurfio ag ef."*[65]

**70.** Dywed y Cwnsler Cyffredinol yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Ar hyn o bryd, ni fwriedir cynnal adolygiad ar ôl gweithredu yn achos y Bil hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi'r ddeddfwriaeth hon mewn ymateb i argymhellion Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd yn rhan o'i ymchwiliad i atebolrwydd Aelodau Unigol. O ran mesurau'r Bil i gryfhau proses safonau'r Senedd, bydd y Senedd, Comisiwn y Senedd a'r Comisiynydd Safonau yn gyfrifol am fonitro'r effeithiau. Mae'n bosibl y bydd y Senedd yn dymuno cynnal adolygiad ar ôl i'r system adalw gael ei rhoi ar waith a'i defnyddio am y tro cyntaf.*
>
> *Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r effeithiau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth yn ystod gwaith craffu'r Senedd ac wrth roi mesurau'r Bil ar waith. Yn rhan o'r gwaith monitro hwn, bydd yr asesiadau effaith a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru*

[63] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [97]
[64] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [95]
[65] MAB15 Y Comisiwn Etholiadol

*yn cael eu hadolygu fel y bo'n angenrheidiol ac yn briodol, gan gynnwys cynnal ailasesiad o effeithiau'r ddeddfwriaeth pan fydd Llywodraeth Cymru yn datblygu'r rheoliadau dilynol a fydd yn rhoi'r system adalw ar waith."*[66]

## Cymhwysedd deddfwriaethol

**71.** Dywed y Cwnsler Cyffredinol yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil:

> *"Mae gan Senedd Cymru ("y Senedd") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) ("y Bil") yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017."*[67]

**72.** Er mwyn i Fil – os caiff ei basio fel Deddf Senedd Cymru – fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, rhaid iddo beidio â chynnwys darpariaethau sy'n methu â bodloni unrhyw un o'r profion a nodir yn adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Un o'r profion hyn yw na ddylai darpariaeth dorri unrhyw un o'r cyfyngiadau yn Atodlen 7B i Ddeddf 2006. Un cyfyngiad o'r fath yw na all darpariaeth roi unrhyw swyddogaeth i awdurdod a gedwir yn ôl heb gydsyniad Gweinidog priodol y Goron.

**73.** Ym marn y Llywydd, byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Yn ei datganiad i'r Senedd ar 3 Tachwedd, dywedodd y Llywydd:

> *"Yn fy marn i:*
>
> *▪ Byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau), a gyflwynwyd ar 3 Tachwedd 2025, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.*
>
> *▪ Ni fyddai rhai darpariaethau o fewn adran 4 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, i'r graddau y maent yn gosod dyletswyddau ar y llysoedd, gan nad yw cydsyniad y Gweinidog*

[66] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 243 a 244
[67] Memorandwm Esboniadol, paragraff 6

> *perthnasol yn y DU sy'n angenrheidiol ar gyfer gosod dyletswyddau o'r fath wedi'i roi eto."*[68]

**74.** Un arall o'r profion a nodir yn adran 108A o Ddeddf 2006 yw na ddylai darpariaeth fod yn anghydnaws â'r hawliau a ddiogelir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ('hawliau'r Confensiwn').

**75.** Trafodir materion penodol sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol a hawliau'r confensiwn ymhellach ym Mhenodau 4 a 6.

## Pwerau yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth.

**76.** Mae'r Bil yn rhoi pedwar pŵer i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth, fel a ganlyn:

- Adran 11(1) - pŵer i wneud rheoliadau ynghylch rhedeg polau adalw, yn amodol ar weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.
- Adran 22(3) – pŵer i wneud gorchymyn o dan is-adran (2A) newydd o adran 13 o Ddeddf 2006 i wneud darpariaeth sy'n gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau ffeithiau anwir neu gamarweiniol cyn neu yn ystod etholiad at ddiben effeithio ar ethol ymgeisydd, yn amodol ar weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.
- Adran 23(1) – pŵer i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc., yn amodol ar weithdrefn gymeradwyo'r Senedd dim ond os yw'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol.
- Adran 24(3) – pŵer i wneud gorchymyn yn pennu'r diwrnod y daw Rhan 1 o'r Bil i rym, heb fod yn ddarostyngedig i weithdrefn graffu'r Senedd.

**77.** Er bod y Bil yn nodi'r fframwaith allweddol ar gyfer polau adalw, bydd llawer o'r manylion sy'n ymwneud â rhedeg pôl adalw, gan gynnwys cofrestru etholwyr a'r cyfyngiadau ar dreuliau a rhoddion ymgyrchu, yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth a wneir o dan adran 11(1) o'r Bil.

**78.** Cyn gwneud y rheoliadau hyn, mae adran 11(4) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol. Yn unol ag is-adran (5), ni ellir gwneud unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau sy'n ymwneud â manylion beth sy'n cael ei ystyried ac nad yw'n cael ei ystyried yn draul neu rodd ymgyrchu

[68] Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau), Datganiad y Llywydd ar gymhwysedd deddfwriaethol, 3 Tachwedd 2025

neu'r terfynau sy'n gymwys i dreuliau a rhoddion ymgyrchu heb gydsyniad y Comisiwn Etholiadol. Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad i gael cydsyniad yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod amrywio terfyn yn "hwylus" o ganlyniad i "newid yng ngwerth arian" (h.y. o ganlyniad i chwyddiant).

**79.** Wrth siarad â ni ar 18 Tachwedd, dywedodd Tom Hawthorn o'r Comisiwn Etholiadol, er y bydd llawer o fanylion yn cael eu gadael i is-ddeddfwriaeth, nad yw hynny'n anghyffredin ar gyfer etholiadau'r Senedd.[69] Mewn tystiolaeth ysgrifenedig yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, dywedodd y Comisiwn Etholiadol wrthym:

> *"Gall fod yn ddefnyddiol dirprwyo pwerau i lunio rheoliadau mwy manwl ynghylch gweinyddu a rheoleiddio etholiadau, fel y gall y gyfraith barhau i esblygu i adlewyrchu'r newidiadau yn yr amgylchedd ehangach a pharhau'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn fras gyson â'r dull o is-ddeddfwriaeth ar gyfer etholiadau'r Senedd fel y'i dirprwywyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sydd ar hyn o bryd hefyd yn caniatáu creu troseddau mewn cysylltiad â therfynau gwariant ymgyrchu."*[70]

**80.** Cododd Transparency International UK bryderon sylweddol gyda ni ynghylch y cydbwysedd pŵer rhwng y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r hyn sy'n cael ei adael i is-ddeddfwriaeth. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd:

- *"The Bill places far too much of the detail of the proposals to be dealt with into secondary legislation, which undermines the policy objectives of the Bill which is meant to enhance accountability and risks prompting further decline in public trust in politics and political institutions.*
- *Without further detail on the face of the Bill, prospective members of the Senedd will not know what they are signing up for in running for election in May 2026.*
- *Any party-political capture of the process of passing secondary legislation could have dramatic and unforeseen consequences.*
- *It has grave concerns at the level of detail currently in the draft Bill and would be alarmed at the detail of the reforms being left to secondary legislation and would recommend at the least a requirement for an*

[69] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [6]
[70] MAB15 Y Comisiwn Etholiadol

> *enhanced scrutiny process for the regulations made possible by the draft Bill".*[71]

**81.** Mewn perthynas â Rhan 3 o'r Bil, mae Alex Greenwood a Jonathan Elystan Rees KC yn datgan:

> *"It is the view of the authors that the creation of a criminal offence prohibiting the making or publishing of false/misleading statements of fact, before or during an election for the purpose of affecting the return of any candidate, is properly a matter for primary not secondary legislation."*[72]

**82.** Trafodir y materion hyn ymhellach ym Mhenodau 4 i 6 o'r adroddiad.

## Costau

**83.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a ddaw gyda'r Bil yn nodi'r costau a'r manteision disgwyliedig sy'n deillio o'r Bil. Mae'r cyfnod arfarnu ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cwmpasu 2026-27 i 2035-36, sy'n cynnwys dau gylch etholiad y Senedd.[73]

**84.** Mae costau wedi eu nodi ar gyfer Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd ac ar gyfer gweinyddwyr etholiadol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r Comisiwn Etholiadol ac wedi dod i'r casgliad er y byddai'r Bil yn gosod gofynion i'r Comisiwn, y gellid bodloni'r rhain o'r adnoddau presennol.[74]

**85.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau o £190,000 i Lywodraeth Cymru. Byddai'r costau hyn yn gostau staff (costau cyfle) yn ystod 2026-27 i ddatblygu a gwneud is-ddeddfwriaeth drwy arfer pwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru yn y Bil.[75]

**86.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r BRhE i asesu'r gost o weinyddu pôl adalw. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar gyfres o ragdybiaethau ynglŷn â ffurf pôl adalw (o ystyried y bydd rheolau manwl yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth) ac mae'n defnyddio costau etholiad cyffredinol y Senedd yn 2021 (gyda rhai addasiadau) i asesu cost pob elfen o weinyddu pôl adalw. Y casgliad o'r asesiad hwn yw y byddai gweinyddu pôl adalw y Senedd mewn un etholaeth yn

---

[71] MAB11 Transparency International UK
[72] MAB18 Jonathan Elystan Rees KC ac Alex Greenwood
[73] Memorandwm Esboniadol, Rhan 2, Asesiad Effaith Rheoleiddiol
[74] Memorandwm Esboniadol, paragraff 170
[75] Memorandwm Esboniadol, tudalen 38

costio tua £274,900. Er y byddai'r costau hyn yn cael eu gweld wrth weinyddu etholiadau gan awdurdodau lleol, byddent yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru.[76]

**87.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau i Gomisiwn y Senedd mewn perthynas â datblygu canllawiau sancsiynu gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac ar gyfer recriwtio a thalu aelodau lleyg y Pwyllgor. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Chomisiwn y Senedd i nodi'r costau hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r costau a nodwyd ar gyfer datblygu canllawiau yn ymwneud ag amser staff (£64,800) gyda chyngor cyfreithiol ychwanegol (£3,500-£6,000) ac ymchwil academaidd allanol (£3,500-£4,000) wedi'u nodi hefyd. Mae hyn yn dod â chyfanswm y costau ar gyfer yr elfen hon i £71,800-£74,800.[77]

**88.** Dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y disgwylir i'r broses o recriwtio aelodau lleyg fod yn debyg i benodiadau cyhoeddus eraill a gynhaliwyd yn flaenorol gan y Senedd. Yn seiliedig ar y profiad hwn, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau o £5,000-£20,000 ar gyfer cwmni recriwtio allanol ac £8,200 o gostau cyfle amser staff. Mae hyn yn dod â chyfanswm costau'r elfen hon i £13,200-£28,200. Gan nad yw amseriad ac amlder ymarferion recriwtio yn hysbys, mae'r costau hyn wedi eu trosi i ffigur blynyddol ar draws y cyfnod arfarnu at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i roi swm o £4,700 y flwyddyn (gan ddechrau yn 2026-27).[78]

**89.** O ystyried nad yw'n hysbys a fyddai Aelodau o'r Senedd yn y dyfodol yn dewis penodi aelodau lleyg ai peidio, faint o aelodau fyddai'n cael eu penodi na beth fyddai'r trefniadau talu, nododd Comisiwn y Senedd fod cost aelodau lleyg yn anhysbys. Fodd bynnag, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio darparu amrywiaeth o gostau, gan ddechrau o £0 pe na bai aelodau'n cael eu penodi hyd at gost uchaf o £87,200 y flwyddyn. Yn ogystal â hyn, mae'n nodi amcangyfrif y bydd offer TGCh ar gyfer aelodau lleyg yn costio rhwng £0 a £10,500 y flwyddyn.[79]

**90.** Ar ôl ymgysylltu â'r Comisiynydd Safonau, nid yw Llywodraeth Cymru yn nodi unrhyw gostau ychwanegol a fyddai'n codi o ganlyniad i'r pwerau i ymchwilio ar ei ysgogiad ei hun yn y Bil. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod hyn yn

[76] Memorandwm Esboniadol, paragraff 160
[77] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 175 a 176 a thudalen 51
[78] Memorandwm Esboniadol, paragraff 178 a thudalen 51
[79] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 182 a 183 a thudalen 51

cael ei lywio gan brofiad y Comisiynydd fel Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon.[80]

**91.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i ni, cadarnhaodd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, y bu "ymgysylltiad cadarnhaol ac adeiladol rhwng Comisiwn y Senedd a swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch goblygiadau costau posibl y Bil i Gomisiwn y Senedd".[81] Ychwanegodd:

- Fel yr adlewyrchir yn y Memorandwm Esboniadol (paragraff 179), ystyriodd Comisiwn y Senedd "mai'r ffordd fwyaf priodol o adlewyrchu costau cyflog aelodau lleyg yw fel rhai anhysbys".
- O ran y ddarpariaeth yn galluogi'r Comisiynydd Safonau gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun:
  - ar y sail y byddai amlder achosion o'r fath yn isel a bod costau ymchwilio i achos yn amrywio, yn dibynnu ar ei gymhlethdod, "ystyriwyd bod y costau yn sgil cyfleoedd, sy'n deillio o'r pŵer hwn, yn ddibwys, yn anhysbys, ac yn deillio o fewn yr adnoddau presennol";
  - drwy gysylltiad, ystyriwyd, hefyd, fod yr amser staff a dreuliwyd yn cefnogi Pwyllgor Safonau Ymddygiad wrth adrodd ar unrhyw achosion sy'n deillio o bŵer y Comisiynydd yn ddibwys, yn anhysbys, ac yn deillio o'r adnoddau presennol.
- O ystyried bod pwyllgor safonau ymddygiad wedi'i sefydlu ym mhob Cynulliad a Senedd, a bod Rheolau Sefydlog y Senedd eisoes yn ei gwneud yn ofynnol bod pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a bennir yn Rheol Sefydlog 22 (Safonau Ymddygiad), ni ystyrir y bydd mandadu Pwyllgor Safonau Ymddygiad drwy ddeddfwriaeth yn arwain at gostau penodol.
- ni ragwelir y byddai proses pôl adalw yn golygu gwaith ychwanegol i'r Senedd y tu hwnt i fusnes fel arfer.[82]

**92.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, cadarnhaodd y Comisiwn Etholiadol y gallai darparu gwybodaeth i bleidleiswyr am y broses ar gyfer unrhyw bôl adalw a chanllawiau i Swyddogion Canlyniadau Etholaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o

[80] Memorandwm Esboniadol, paragraff 185
[81] MAB09 Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
[82] MAB09 Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

gynnal y bleidlais olygu y bydd "angen ychydig o adnoddau ychwanegol, ond nid yw'n debygol y bydd yr adnoddau hyn yn niferus". Dywedodd wrthym hefyd:

> *"Ar hyn o bryd nid yw'n glir pa ran y byddai gofyn i'r Comisiwn Etholiadol ei chwarae o ran sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau ynghylch rhoddion a threuliau ymgyrchu pleidlais adalw. Yn dibynnu ar gwmpas a graddfa'r gofynion hyn, efallai y bydd rhai goblygiadau ariannol pellach."*[83]

## Ein barn ni

**93.** Fel Pwyllgor, rydym i gyd yn cytuno y dylid croesawu mecanweithiau cryfach i wella atebolrwydd Aelodau o'r Senedd, yn rhannol oherwydd yr effaith ganlyniadol y gallai mecanweithiau o'r fath ei chael ar ganfyddiad y cyhoedd o'r Senedd a (thrwy gysylltiad) sefydliadau democrataidd eraill yng Nghymru, a'u hymddiriedaeth ynddynt.

**94.** Rydym yn cydnabod y gefnogaeth gyffredinol a gawsom i weithdrefn adalw fod ar gael i bleidleiswyr Cymru pe na bai ymddygiad a gweithredoedd cynrychiolydd etholedig yn gydnaws â'r hyn y dylid ei ddisgwyl yn rhesymol gan Aelod o'r Senedd. Rydym hefyd yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y gallai aelodau lleyg ei chael ar weithrediad system safonau'r Senedd.

**95.** Serch hynny, teimlwn ei bod yn bwysig cydnabod pryderon rhanddeiliaid ynghylch pa mor gyflym y gallai'r Bil hwn fynd drwy'r Senedd ar ei ffordd i ddod yn Ddeddf – Deddf a fydd â chanlyniadau sylweddol i'r ffordd y mae ein senedd yn gweithredu ac, yn bwysicach fyth o bosibl, y ffordd y bydd gan y cyhoedd yng Nghymru fwy o allu i'n dwyn i gyfrif am ein gweithredoedd.

**96.** Cawsom un sylw llym, ac sy'n adlewyrchu sylwadau eraill a gawsom, gan Keith Bush KC a ddywedodd "na allai natur canmoladwy nod y Bil gyfiawnhau deddfwriaeth ddrwg". Mae'r ychydig wythnosau a gawsom i wneud y gwaith craffu, a'r nifer fach iawn o ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad oherwydd y cyfnod craffu byrrach, yn golygu nad oes gennym ddigon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad a yw hon yn 'ddeddfwriaeth ddrwg' ai peidio.

**97.** Mae sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol wrthym fod nifer fawr o bethau yn y Bil yn fan cychwyn y sgwrs ymhell o fod yn arfer ddeddfwriaethol orau ac yn tynnu sylw at y ffaith ein bod ni, fel pwyllgor a'r Senedd gyfan, mewn sefyllfa annymunol.

---

[83] MAB15 Y Comisiwn Etholiadol

**98.** Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi ceisio esbonio yn y Memorandwm Esboniadol yr amserlen ar gyfer deddfu, gan dynnu sylw at y ffaith ein bod ym mlwyddyn olaf y Chweched Senedd. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn cadarnhau nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal ei hymgynghoriad cyhoeddus ei hun ar y polisïau sy'n cael eu rhoi ar waith drwy'r Bil. Wrth esbonio hyn ymhellach, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn tynnu sylw at y ffaith bod adroddiadau'r Pwyllgor Safonau ar adalw a dichell fwriadol wedi'u llywio drwy ymgynghoriad cyhoeddus a sesiynau tystiolaeth a bod y gwaith hwn "wedi bod, i raddau helaeth, yn sail i'r gwaith, a hynny er mwyn bodloni'r amserlenni heriol". Ond, ein dealltwriaeth ni yw nad yw'r cynigion terfynol yn y Bil yn adlewyrchu'n llwyr yr opsiynau yr ymgynghorwyd arnynt gan y Pwyllgor Safonau h.y. nid oedd canllawiau adalw yn rhywbeth a ystyriwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw.

**99.** Yn yr un modd, o ran y dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r Bil, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â gwaith ymgysylltu dwyochrog wedi'i dargedu gyda Chomisiwn y Senedd i sicrhau bod y Llywodraeth yn "ymwybodol o'u barn ar y materion allweddol gan gynnwys goblygiadau ariannol y cynigion". Fodd bynnag, ymddengys o'r dystiolaeth a gawsom gan y Llywydd a Phrif Weithredwr a Chlerc y Senedd nad ymgynghorwyd yn ffurfiol â nhw ar y darpariaethau penodol yn y Bil.

**100.** Un o themâu ein sesiwn dystiolaeth gyda Daniel Greenberg, Comisiynydd Safonau Tŷ'r Cyffredin, oedd pwysigrwydd hyder y cyhoedd yn y system safonau a chyfranogiad y cyhoedd yn y gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer newidiadau i'r gyfundrefn safonau. Er ein bod yn cydnabod bod y Pwyllgor Safonau wedi ymgymryd â rhywfaint o waith ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod ei waith ar atebolrwydd aelodau unigol, nid yw'r cynigion yn y Bil hwn wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru. Ar ben hynny, mae ein hymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i gyfyngu gan yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1.

**101.** Nodwn fod y Cwnsler Cyffredinol, yn ei datganiad i'r Senedd wrth gyflwyno'r Bil, wedi myfyrio ar yr amserlenni tynn ar gyfer taith y Bil.[84]

**102.** Mae ein gwaith craffu ar y Bil wedi'i gyfyngu gan bwynt terfyn sefydlog y Chweched Senedd. Ond, yn amodol ar gytundeb y Senedd, er y bydd y Bil yn debygol o gwblhau ei gamau deddfwriaethol ddiwedd mis Mawrth 2026, mae

[84] Y Cyfarfod Llawn, 4 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [156]

llawer iawn o waith i'w wneud o hyd cyn y gellir cynnal pôl adalw. Mae hyn yn cynnwys:

- Paratoi rheoliadau ar bolau adalw o dan adran 11, a fyddai'n debygol o fod yn destun cyfnod o ymgynghori cyn cael eu cyflwyno gerbron y Senedd i'w cymeradwyo.
- Mewn perthynas â digwyddiad sbardun B, datblygu canllawiau adalw gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a all ddilyn penodi aelodau lleyg, yn ogystal ag ymholiad posibl ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y canllawiau ac ymgynghoriad cyhoeddus dilynol ar ganllawiau drafft.
- Gallai Egwyddor Gould, sy'n nodi y dylid gwneud yr holl ddeddfwriaeth berthnasol i etholiad – gan gynnwys is-ddeddfwriaeth – o leiaf chwe mis cyn hysbysiad am yr etholiad hwnnw, gael ei gymhwyso hefyd i bolau adalw gan eu bod yn cael eu cydnabod yn y Memorandwm Esboniadol fel 'digwyddiad etholiadol'.

**103.** Felly mae'n debygol na fydd y broses adalw (yn enwedig ar gyfer digwyddiad sbardun B) ar waith tan gyfnod sylweddol i mewn i'r Seithfed Senedd. Mae hyn oherwydd yr angen i wneud gwaith sylweddol ar is-ddeddfwriaeth a datblygu canllawiau, a hynny dim ond ar ôl i Lywodraeth nesaf Cymru a'r Senedd gytuno i fwrw ymlaen â'r darnau hyn o waith. Cadarnhawyd yr hyn roeddem yn ei dybio am y sefyllfa gan y Llywydd yn ei thystiolaeth i ni.

**104.** Mae'r ffaith mai dim ond ar ôl gwneud darpariaeth mewn rheoliadau neu orchmynion a chanllawiau perthnasol y bydd rhannau helaeth o'r Bil (os a phan gaiff ei ddeddfu) yn cael eu deall yn llawn, ac felly'n weithredol, wedi arwain at bryderon ynghylch cydbwysedd pŵer amhriodol rhwng y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r hyn sy'n cael ei adael i is-ddeddfwriaeth.

**Casgliad 1.** Rydym yn pryderu bod methiant i ddiwygio Rhan 3 o'r Bil yn unol â'n hargymhelliad 11 (gweler Pennod 6) yn golygu na fydd y Bil yn cael cefnogaeth Aelodau o'r Senedd pan ofynnir iddynt gymeradwyo'r Bil yng nghyfnod 4, sy'n golygu y bydd Rhannau 1 a 2 yn cael eu colli hefyd.

**Argymhelliad 1.** Os yw'r Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil a'i fod yn symud ymlaen i gyfnod nesaf y broses ddeddfwriaethol, rydym yn argymell bod pob Rhan o'r Bil yn cael ei diwygio a'i gwella cyn iddo gael ei basio a'i ddeddfu. Mewn perthynas â Rhan 3, rhaid i'r Bil gael ei ddiwygio i fodloni ein hargymhelliad 11.

**105.** Rydym yn trafod rhannau penodol o'r Bil, ac yn tynnu sylw at ein hargymhellion ar gyfer newid a/neu gamau gweithredu pellach, yn y Penodau sy'n weddill yn yr adroddiad.

# 4. Rhan 1 o'r Bil: Adalw Aelodau o'r Senedd

Mae Rhan 1 o'r Bil yn darparu ar gyfer cyflwyno system adalw i'r Senedd. Byddai'r system hon yn galluogi etholwyr i benderfynu a ddylai Aelod o'r Senedd gadw ei sedd neu gael ei ddiswyddo yn ystod ei dymor o ganlyniad i amgylchiadau penodol.

**106.** Daw'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy Offeryn Statudol Cymru.

## Cychwyn pôl adalw

**107.** O ran y system adalw y darperir ar ei chyfer yn y Bil, dywedodd Hannah Blythyn AS, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, wrthym fod yr hyn a nodir ym Mil Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu i raddau helaeth argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a oedd wedi ceisio dod o hyd i ateb a oedd yn ymarferol ac yn bragmatig yng nghyd-destun y system etholiadol a welwn ar waith ar ôl 2026.[85]

**108.** Yn ei adroddiad ar adalw, argymhellodd y Pwyllgor Safonau[86] y dylai system adalw gael ei hadnabod fel 'pleidlais diswyddo a disodli' er mwyn sicrhau ei bod yn glir beth oedd y broses yn ei olygu o ystyried y gwahaniaeth rhyngddi â system Tŷ'r Cyffredin. Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Safonau, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ystyried y mater hwn ymhellach gan fod dealltwriaeth boblogaidd ymhlith yr etholwyr o "adalw" fel ffordd o gael gwared ar gynrychiolydd.[87]

**109.** Myfyriodd Hannah Blythyn ar hyn pan roddodd dystiolaeth i ni ar 11 Tachwedd; dywedodd:

> *"The only bit where I think there is an element of difference is that, in the draft Bill, it refers to a recall poll still. One of the things we did recommend as a committee was that it be*

[85] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [5]
[86] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Adalw, argymhelliad 4
[87] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Adalw

> *called something such as remove-and-replace, because people are very familiar with the recall system for Westminster now, and this is going to be a slightly different approach. But, also, I think we would take on board that people understand what recall means, so there's only a minor divergence."*[88]

**110.** Gan fframio eu sylwadau o amgylch y profiadau yn Nhŷ'r Cyffredin yn dilyn deddfu Deddf 2015 a chyflwyno system adalw yn Nhŷ'r Cyffredin, mae Paul Evans a Syr Paul Silk o'r farn bod creu mecanwaith ar gyfer adalw aelodau o'r Senedd yn ddatblygiad democrataidd defnyddiol a synhwyrol.[89]

**111.** Awgrymodd yr Athro Alistair Clark i ni y gallai'r darpariaethau system adalw arfaethedig yn y Bil roi offeryn pellach i'r Senedd i ddwyn aelodau i gyfrif. Fodd bynnag, ychwanegodd mai dim ond fel dewis olaf y dylid ystyried ei defnyddio, ar ôl rhoi cynnig ar bob llwybr posibl arall ar gyfer gwneud iawn ac atebolrwydd – yn y Senedd ac yn y pleidiau gwleidyddol.[90]

**112.** Mynegodd ERS Cymru hefyd y farn na ddylid ystyried proses adalw fel yr unig ffordd o gryfhau'r system i ddwyn Aelodau o'r Senedd i gyfrif. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd:

> *"…whilst we do not think that recall procedures are an infallible solution to member accountability, it is important that there is a mechanism to remove Members who have committed serious breaches of conduct and recall measures give voters the opportunity to make that decision."*[91]

**113.** O ran y cynigion adalw, dywedodd Tom Hawthorn wrthym mai'r hyn a fydd yn bwysig i'r Comisiwn Etholiadol yw eglurder i bleidleiswyr, fel y gallant fod yn hyderus bod y broses yn gadarn a'u bod yn deall y canlyniadau, a thegwch hefyd i'r Aelod dan sylw, er mwyn sicrhau ei fod yn teimlo bod y broses wedi bod yn deg ac wedi ystyried yr holl brosesau cyfreithiol a allai fod yn gysylltiedig â hynny.[92]

**114.** Dywedodd Clare Sim, a oedd yn cynrychioli'r AEA, wrthym fod yr AEA bob amser wedi cwestiynu'r angen, o bosibl, am fecanwaith adalw ac efallai symud i

---

[88] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [6]
[89] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk
[90] MAB04 Yr Athro Alistair Clark
[91] MAB07 ERS Cymru
[92] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [101]

anghymhwyso awtomatig mewn rhai achosion.[93] Ychwanegodd yn ddiweddarach:

> *"From what we've learnt from what has happened at UK Parliament level in Great Britain, every recall petition has led to a by-election for that person's seat, which has generally then led to a new person being elected. We appreciate, obviously, that there's no by-election element that results from it at a Senedd level, but our concerns are that because of the nature of it, which generally leads to that, whether there would be benefits that if somebody has an offence to that point where generally the public have voted for that person then to lose their seat, whether, in terms of the administrative burden but also the huge burden on the public purse that each election or recall petition would place on people, whether that becomes an automatic disqualification, which would bypass the need for a recall process."*[94]

**115.** Cawsom dystiolaeth hefyd nad oedd yn cefnogi'r darpariaethau adalw yn y Bil. Yn bennaf, mae'r pryderon hyn yn canolbwyntio ar y ffordd y bydd swydd wag a achosir gan ddiswyddo aelod drwy bôl adalw yn cael ei llenwi wedi hynny. Trafodir y pryderon hyn yn ddiweddarach yn y Bennod hon pan edrychwn ar y darpariaethau yn y Bil ynghylch canlyniad pôl adalw.

**116.** Fe wnaeth y Pwyllgor Safonau argymell mai'r Senedd ddylai benderfynu ar y sbardunau ar gyfer adalw drwy ganllawiau y cytunwyd arnynt gan y Senedd, gan gynnwys y rhai a allai arwain at adalw awtomatig, megis dedfryd o garchar.[95]

**117.** Cynigiodd Daniel Greenberg, Comisiynydd Safonau Tŷ'r Cyffredin yn San Steffan, rai sylwadau cyffredinol am sbardunau yn seiliedig ar ei brofiad. Dywedodd wrthym:

> *"… anything that provides what I would call a fixed point for an effect of sanction has the potential for impacting on the committee's ability to make its own overarching proportionality and wider decisions, and I think that's something that you need*

[93] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [14]
[94] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [33]
[95] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Adalw, argymhelliad 6

> *to bear in mind as an inevitable result of creating a fixed point along the sanctions spectrum."*[96]

**118.** Mae'r Bil, yn adran 2, yn nodi'r amgylchiadau lle byddai Aelod o'r Senedd yn destun pôl adalw. Mae dau 'ddigwyddiad sbardun' wedi'u cynnwys yn y Bil a fyddai'n arwain at aelod yn dod yn destun pôl adalw (gweler blwch 2).

***Blwch 2***

Digwyddiad Sbardun A: Bod Aelod o'r Senedd, ar ôl dod yn aelod, wedi ei euogfarnu yn y DU o drosedd a'i ddedfrydu neu ei orchymyn i gael ei garcharu neu ei gadw'n gaeth.

Digwyddiad Sbardun B: Bod Senedd Cymru yn penderfynu gwneud yr Aelod o'r Senedd yn destun pôl adalw yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn argymell bod aelod yn dod yn destun pôl adalw.

## Digwyddiad sbardun A

**119.** Mae adran 2(2) o'r Bil yn darparu ar gyfer digwyddiad sbardun A, gyda rhagor o wybodaeth am y digwyddiad hwn wedi'i nodi yn adrannau 3 a 4.

**120.** Mae'n bwysig nodi bod digwyddiad sbardun A yn gymwys i ddedfrydau neu orchmynion o 12 mis neu lai yn unig. Os bydd Aelod o'r Senedd yn cael ei ddedfrydu neu ei orchymyn i gael ei garcharu neu ei gadw'n gaeth am gyfnod amhenodol neu am fwy na blwyddyn, mae eisoes wedi ei anghymhwyso o dan baragraff 6 o Atodlen 1A i Ddeddf 2006.

**121.** Mae adran 3(1) o'r Bil yn egluro bod cyfeiriadau at drosedd yn cynnwys y rhai a gyflawnwyd cyn i'r Aelod ddechrau ei dymor yn y swydd a chyn i adran 2 o'r Bil ddod i rym, ond bod rhaid i'r Aelod gael ei euogfarnu ar neu ar ôl y dyddiad y daw adran 2 i rym.

**122.** Mae adran 3(2) o'r Bil yn egluro mewn perthynas â chyfeiriad at Aelod o'r Senedd yn cael ei ddedfrydu neu ei orchymyn:

- mae'n cynnwys pan fo'r ddedfryd neu'r gorchymyn yn ohiriedig,
- nid yw'n cynnwys yr Aelod yn cael ei remandio yn y ddalfa, ac

[96] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [8]

- nid yw'n cynnwys yr Aelod yn cael ei awdurdodi i gael ei gadw'n gaeth o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl os nad oes dedfryd neu orchymyn ar gyfer carcharu neu gadw'n gaeth heblaw o dan y ddeddfwriaeth honno.

**123.** Dywedodd Hannah Blythyn wrthym, er y byddai'r Pwyllgor Safonau yn cefnogi sbardun awtomatig ar gyfer adalw mewn achosion o ddedfrydau o garchar neu ddedfrydau gohiriedig o 12 mis neu lai, byddai'n well ganddo i hyn gael ei roi mewn canllawiau yn hytrach nag ar wyneb y Bil.[97]

**124.** Pan ofynnwyd i Douglas Bain am ei farn am wneud digwyddiad sbardun A yn gymwys i ddedfrydau neu orchmynion o 12 mis neu lai yn unig, dywedodd y bydd pa gyfnod bynnag a osodir yn fympwyol, ac y bydd rhai achosion yn disgyn ar y naill ochr neu'r llall iddo o drwch blewyn.[98]

**125.** Mynegodd Paul Evans a Syr Paul Silk rai geiriau o rybudd bod effaith digwyddiad sbardun A yn golygu y bydd y llysoedd yn gwneud penderfyniad a ddylid gosod dedfryd sy'n anghymhwyso'n awtomatig, neu ddedfryd sy'n caniatáu i'r pleidleiswyr benderfynu drwy bôl adalw. Gwnaethant awgrymu y gallai hyn roi'r llys mewn cyfyng gyngor, gan nodi bod risg y gallai hyn gael ei gynrychioli fel bod y llysoedd yn gweithredu'n wleidyddol – neu hyd yn oed arwain at y llysoedd yn ymddwyn mewn ffordd wleidyddol.[99]

**126.** Mae adran 4 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar Lysoedd Cymru a Lloegr i hysbysu'r Llywydd pan osodir dedfryd berthnasol neu orchymyn perthnasol ar Aelod o'r Senedd. Rhaid i'r llys sy'n gosod y ddedfryd neu'r gorchymyn hysbysu'r Llywydd.

**127.** Mae is-adran (4) o adran 4 yn datgan, os yw'r euogfarn, y ddedfryd neu'r gorchymyn yn cael ei gwrthdroi neu ei wrthdroi ar apêl, fod rhaid i'r llys y cyflwynwyd yr apêl iddo neu y'i hanfonwyd iddo gan lys arall hysbysu'r Llywydd bod yr euogfarn, y ddedfryd neu'r gorchymyn wedi'i gwrthdroi neu ei wrthdroi.

**128.** Mae is-adran (5) o adran 4 yn egluro bod apêl yn cynnwys apêl i lys yng Nghymru a Lloegr (gan gynnwys y Goruchaf Lys) a chais, ond nid yw'n cynnwys cyfeiriad o dan Ran 2 o Ddeddf Apeliadau Troseddol 1995 i'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol.

[97] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [16]
[98] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [100]
[99] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk

**129.** Er bod yr adran hon o'r Bil yn gosod dyletswydd ar lysoedd Cymru a Lloegr i hysbysu'r Llywydd os caiff Aelod ei euogfarnu o drosedd yn awdurdodaeth Cymru a Lloegr, nid yw'n gosod yr un ddyletswydd ar lysoedd yn yr Alban na Gogledd Iwerddon.

**130.** Tynnodd Paul Evans a Syr Paul Silk sylw at y mater hwn yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, gan ddatgan, er na all y Senedd basio cyfraith sy'n effeithio ar yr Alban na Gogledd Iwerddon, gallai'r Bil ddweud rhywbeth ar ei wyneb am yr hyn a fyddai'n digwydd pe bai euogfarn neu apêl yn yr awdurdodaethau hynny.[100]

## Digwyddiad sbardun B

**131.** Mae adran 2(4) o'r Bil yn darparu ar gyfer digwyddiad sbardun B, gyda rhagor o wybodaeth wedi'i nodi yn adran 5.

**132.** Mae adran 5 o'r Bil yn darparu y caiff Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd, fel y'i sefydlir yn unol ag adran 18 o'r Bil, gyhoeddi canllawiau ynghylch y materion i'w cadw mewn cof wrth ystyried a ddylid argymell bod aelod yn dod yn destun pôl adalw. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor hwnnw roi sylw i'w ganllawiau adalw cyn argymell bod aelod yn dod yn destun pôl adalw.

**133.** Mae adran 5(2) o'r Bil yn cyfyngu'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad rhag argymell bod aelod yn dod yn destun pôl adalw oni bai fod canllawiau adalw ei fod wedi'u cyhoeddi.

**134.** Mae is-adran (4) o adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgor Safonau Ymddygiad gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar fersiwn ddrafft o'r canllawiau, cyn cyhoeddi'r canllawiau eu hunain, a bod rhaid dwyn yr ymgynghoriad i sylw pob Aelod o'r Senedd a Chomisiynydd Safonau'r Senedd (fel sy'n ofynnol o dan is-adran (5)).

**135.** Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, rhaid i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad (os yw'n dymuno bwrw ymlaen) osod copi o'r canllawiau drafft (gydag addasiadau neu hebddynt) gerbron y Senedd, yn unol ag adran 5(6) o'r Bil. Yna, caiff y canllawiau eu cyhoeddi dim ond os yw'r drafft wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad y Senedd, pan fo nifer y pleidleisiau a fwriwyd o blaid y penderfyniad yn o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd, y caiff ei gyhoeddi (fel y rhagnodir gan adran 5(7)).

[100] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk

**136.** Argymhellodd y Pwyllgor Safonau[101], yn ei adroddiad ar adalw, y dylai'r canllawiau fod "yn amodol ar bleidlais gan y Senedd", ond ni nododd y dylai fod angen mwyafrif o ddwy ran o dair.

**137.** Mae adran 5(8) yn galluogi'r Pwyllgor Safonau i ddisodli'r canllawiau ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi. Mae is-adran (9) yn sicrhau bod canllawiau adalw yn parhau i fod mewn grym (gan gynnwys ar ddiddymu'r Senedd) nes iddynt gael eu disodli yn unol ag adran 5. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod hyn yn golygu na ellir diffodd digwyddiad sbardun B ar ôl i ganllawiau o dan adran 5 gael eu cyhoeddi heb i'r Senedd wneud deddfwriaeth sylfaenol bellach.[102]

**138.** Wrth roi tystiolaeth i ni ar 25 Tachwedd, soniodd Daniel Greenberg am ganllawiau adalw yng nghyd-destun hyblygrwydd yn erbyn sicrwydd, gan ddatgan bod y dull o gael canllawiau yn hyblyg yn y pen draw a chanlyniad anochel hyblygrwydd yw diffyg sicrwydd.[103] Dywedodd hefyd ei fod yn credu ei bod yn deg i bwyllgorau safonau yn gyffredinol fod eisiau i aelodau o senedd gael sicrwydd rhesymol ynghylch canlyniadau tebygol ymchwiliadau safonau[104], cyn mynd ymlaen i ddweud:

> *"[section] 5 in its present form is that everything will depend or would depend on the nature of the guidance and how that guidance is designed to reflect the overarching coherence of the sanctions regime and how much certainty and clarity it gives to Members at the same time. So, what I'm really saying, perhaps, is that the challenge that I've talked about of steering between flexibility and certainty, what you would be doing in [section] 5 is putting that challenge off to the level of quasi-legislation rather than addressing it in a final form on the face of the Bill. Perhaps that's inevitable if you take this route, but that is something I think the committee will have to be very aware of at this point."*[105]

**139.** Ar 11 Tachwedd, dywedodd Hannah Blythyn wrthym, er ei bod yn deall rhesymeg Llywodraeth Cymru, fod yr angen am fwyafrif o ddwy ran o dair i gymeradwyo'r canllawiau adalw yn gwneud y canllawiau hynny'n eithriad i bob

---

[101] Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Adalw, argymhelliad 6
[102] Memorandwm Esboniadol, Nodiadau Esboniadol drafft, tudalen 65, paragraff 15
[103] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [12]
[104] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [13]
[105] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [15]

proses safonau arall, gan dynnu sylw at y ffaith, pan fydd adroddiad gan y Pwyllgor Safonau ar unigolyn yn dilyn adroddiad gan y Comisiynydd Safonau, mai mwyafrif syml sydd ei angen i gymeradwyo'r adroddiad, fel sydd ei angen i gymeradwyo'r Cod Ymddygiad.[106]

**140.** Pan ofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol esbonio pam y mae'r Bil wedi'i ddrafftio gyda gofyniad mwyafrif o ddwy ran o dair mewn golwg, dywedodd nad oes gan Lywodraeth Cymru farn benodol a'i fod yn adlewyrchu'r gofyniad presennol am newidiadau i Reolau Sefydlog y Senedd.[107]

**141.** Mae Dr Ben Stanford yn ystyried bod yr angen am benderfyniad gan y Senedd i gymeradwyo'r canllawiau adalw gyda mwyafrif o ddwy ran o dair o'r pleidleisiau a fwriwyd yn gadarnhaol ac y bydd yn helpu i sicrhau cefnogaeth wleidyddol eang.[108] Roedd Douglas Bain yn cefnogi'r gofyniad hwn hefyd.[109]

**142.** Awgrymodd ERS Cymru y dylid ystyried pa opsiynau fyddai ar gael os nad oes modd cael mwyafrif o ddwy ran o dair i gymeradwyo neu newid y canllawiau adalw. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod rheolau presennol y Senedd ynghylch sancsiynau am ymddygiad aelodau yn seiliedig ar fwyafrif syml.[110]

**143.** Pan ofynnwyd iddo a ddylai'r Bil osod gofyniad ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gyhoeddi canllawiau adalw, yn hytrach na'i adael fel pŵer caniataol fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, dywedodd Douglas Bain nad oedd yn credu y byddai hynny'n gwneud unrhyw niwed o gwbl.[111] Ar y mater hwn, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod Llywodraeth Cymru yn teimlo'n gryf nad lle'r Llywodraeth yw dweud wrth y Comisiwn seneddol beth y mae'n rhaid iddo ei wneud.[112]

**144.** O ran ymgynghori, dywedodd Dr Stanford y bydd ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr ar ddrafftio'r canllawiau yn hanfodol er mwyn caniatáu amrywiaeth o safbwyntiau ar draws y sbectrwm gwleidyddol ac i sefydlu consensws ynghylch pa ymddygiad ddylai arwain at yr argymhelliad ar gyfer pôl adalw.[113]

**145.** Mae Rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer penodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a thrafodir hyn ym Mhennod 5 o'n hadroddiad.

---

[106] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [21]
[107] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [40]
[108] MAB02 Dr Ben Stanford
[109] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [111]
[110] MAB07 ERS Cymru
[111] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [121]
[112] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [33]
[113] MAB02 Dr Ben Stanford

Ond, yng nghyd-destun y canllawiau adalw, dywedodd yr Athro Alistair Clark wrthym fod y cwestiwn ynghylch rôl aelodau lleyg yn y broses canllawiau adalw yn aneglur. Dywedodd:

> *"This is currently a key process in the recall process that would benefit from independent oversight. Consequently, assuming the Bill is proceeded with, any such guidance must be informed by Lay Members' views. This suggests either that initial guidance is reissued after the appointment of Lay Members, or alternatively the Committee waits until Lay Members are appointed before drafting such guidance. This seems to underline the difficulties with the recall guidance process in trigger event 2 highlighted above which seem to be caused by the haste to legislate for recall."*[114]

**146.** Yn ei dystiolaeth, dywedodd yr Athro Clark fod pryderon sylweddol ynghylch yr ail ddigwyddiad sbardun posibl, gan awgrymu bod gwneud y potensial am bleidlais adalw yn ddibynnol ar gyhoeddi canllawiau yn ymddangos yn annoeth. Awgrymodd hefyd ei bod yn ymddangos yn annoeth bod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn cyhoeddi canllawiau ynghylch y materion y mae'n rhaid iddo eu hystyried. Yn sgil ei bryderon ynghylch digwyddiad sbardun B, argymhellodd yr Athro Clark y dylid rhoi ystyriaeth lawer cliriach i'r sbardun hwn, a'i seilio ar feini prawf mwy gwrthrychol sydd wedyn yn cael eu hymgorffori mewn deddfwriaeth. Awgrymodd hefyd fod yn rhaid i unrhyw feini prawf ar gyfer sbarduno adalw fod â chysylltiad da â Chod Ymddygiad y Senedd a'i ddewislen o sancsiynau posibl, ac yn ddilyniant clir ohonynt, i ddechrau, yn hytrach na gweld adalw fel rhywbeth hanfodol ac angenrheidiol ynddo'i hun.[115]

**147.** Mewn perthynas â digwyddiad sbardun B, dywedodd Paul Evans a Syr Paul Silk wrthym y gallai'r dewis i beidio â gosod trothwy penodol yn y gyfraith ar gyfer y cyfnod atal a fydd yn arwain at dynnu'r sbardun arwain at rai risgiau. Dywedasant:

> *"A specified period of suspension could, of course, come in guidance or standing order, but specifying it on the face of the Bill may be thought preferable. The case against this is that the threat of recall has become a major constraint on the flexibility of the Standards Committee's discretion in recommending sanctions – in other words they cannot reach the conclusion*

[114] MAB04 Yr Athro Alistair Clark
[115] MAB04 Yr Athro Alistair Clark

> *that an MP deserves a period of suspension longer than nine days but has not met the criteria for facing recall. Whether it is decided to go for something more specific or leave the decision entirely to the discretion of the Standards Committee, there is always a risk of potential political manipulation, as cases at Westminster have demonstrated. In response to these attempts to "game" the system the Commons have essentially made the decision of the House on sanctions recommended by its Standards Committee a take-it-or-leave-it choice, rather than allowing for the manipulation of a recommendation of the Committee about a period of suspension to be adjusted upwards or downwards by amendment. The extent to which the Senedd in plenary can second guess its Standards Committee is a matter the Senedd will need to give some thought to in framing its standing orders in due course."*[116]

**148.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, awgrymodd Transparency International UK y dylid ystyried a ddylid cynnwys yr egwyddorion sylfaenol sydd i'w cynnwys yn y canllawiau adalw yn y Bil. Rhoddodd enghreifftiau y dylid graddio canllawiau sancsiynu i adlewyrchu difrifoldeb y tor rheol, neu y dylai cyfnod atal penodol sbarduno digwyddiad adalw.[117]

## 'Sbardunau' eraill

**149.** Wrth wneud sylwadau ar ei brofiad personol o system Tŷ'r Cyffredin fel Cadeirydd ei Bwyllgor Safonau, dywedodd yr Aelod Seneddol Alberto Costa fod y system adalw wedi profi i fod yn arf effeithiol yn Nhŷ'r Cyffredin, ond awgrymodd y dylem ystyried trothwy atal dros dro am nifer penodol o ddyddiau fel mecanwaith sbarduno.[118]

**150.** Ychwanegodd Dr David Stirling, aelod lleyg ar Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin, mai mantais ei gael wedi'i amlinellu'n benodol yw ei fod yn darparu rhywfaint o eglurder i bawb.[119]

**151.** Gan barhau ar thema atal fel sbardun, ychwanegodd yr Aelod Seneddol Alberto Costa:

[116] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk
[117] MAB11 Transparency International UK
[118] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [8]
[119] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [14]

> *"… if I were to offer any advice to your committee, it would be that you seek external professional advice from the judiciary involved in workplace disputes, as well as trade unions, to get a better understanding of the sorts of levels in which, in the ordinary workplace, suspensions are granted."*[120]

**152.** Pan roddodd dystiolaeth i ni, cadarnhaodd Hannah Blythyn fod y Pwyllgor Safonau wedi trafod sbardunau awtomatig eraill ar gyfer adalw pan gymerodd dystiolaeth yn ystod ei ymchwiliad, gan nodi bod y drosedd yn Neddf 2015 sy'n ymwneud â gwybodaeth anwir ynghylch lwfansau yn adlewyrchu heriau'r cyfnod. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"One of the reasons why we suggested to have guidance alongside it was that it actually enables—as, perhaps, the standards landscape changes over time—the Senedd to be more agile, and actually reflect that as well. As you can imagine, there were discussions about whether deliberate deception should be there, or somebody found guilty of sexual harassment. I think there was a concern that putting just one thing, or two things, in there elevates one form of misconduct over another, where, actually, they should be acting as a deterrent for all."*[121]

**153.** Gwnaethom ofyn i Douglas Bain hefyd am ei farn ynghylch a ddylai fod sbardunau awtomatig eraill yn y Bil, megis aflonyddu. Dywedodd wrthym na fyddai o blaid cael aflonyddu fel sbardun awtomatig gan y byddai'n cyfleu'r neges anghywir yn llwyr, gan ychwanegu bod rhaid edrych ar bob achos ar sail ei ffeithiau unigol, a gosod cosb neu sancsiwn priodol.[122]

**154.** Cynigiodd Daniel Greenberg eiriau o rybudd hefyd pan ofynnwyd iddo am bwyntiau sbarduno eraill, gan ddatgan y bydd yn anochel yn newid ffocws y pwyllgor pan fydd yn gosod ei benderfyniadau ei hun ynghylch sancsiynau mewn achosion unigol.[123]

**155.** Awgrymodd Paul Evans a Syr Paul Silk y byddai gwerth mewn cynnwys darpariaeth debyg i drydydd amod Deddf 2015 yn y Bil fel y dylai Aelod o'r Senedd sy'n cyflawni trosedd o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru (er enghraifft, o dan

---

[120] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [17]
[121] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [17]. Gweler hefyd Cofnod y Trafodion [19].
[122] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [98]
[123] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [22]

adran 36 o Ddeddf 2006), p'un a yw'n cael ei garcharu ai peidio, fod yn destun pôl adalw.[124]

**156.** Mae Transparency International UK yn ystyried y gallai fod rhai mathau o amhriodoldeb sydd mor ddifrifol fel eu bod yn haeddu diarddel heb droi at system adalw. Awgrymodd y dylai tor rheolau sy'n achosi niwed i eraill, gan gynnwys bwlio neu aflonyddu, fod ymhlith y rhai a ystyrir yn y categori hwn.[125]

## Rhedeg pôl adalw

### Dyddiad y pôl adalw a'r hysbysiad

**157.** Os yw'r Llywydd yn fodlon bod un o'r digwyddiadau sbardun wedi digwydd, mae adran 6 o'r Bil yn rhoi dyletswydd arno i bennu dyddiad ar gyfer pôl adalw ac i hysbysu'r swyddog canlyniadau etholaethol (CRO) ar gyfer etholaeth Senedd yr Aelod sy'n destun pôl adalw.

**158.** Mae'n ofynnol i'r Llywydd ymgymryd â'r camau hyn "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol" ar ôl cael gwybod bod digwyddiad sbardun wedi digwydd. Mae pedwar eithriad (a nodir yn adran 6(2) o'r Bil) lle nad yw'r ddyletswydd hon yn gymwys:

- pe bai dyddiad y pôl adalw o fewn 6 mis i'r etholiad cyffredinol cyffredin nesaf i'r Senedd;
- pe bai dyddiad y pôl adalw ar ôl yr etholiad cyffredinol cyffredin nesaf;
- os yw'r Aelod o'r Senedd eisoes yn destun pôl adalw;
- os bydd sedd yr Aelod eisoes wedi gadael ei sedd.

**159.** Mae adran 6(4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r dyddiad ar gyfer pôl adalw fod o fewn tri mis i'r diwrnod mae'r Llywydd yn hysbysu'r swyddog canlyniadau etholaethol.

**160.** Mae is-adran (5) o adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i hysbysiad a roddir gan y Llywydd gynnwys:

- enw'r Aelod o'r Senedd sy'n destun y pôl adalw,

[124] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk
[125] MAB11 Transparency International UK

- y dyddiad y'i rhoddir,
- pa un o'r digwyddiadau sbardun sydd wedi digwydd,
- gwybodaeth am y digwyddiad sbardun, a
- y dyddiad a bennwyd ar gyfer y pôl adalw.

**161.** Yn unol ag adran 7 o'r Bil, mae dyletswydd ar y swyddog canlyniadau etholaethol perthnasol i hysbysu personau sydd wedi'u cofrestru yng nghofrestrau etholwyr llywodraeth leol o fewn etholaeth Senedd berthnasol y pôl cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac yn unol â darpariaeth a wneir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru o dan adran 11.

**162.** O dan adran 11(1), caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud—

- darpariaeth ynghylch rhedeg pôl adalw, gan gynnwys:
  - ynghylch cofrestru etholwyr,
  - ynghylch gosod terfynau ar dreuliau a rhoddion ymgyrchu mewn pôl adalw, ac
  - ar gyfer cyfuno polau;
- darpariaeth ynghylch cwestiynu pôl adalw a chanlyniadau afreoleidd-dra; a
- darpariaeth bellach ynghylch rhoi, anfon, danfon neu dderbyn hysbysiadau neu ddogfennau eraill o dan y Bil.

**163.** Fel y nodir ym mharagraff 79 uchod, mae adran 11(4) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn gwneud y rheoliadau hyn, a fydd yn destun gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

**164.** Mynegodd Paul Evans a Syr Paul Silk rybudd ynghylch rheoliadau adran 11 a'r disgresiwn sylweddol sydd gan Weinidogion Cymru ynghylch cynnal polau adalw o ganlyniad. Gwnaethant awgrymu y gellid gwella'r Bil drwy wneud darpariaethau penodol, yn enwedig ar gyfer llai o ddisgresiwn ynghylch nifer y gorsafoedd pleidleisio, oriau agor mwy cyfleus, a rhoi ystyriaeth i bobl sy'n cael anhawster cyrraedd gorsafoedd pleidleisio. Gwnaethant ychwanegu fod rhoi pwerau yn ôl disgresiwn i swyddogion canlyniadau dros redeg digwyddiad gwleidyddol yn

annymunol, ac y gall hyd yn oed arwain at gyhuddiadau o duedd, fel yn y ddeiseb adalw yng Ngogledd Antrim yn 2018.[126]

**165.** Dywedodd Transparency International UK wrthym, o ystyried bod y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 11 yn ymddangos yn eang o ran cwmpas, y dylid ystyried gwneud darpariaeth ar wyneb y Bil ar gyfer ymgynghori a chraffu mwy helaeth ar y defnydd o'r pwerau hyn.

**166.** O ystyried pwysigrwydd rheoliadau adran 11 i weithrediad polau adalw, gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol esbonio natur ganiataol y pŵer, yn hytrach na drafftio'r Bil yn y fath fodd fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud y rheoliadau. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol na fyddai'n gwrthwynebu pe bai'r pwyllgor eisiau i hynny fod yn orfodol.[127]

**167.** Dywedodd Tom Hawthorn o'r Comisiwn Etholiadol wrthym fod y ffaith bod y cynigion ar gyfer pôl adalw yn y Bil yn debyg i gynigion is-etholiad yn golygu bod y Comisiwn Etholiadol yn credu na fyddai unrhyw heriau penodol yn deillio o'r cynigion.[128] Aeth ymlaen i ddweud ei bod yn bwysig bod gan bleidleiswyr gyfle da i gymryd rhan yn y pôl, a fydd yn cynnwys sicrhau bod pleidleiswyr yn deall yn glir iawn sut beth yw'r broses pôl adalw a sut y gallant gymryd rhan.[129]

**168.** Dywedodd yr Athro Alistair Clark fod y broses undydd a ragwelir ar gyfer pôl ailalw i'w chroesawu, ond tynnodd sylw at y goblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau lleol.[130]

**169.** Nododd Tom Hawthorn hefyd nad yw amserlen o dri mis ar gyfer cynnal pôl adalw yn amser anghyffredin i swyddogion canlyniadau redeg is-etholiadau.[131] Cynigiodd Clare Sim, a oedd yn cynrychioli'r AEA, safbwyntiau tebyg, gan ddatgan bod y cyfnod o dri mis a nodir yn y Bil yn ddigonol yn yr ystyr mai dyna'r cyfnod ar gyfer cynnal is-etholiad y Senedd ar hyn o bryd; ond dywedodd hefyd y dylai fod pwyslais cryf ar y ffaith y dylai fod bob amser ar ddiwedd y cyfnod o dri mis hwnnw, er mwyn caniatáu digon o amser i bobl sicrhau gorsafoedd pleidleisio a sicrhau staff i redeg y pôl.[132]

**170.** Mae Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) Cymru wedi codi pryderon ynghylch adran 6(2) o'r Bil sy'n golygu na fydd pôl adalw yn cael ei alw os

[126] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk
[127] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [65]
[128] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [19]
[129] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [21]
[130] MAB04 Yr Athro Alistair Clark
[131] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [24]
[132] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [27]

byddai dyddiad y pôl adalw o fewn 6 mis i'r etholiad cyffredinol cyffredin nesaf i'r Senedd. Mae PCS Cymru yn nodi, mewn etholiad cyffredinol, y byddai rhestr gyfan y blaid fydd yn cael ei chwestiynu, nid dim ond ymddygiad yr aelod unigol hwnnw o fewn y rhestr. Ychwanegodd:

> *"It also risks those who report a Member's misconduct feeling that their complaint is subject to political pressure when the Standards Committee is not able to go through the full process in sufficient time to give recall as a potential sanction before the 6month cut-off."*[133]

**171.** O ran ymgyrchu, er ei fod yn nodi y bydd y manylion deddfwriaethol ynghylch ymgyrchoedd yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth, dywedodd Tom Hawthorn mai un wers y mae'r Comisiwn Etholiadol wedi'i dysgu o broses deisebau adalw Senedd y DU yw bod rheoleiddio ymgyrchwyr yn tueddu i fod yn seiliedig ar y rheolau ar gyfer etholiadau ymgeiswyr ar gyfer Senedd y DU. Ychwanegodd:

> *"That means that there's more of a role for returning officers, or recall petition officers for those petitions, including registering potential petition campaigners, and that's quite a different role that returning officers don't normally have. So, it's very important to get clarity about that process, both for people who want to campaign in that recall poll process, but also for constituency returning officers, if they are being expected to run that regulation process."*[134]

**172.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, ychwanegodd y Comisiwn Etholiadol:

> *"Bydd yn bwysig sicrhau bod rheoliad priodol a chymesur a thryloywder o ran gwariant ymgyrchwyr mewn perthynas ag unrhyw etholiad adalw, yn cynnwys egluro rolau'r Swyddogion Canlyniadau Etholaeth, y Comisiwn Etholiadol a'r heddlu a'r awdurdodau sy'n erlyn. Yn ddiweddar mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu ei bod yn bwriadu deddfu i ymestyn rôl orfodi bresennol y Comisiwn i hefyd gynnwys troseddau cyllid gwleidyddol sy'n ymwneud â deisebau adalw ar gyfer Aelodau o Senedd y DU."*[135]

[133] MAB12 Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol Cymru
[134] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [23]
[135] MAB15 Y Comisiwn Etholiadol

**173.** O ran rheolau ymgyrchu a materion eraill y gellir ymdrin â hwy yn rheoliadau adran 11, dywedodd Clare Sim o'r AEA fod angen eglurder ynghylch y potensial o gofrestru grwpiau ymgyrchu a'r hyn y caniateir iddynt ei wneud (a chael mynediad ato) yn ystod pôl adalw.[136]

**174.** Cwestiynodd yr Athro Alistair Clark a yw'n iawn mai Gweinidogion Cymru ddylai reoleiddio ymgyrchoedd, gan awgrymu bod adran 11 yn ymddangos yn eang ac yn dirprwyo rhai pwerau pwysig i Weinidogion yn hyn o beth. Mae'n credu bod angen ystyried yn fanylach sut y gellid rheoleiddio polau adalw yn amgylchiadau Cymru, a hefyd a yw'r rhain yn bwerau y dylid eu dyrannu i Weinidogion heb oruchwyliaeth.[137]

**175.** Awgrymodd PCS Cymru y dylai fod cyfyngiadau ar y cyllid sydd ar gael i ddwy ochr yr ymgyrch, gyda rheoliadau tebyg i'r rhai ar gyfer refferendwm, gan nodi grwpiau ymgyrchu swyddogol ar gyfer pob ochr i'r cwestiwn a dyrannu uchafswm gwariant a gofynion i gofrestru cyllid/gwariant gyda'r Comisiwn Etholiadol fel yn achos treuliau sy'n gysylltiedig ag etholiadau a rheolau refferendwm.[138]

**176.** Dywedodd Transparency International UK y byddai'n cynghori yn erbyn rhoi'r hawl eithriadol i Weinidogion i osod terfynau ar roddion a gwariant yn seiliedig ar chwyddiant. Nododd hefyd fod Deddf 2015 yn gosod terfyn o £10,000 ar gyfer gwariant ymgyrchwyr achrededig ar ddeisebau adalw, ac felly awgrymodd y dylid adolygu'r darpariaethau yn Neddf 2015 i weld sut y gellir eu cymhwyso orau yng nghyd-destun Cymru.[139]

**177.** Mater arwyddocaol a gyflwynwyd i ni mewn tystiolaeth yw pwysigrwydd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r broses adalw.

**178.** Nododd Tom Hawthorn ymchwil a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol ar y ddeiseb adalw ar gyfer Senedd y DU yn Peterborough, a ganfu fod cyfraddau uchel iawn o ymwybyddiaeth y byddai deiseb adalw yn digwydd ond nad oedd cymaint o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn yr oedd y ddeiseb yn ei olygu. Dywedodd fod y dystiolaeth yn dangos bod gwir angen sicrhau bod gwybodaeth dda ar gael i bleidleiswyr am y broses, ac am gefndir y ddeiseb hefyd.[140]

**179.** Nododd Eifion Evans, a oedd yn cynrychioli'r EMB, bwysigrwydd cyfathrebu hefyd a thynnodd sylw at y ffaith bod y BRhE wedi sefydlu grŵp cyfathrebu mewn

---

[136] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [78]
[137] MAB04 Yr Athro Alistair Clark
[138] MAB12 Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol Cymru
[139] MAB11 Transparency International UK
[140] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [36]

partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Nododd bwysigrwydd sicrhau bod y cyhoedd yn deall canlyniadau pôl adalw a bod hyn yn rhywbeth y mae angen ei rannu â'r cyhoedd yn gynnar, fel bod dealltwriaeth eisoes pan fo angen pôl adalw.[141]

**180.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mynegodd Un Llais Cymru farn, er mwyn i adalw fod yn ystyrlon, fod angen i bleidleiswyr wybod pryd a sut i'w sbarduno. Dywedodd, o ystyried y gallai pleidleiswyr fod yn addasu o hyd i'r system etholiadol newydd sydd ar waith ar gyfer etholiadau'r Senedd, y gallai cyfathrebu mecanwaith adalw fod yn gymhleth.[142]

**181.** Tynnodd Clare Sim o'r AEA sylw at y gwahaniaeth rhwng y system a gynigir ar gyfer y Senedd a'r broses deiseb adalw yn Nhŷ'r Cyffredin fel un o'r heriau cyfathrebu mwyaf. Cytunodd ei bod yn bwysig i'r cyhoedd ddeall canlyniadau pôl adalw, yn enwedig gan ei bod yn debygol o arwain at rywun o'r un blaid wleidyddol yn disodli'r Aelod.[143]

**182.** Tynnodd Crynwyr Cymru sylw hefyd at yr angen am ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus i helpu i wneud y trefniadau newydd yn ystyrlon i bleidleiswyr.[144]

**183.** O ran cyfathrebu, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

> *"… I think you'd have to develop a set of comms that were very explicit about who is being asked to participate and what they are doing, and I think, particularly in light of the fact that we have the list system for voting, it's very important to explain what's happening."*[145]

**184.** Aeth y Cwnsler Cyffredinol ymlaen i fyfyrio ar y ffaith, yn unol â Deddf 2024, y bydd aelodau yn y Seithfed Senedd yn cael eu gwahodd i adolygu gweithrediad y system bleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd, gan nodi os bydd y system bleidleisio'n newid, y gallai hynny gael cryn effaith ar y ffordd y mae'r system adalw yn gweithio.[146]

---

[141] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [43] i [45]
[142] MAB06 Un Llais Cymru
[143] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [48] i [51]
[144] MAB05 Crynwyr Cymru
[145] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [48]
[146] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [48]

## Terfynu pôl adalw yn gynnar

**185.** Mae adran 8 o'r Bil yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle gellir terfynu pôl adalw yn gynnar, sef:

- Digwyddiad terfynu cynnar A: bod y Llywydd wedi cynnig diwrnod ar gyfer cynnal pôl mewn etholiad cyffredinol eithriadol o fewn chwe mis
- Digwyddiad terfynu cynnar B: bod sedd yr Aelod o'r Senedd yn dod yn wag.
- Digwyddiad terfynu cynnar C: mewn achos pan ddigwyddodd digwyddiad sbardun A mewn perthynas â'r Aelod o'r Senedd, fod yr euogfarn, y ddedfryd neu'r gorchymyn o dan sylw yn cael ei gwrthdroi neu ei gwrthdroi ar apêl.

**186.** Os bydd un o'r digwyddiadau hyn yn digwydd, rhaid i'r Llywydd, yn unol ag adran 8(5), hysbysu'r swyddog canlyniadau etholaethol perthnasol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dod yn ymwybodol bod y digwyddiad wedi digwydd, a rhaid nodi pa un o'r digwyddiadau terfynu cynnar sydd wedi digwydd.

**187.** Ar ôl cael yr hysbysiad hwn a ddyroddir o dan adran 8(5), rhaid i'r swyddog canlyniadau etholaethol gymryd y camau y mae'n ystyried sy'n angenrheidiol i derfynu'r broses ar gyfer y pôl adalw a rhoi hysbysiad cyhoeddus am derfynu'r broses honno. Darperir rhagor o fanylion am y gofynion ar gyfer y swyddog canlyniadau etholaethol mewn rheoliadau a wneir o dan adran 11 o'r Bil.

**188.** O dan is-adran (8) o adran 8, rhaid i'r Llywydd osod unrhyw hysbysiad ar gyfer terfynu'n gynnar gerbron y Senedd, oni bai ei fod wedi ei ddiddymu o ganlyniad i ddigwyddiad terfynu cynnar A.

**189.** O ystyried bod yn rhaid i'r Llywydd bennu'r dyddiad ar gyfer pôl adalw o fewn tri mis i roi hysbysiad i'r swyddog canlyniadau etholaethol ar gyfer etholaeth berthnasol y Senedd fod aelod yn destun pôl adalw, mae hyn yn golygu i bob pwrpas bod gan yr Aelod dan sylw dri mis i wneud apêl.

**190.** Mae PCS Cymru yn nodi y bydd y Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn arwain at Aelod o'r Senedd yn dod yn destun deiseb adalw yn ystod y cyfnod y gallai fod yn apelio yn erbyn ei euogfarn. Dywedodd:

> *"Members cannot control the timing of the UK Courts (and should not seek to) therefore their appeal may not be heard before they have lost their post as a Member of the Senedd.*

> *There is no mechanism to reverse the recall petition if the courts later decide to overturn the case on appeal. This is a significant impact on the affected Member's right to a fair trial as their appeal in the courts effectively becomes a part of the recall process."*[147]

**191.** Codwyd y rhyngweithio rhwng digwyddiad sbardun A ac apêl ddilynol yn erbyn dedfryd gan Paul Evans a Syr Paul Silk hefyd.[148]

**192.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Comisiwn Etholiadol hefyd nad yw'n glir sut y byddai'r gofyniad i gynnal pôl adalw ymhen tri mis ar ôl i'r Llywydd roi hysbysiad o'r digwyddiad sbardun yn ystyried unrhyw gyfnod a ganiateir i Aelod o'r Senedd apelio yn erbyn ei euogfarn (os mai'r euogfarn honno oedd y digwyddiad sbardun). Nododd y gallai hyn olygu y gallai Aelod o'r Senedd gael ei ddiswyddo o ganlyniad i bôl adalw sydd eisoes wedi digwydd, hyd yn oed os caiff ei euogfarn wreiddiol ei gwrthdroi yn dilyn apêl.[149]

**193.** Cododd Clare Sim o'r AEA bryderon tebyg wrth roi tystiolaeth i ni ar 11 Tachwedd. Dywedodd fod yr AEA yn pryderu am yr iaith sy'n ymwneud â therfynu'n gynnar, lle mae'n ymddangos bod y Bil yn awgrymu y byddai'r ddeiseb adalw yn cael ei chynnal o fewn tri mis i'r ddedfryd honno, ond cyn i'r broses apelio gael ei chlywed.[150] Cyfeiriodd Clare Sim at enghraifft yr Aelod Seneddol Claudia Webbe. Cafodd ddedfryd ohiriedig o garchar yn wreiddiol, ond cafodd ei dedfryd o garchar ei dileu yn dilyn apêl saith mis ar ôl y dedfrydu. Ychwanegodd:

> *"… what would happen if you do not allow that appeals process to be heard before you then trigger that recall petition, the burden that places on administrators of starting a poll that could then have to be cancelled halfway through, where, obviously, all the cost elements and everything are still a cost element because everything has to be done so far in advance to make sure that everything's ready for that poll. (…) equally, what would happen if you held the recall poll, the appeals process followed massively after that and then something was changed as to the legality of whether that person needs to be removed."*[151]

---

[147] MAB12 Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol Cymru
[148] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk
[149] MAB15 Y Comisiwn Etholiadol
[150] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [76]
[151] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [77]

**194.** Adleisiodd Eifion Evans, a oedd yn cynrychioli'r EMB, y pryderon hyn, gan ddatgan

> *"... if you start a process and have to stop it halfway through, there are unnecessary cost implications to that. More worryingly, if the recall poll has completed before the appeals process, and the appeals process is successful, what do we do then? That's the bit of the legislation that does concern me, as well. (...) We need to hold back and wait for the appeals process to finish first."*[152]

**195.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Keith Bush KC wrthym nad yw'r Bil yn ymdrin yn effeithiol â'r cwestiwn o apeliadau yn erbyn euogfarn neu ddedfryd. Dywedodd fod cyfiawnder yn mynnu na ddylai aelod golli ei sedd yn y Senedd nes bod pob apêl wedi methu. Ychwanegodd ei bod yn amhosibl amddiffyn cynigion a fyddai'n caniatáu i bleidlais adalw fynd rhagddi er bod apêl yn yr arfaeth.[153] Pan ofynnwyd iddo am y mater hwn, dywedodd Daniel Greenberg, cyn gynted ag y byddwch yn creu proses statudol o'r fath, nad ydych bellach yn gallu gweithredu dull cydnabyddiaeth yn unig[154], gan ychwanegu:

> *"... if there is going to be judicial involvement, you must make sure that there is an appropriate opportunity for that involvement to take place in a way that doesn't come in and retrospectively nullify something that you've done. So, you have to ensure that any legal challenges, legal appeals, legal processes take place at an appropriate point in the overall timeline to provide finality and clarity."*[155]

**196.** Pan ofynnodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd yn credu bod y cyfnod o dri mis a ddarperir yn y Bil yn ddigonol i'r broses apelio yn y llysoedd troseddol fynd rhagddi, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei bod yn annhebygol iawn y byddai apêl byth wedi'i chwblhau o fewn tri mis, ond nad oedd yn credu bod hynny'n rheswm i beidio â deddfu rhag ofn y byddai apêl yn cael ei chwblhau o fewn yr amserlen honno.[156]

**197.** Yn dilyn hynny, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym, wrth baratoi'r Bil, fod y Llywodraeth eisiau dod o hyd i gydbwysedd rhwng cael sancsiwn am

[152] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [99]
[153] MAB13 Keith Bush KC
[154] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [27]
[155] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [28]
[156] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 17 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [50]

ymddygiad sy'n agos at y digwyddiad a thegwch yn y system gyfan[157] yn ogystal â bod eisiau gwneud yn siŵr bod y system anghymhwyso a'r system adalw yn cyd-fynd mewn rhyw ffordd.[158]

## Rhedeg pôl adalw

**198.** Mae adran 10 o'r Bil yn darparu ar gyfer rhedeg pôl adalw drwy bleidlais gudd, ac yn nodi'r cwestiwn a'r atebion y mae'n rhaid iddynt ymddangos ar y papur pleidleisio ar gyfer pôl adalw.

**199.** Mae'n ofynnol i'r papur pleidleisio gael ei ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg a rhaid iddo gynnwys y cwestiwn a nodir yn adran 10(3) (gweler blwch 3).

***Blwch 3***

A ddylid diswyddo neu gadw [mewnosoder enw'r Aelod o'r Senedd y mae'r pôl adalw yn gymwys iddo] fel aelod o Senedd Cymru?

Should [mewnosoder enw'r Aelod o'r Senedd y mae'r pôl adalw yn gymwys iddo] be removed or retained as a member of Senedd Cymru (the Welsh Parliament)?

**200.** Darperir ar gyfer y ddau ateb y mae'n rhaid iddynt ymddangos ar y papur pleidleisio yn is-adrannau (4) a (5) o adran 10 (gweler blwch 4).

***Blwch 4***

Diswyddo [mewnosoder enw'r Aelod o'r Senedd y mae'r pôl adalw yn gymwys iddo] fel aelod o Senedd Cymru.

Remove [mewnosoder enw'r Aelod o'r Senedd y mae'r pôl adalw yn gymwys iddo] as a member of Senedd Cymru.

A:

Cadw [mewnosoder enw'r Aelod o'r Senedd y mae'r pôl adalw yn gymwys iddo] fel aelod o Senedd Cymru.

Retain [mewnosoder enw'r Aelod o'r Senedd y mae'r pôl adalw yn gymwys iddo] as a member of Senedd Cymru.

[157] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [14]
[158] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [21]

**201.** Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynnwys y cwestiwn (a'r atebion) ar wyneb y Bil ar y sail ei fod yn darparu "pwynt cyfeirio defnyddiol i esbonio sut y byddai'r broses Pôl Adalw yn cael ei chynnal" ac yn darparu "cysondeb a sicrwydd i bawb sy'n ymwneud â'r broses".[159]

**202.** Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Safonau[160], yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r Comisiwn Etholiadol ynghylch fformat y cwestiwn a'r atebion i sicrhau eu bod yn "gryno, wedi'u hysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg clir, yn defnyddio brawddegau byrion, ac yn osgoi defnyddio jargon neu dermau technegol".[161]

**203.** Dywedodd Tom Hawthorn, yn cynrychioli'r Comisiwn Etholiadol, y bydd sicrhau eu bod yn deall y cwestiwn sy'n cael ei ofyn iddynt ar bapur pleidleisio'r pôl adalw yn bwysig iawn, a'i bod yn bwysig iawn sicrhau bod geiriad y cwestiwn yn glir ac yn ddealladwy.[162] Argymhellodd y dylai fod math o brofi cyhoeddus gydag aelodau o'r cyhoedd a fydd yn profi'r cwestiwn mewn bywyd go iawn fel bod modd deall sut y maent yn ymateb i'r cwestiwn.[163] Mynegodd yr AEA gefnogaeth i brofion o'r fath.[164]

**204.** Wrth roi tystiolaeth i ni ar 2 Rhagfyr, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol sylw bod Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cwestiwn y papur pleidleisio fod ar wyneb y Bil, oherwydd ei bod yn credu y dylai fod yn niwtral yn wleidyddol. Yn ogystal, dywedodd nad yw'r Llywodraeth yn credu y dylai fod unrhyw bosibilrwydd y byddai'r Senedd nesaf yn gofyn cwestiwn gwahanol.[165]

**205.** Cadarnhaodd swyddog o Lywodraeth Cymru a oedd gyda'r Cwnsler Cyffredinol nad yw'r Llywodraeth wedi cynnal unrhyw brofion defnyddwyr manwl ar y cwestiwn a fydd yn ymddangos ar y papur pleidleisio a nodir yn adran 10 o'r Bil, ond bod profion defnyddwyr yn rhywbeth y gellid ei ystyried fel rhan o ddatblygiad parhaus y Bil.[166]

**206.** O ran dyluniad y papur pleidleisio, dywedodd yr Athro Alistair Clark wrthym:

---

[159] Memorandwm Esboniadol, paragraff 100
[160] Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Adalw, argymhelliad 8
[161] Memorandwm Esboniadol, paragraff 101
[162] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [22]
[163] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [41] Gweler hefyd MAB15 Y Comisiwn Etholiadol.
[164] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [52]
[165] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [45]
[166] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [43]

> *"Ballot paper design for a Recall poll will need careful consideration, beyond the wording that is already in the Bill. There is political science evidence that voters complete ballot papers from top to bottom. This can lead to bias in results, with options towards the top of the ballot paper more likely to be chosen. A vertical design, with the retain option above the remove option (or vice versa) would seem to imply a preference for whatever option is placed above the other. Avoiding this difficulty would require the two options to be placed horizontally, side by side."*[167]

**207.** Dywedodd PCS Cymru wrthym ei fod yn ystyried bod risg ddifrifol o ddryswch ynghylch iaith y cwestiwn arfaethedig. Dywedodd:

> *""Remove" and "Retain" are complex language and similar sounding in English. "Diswyddo" and "Cadw" are less similar in Welsh but a direct translation of these to "Dismiss" and "Keep" would be better terms to use in the ballot and for campaigning purposes around the ballot."*[168]

**208.** Awgrymodd Paul Evans a Syr Paul Silk y gallai fod yn ddymunol i'r papur pleidleisio gynnwys datganiad gan y Llywydd ynghylch pam y cynhelir y pôl, fel bod etholwyr yn gwybod pam eu bod yn cael cais i bleidleisio.[169]

## Canlyniad y pôl adalw

**209.** Mae adran 12 o'r Bil yn amlinellu'r camau y mae'n rhaid eu cymryd ar ddiwedd y pleidleisio mewn pôl adalw.

**210.** Mae adran 12(2) o'r Bil yn nodi, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r pleidleisio mewn pôl adalw ddod i ben, fod rhaid i'r swyddog canlyniadau etholaethol (yn unol â rheoliadau adran 11):

- bennu canlyniad y pôl adalw
- cyhoeddi canlyniad y pôl adalw
- yn dibynnu ar ganlyniad y pôl adalw, ddatgan bod yr Aelod o'r Senedd sy'n destun y pôl adalw naill ai:

[167] MAB04 Yr Athro Alistair Clark
[168] MAB12 Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol Cymru
[169] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk

    - wedi ei ddiswyddo fel Aelod o Senedd Cymru; neu
    - yn cael ei gadw fel Aelod o Senedd Cymru; a
- hysbysu'r Llywydd yn ysgrifenedig am ganlyniad y pôl adalw a'r datganiad.

**211.** Mae adran 12(3) yn nodi y bydd yr Aelod yn cael ei ddiswyddo os bwriwyd y mwyafrif o'r pleidleisiau yn y pôl adalw o blaid ei ddiswyddo. Bydd yr Aelod yn cadw ei sedd os bwriwyd y mwyafrif o'r pleidleisiau yn y pôl adalw o blaid ei gadw neu os bwriwyd nifer cyfartal o bleidleisiau o blaid y naill ateb a'r llall.

**212.** Mae adran 12(4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd osod gerbron y Senedd unrhyw hysbysiad a geir gan y swyddog canlyniadau etholaethol am ganlyniad pôl adalw a datganiad y canlyniad.

**213.** Mae adran 13 o'r Bil yn nodi canlyniadau datganiad y bydd yr Aelod o'r Senedd yn cael ei ddiswyddo. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai sedd yr Aelod yn dod yn wag ar ôl i'r swyddog canlyniadau etholaethol wneud y datganiad yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth a wneir mewn rheoliadau adran 11 ynghylch cwestiynu canlyniad pôl adalw.

**214.** Byddai'r swydd wag wedyn yn cael ei llenwi yn y modd arferol yn unol ag adran 11 o Ddeddf 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2024) (gweler blwch 5).

***Blwch 5***

Llenwi swyddi gwag o dan drefniadau etholiadol newydd y Senedd

Ar gyfer aelod a etholir ar restr plaid wleidyddol, mae'r swydd wag yn cael ei llenwi gan yr unigolyn cymwys uchaf ar y rhestr nad yw wedi ei ethol eto. Os nad oes ymgeiswyr cymwys yn weddill ar y rhestr, bydd y sedd yn parhau'n wag tan yr etholiad cyffredinol nesaf.

Ar gyfer aelod a etholir fel ymgeisydd unigol (annibynnol), bydd y sedd yn parhau'n wag tan yr etholiad cyffredinol nesaf.

**215.** Mae adran 14 o'r Bil yn darparu nad yw dilysrwydd pôl adalw a gynhelir o ganlyniad i ddigwyddiad sbardun B yn cael ei effeithio gan unrhyw ddiffyg yn nhrafodion y Senedd sy'n arwain at y digwyddiad sbardun hwnnw. Mae hyn yn cynnwys y trafodion ar unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor sy'n gysylltiedig â'r adroddiad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Nid yw dilysrwydd y pôl yn cael ei

effeithio chwaith gan unrhyw ddiffyg yn achosion y Senedd sy'n gysylltiedig â chyhoeddi canllawiau adalw.

**216.** Fel y nodwyd yn gynharach yn y Bennod, cawsom dystiolaeth nad oedd yn cefnogi'r darpariaethau adalw yn y Bil. Yn benodol, mae gan nifer o randdeiliaid a ymatebodd i'n hymgynghoriad bryderon ynghylch y ffordd y bydd swydd wag sy'n deillio o ddiswyddo aelod drwy bôl adalw yn cael ei llenwi wedi hynny.

**217.** Mynegodd Keith Bush KC bryderon sylweddol ynghylch Rhan 1 o'r Bil. O ran yr ateb a gynigir yn y Bil i'r her o gymhwyso system adalw i system rhestr etholiadol – gyda'r canlyniad y byddai aelod sydd wedi'i ddiswyddo yn cael ei ddisodli gan aelod o'r un blaid wleidyddol – dywedodd wrthym fod risg y bydd pleidleiswyr yn gweld y system hon yn un ddryslyd a dibwrpas ac yn un sy'n eu hamddifadu o reolaeth dros eu cynrychiolwyr.[170]

**218.** Cododd ERS Cymru faterion tebyg, gan ddatgan os bydd swydd wag yn codi a bod y person nesaf ar y rhestr yn llenwi'r sedd yn awtomatig, ni fydd pleidleiswyr wedi cael dweud eu dweud ynghylch pwy y byddent yn dymuno iddo lenwi'r sedd wag ac, ar ben hynny, gallai gyfrannu at y canfyddiad bod pleidiau'n cael eu gwobrwyo am ymddygiad gwael. Ychwanegodd:

> *"Voters should be at the centre of decisions about who represents them. As such, we would suggest the committee explores whether the legislation could be strengthened to ensure voters can have a say on who is elected in the event of a vacancy.*
>
> *One option for this, under the current electoral system, would be to explore using the D'Hondt method. (…) In short, this would retain the proportionality of the original Senedd election while giving voters more choice in who represents them than simply going to the next person on a party list. It could also offer an alternative for if a casual vacancy is created and a party list is exhausted."*[171]

**219.** Fel rhan o'i thystiolaeth, darparodd ERS Cymru nodyn briffio ar sut yr oedd yn gweld dull D'Hondt yn cael ei ddefnyddio.[172]

[170] MAB13 Keith Bush KC
[171] MAB07 ERS Cymru
[172] MAB07 ERS Cymru

**220.** Dywedodd Unlock Democracy wrthym nad yw'n croesawu'r ddarpariaeth bresennol yn y Bil ar gyfer gwella atebolrwydd Aelodau o'r Senedd i'r etholwyr, darparu mecanwaith i adalw Aelod etholedig, a'i ddiswyddo yn ystod ei dymor ar sail ewyllys pleidleiswyr yn yr etholaeth berthnasol. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, ychwanegodd Unlock Democracy:

> *"The evidence from the UK parliament is that the recall of MPs provision frequently leads to MPs from a different party being elected. This can be explained in part at least by the actions of the outgoing MP often having been condoned or ignored by their party. To ensure a party isn't shielded from its own bad behaviour, the recall provision must allow for an MS of a different party to be elected. I hope the draft bill can be amended to reflect this."*[173]

**221.** Mynegodd Dr Ben Stanford bryderon tebyg y bydd y Bil yn cyfyngu'n sylweddol ar rôl pleidleiswyr. Esboniodd fod ei bryderon yn deillio o'r ffaith y bydd pleidleiswyr yn cael y dewis i gadw'r Aelod o'r Senedd neu ei ddisodli gyda'r ymgeisydd nesaf yn rhestr y blaid berthnasol, yn hytrach na chael yr opsiwn o ddwyn y blaid wleidyddol berthnasol i gyfrif a chael dewis gwirioneddol rhwng ymgeiswyr a phleidiau mewn is-etholiad newydd. Nododd Dr Stanford, o'r pedwar is-etholiad i Senedd y DU sydd wedi dilyn adalw, fod tri wedi'u hennill gan wahanol bleidiau gwleidyddol. Dywedodd fod hyn, yn ei farn ef, yn awgrymu, gyda mecanwaith adalw Senedd y DU, fod pleidleiswyr yn amlach na pheidio wedi penderfynu cosbi'r gwleidydd yn ogystal â'i blaid wleidyddol. Ychwanegodd Dr Stanford:

> *"In the case of an independent MS being recalled, or a party having no more able or willing candidates on their constituency list, the seat would remain vacant until the next election (Government of Wales Act 2006, s.11), creating a new problem of voters having reduced representation in the Senedd."*[174]

**222.** Dywedodd Transparency International UK wrthym hefyd nad yw'n credu y bydd disodli'r Aelod gyda'r ymgeisydd nesaf ar y rhestr o'r un blaid yn helpu i adfer ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth. Tynnodd sylw at ganlyniadau tri chwarter yr is-etholiadau yn dilyn adalw yn Senedd y DU, a welodd y sedd yn cael ei hennill

[173] MAB08 Unlock Democracy
[174] MAB02 Dr Ben Stanford

gan blaid arall. Tynnwyd sylw at ganlyniadau is-etholiadau San Steffan yn dilyn deisebau adalw gan ERS Cymru hefyd.[175]

**223.** Dywedodd Transparency International UK hefyd:

> *"It is also the case that in some instances the behaviour that has led to the recall process being triggered is something which the party has allowed to occur, either through a culture of overlooking impropriety or active support for a Member despite the judgement of the Standards Committee. The Owen Paterson case at Westminster and the Michael Matheson case in Holyrood illustrate this dilemma. It should not therefore be possible for a party to simply parachute in the next available candidate without the public determining if they consider a change of party as important as a change of representative. We stand by our position that if recall is to be introduced in Wales, the choice to select an alternative party as well as a new representative should be possible."*[176]

**224.** Awgrymodd PCS Cymru fod angen mecanwaith i sicrhau bod cynrychiolaeth y bobl yn cael ei chynnal er mwyn i'r bleidlais diswyddo/cadw fod yn gwestiwn teg nad yw'n cael ei ddylanwadu gan y posibilrwydd o dangynrychiolaeth ar gyfer etholaeth pe bai canlyniad "diswyddo" yn arwain at dangynrychiolaeth ar gyfer yr etholaeth honno.[177]

**225.** Fodd bynnag, awgrymodd Paul Evans a Syr Paul Silk fod canlyniad pôl adalw sy'n arwain at aelod disodli o restr ymgeiswyr cymwys plaid wleidyddol yn hytrach nag is-etholiad yn golygu bod y penderfyniad yn ymwneud i raddau llawer mwy helaeth ag ymddygiad unigolyn. Gwnaethant awgrymu hefyd y gallai'r system hon fod o fudd wrth leihau'r risg o ymdrechion i ddefnyddio'r mecanwaith at ddibenion plaid wleidyddol.[178]

**226.** Dywedodd yr Athro Alistair Clark wrthym:

> *"Part 1, section 12 is clear that under the two-answer recall ballot proposed, a majority of votes cast, or 50%+1, will be the winning option. Recall polls are likely to be relatively low turnout electoral events. There is the possibility that a member*

[175] MAB07 ERS Cymru
[176] MAB11 Transparency International UK
[177] MAB12 Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol Cymru
[178] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk

> *is recalled on the basis of a relatively small vote in the constituency/region which they have been recalled. Whether this might be desirable would seem to be worth consideration since, on principle, the idea that a member can be removed by 50%+1 of a low turnout ought to be of concern to members. Although unusual, one option might be for a recall poll to achieve a certain level of turnout before a recall poll is successful. This would, however, be a policy matter for consideration by the Welsh government and Senedd."*[179]

**227.** Awgrymodd Paul Evans a Syr Paul Silk hefyd y dylid ystyried a ddylid cael gofyniad am drothwy isafswm cyfranogiad yn y pôl, gan y gallai pôl gyda nifer isel iawn o bleidleisiau sy'n arwain at adalw ymddangos yn annemocrataidd.[180]

### Swyddogaethau swyddogion

**228.** Mae adran 15 o'r Bil yn nodi swyddogaethau'r swyddog canlyniadau etholaethol mewn perthynas â phôl adalw. Mae'n nodi bod dyletswydd gyffredinol ar y swyddog canlyniadau etholaethol i wneud unrhyw beth sy'n angenrheidiol er mwyn rhedeg y pôl adalw yn effeithiol yn unol â'r Bil hwn (os a phryd caiff ei ddeddfu) a'r rheoliadau a wneir odano.

**229.** Mae adran 15(2) yn darparu y caiff swyddog canlyniadau etholaethol benodi un neu ragor o ddirprwyon i gyflawni unrhyw un neu ragor neu bob un o'r swyddogaethau hyn.

**230.** Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn datgan er bod deddfwriaeth adalw mewn rhannau eraill o'r DU (yn enwedig ar gyfer Tŷ'r Cyffredin) yn diffinio swydd newydd 'swyddog deisebau' (sydd wedyn yn cael ei llenwi gan swyddog canlyniadau etholaethol), nad yw manteision gwneud hynny yn glir yng nghyd-destun Cymru gan y bydd y pôl adalw yng Nghymru yn debyg i etholiad.[181]

**231.** Sefydlwyd y BRhE gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn 2025. Mae'n rhan o'r Comisiwn ac mae ganddo gyfrifoldebau statudol a nodir yn Rhan 2A o *Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013* (Deddf 2013) (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf EEB 2024).

[179] MAB04 Yr Athro Alistair Clark
[180] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk
[181] Memorandwm Esboniadol, paragraff 107

**232.** Swyddogaeth gyffredinol y Bwrdd yw cydlynu'r gwaith o weinyddu etholiadau a refferenda Cymru, gan gynnwys cynorthwyo swyddogion canlyniadau i gyflawni eu swyddogaethau a hyrwyddo arferion gorau wrth weinyddu etholiadau a refferenda. Mae Deddf 2013 yn diffinio etholiadau a refferenda Cymru fel:

a. etholiadau Senedd Cymru;

b. etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru;

c. refferenda datganoledig.

**233.** Nid yw'r Bil fel y'i drafftiwyd yn diwygio Deddf 2013 i gynnwys pôl adalw o fewn y diffiniad hwn, ac nid yw'n glir pa swyddogaethau statudol fydd gan y BRhE mewn perthynas â pholau adalw.

**234.** Pan ofynnwyd iddo a ddylid diwygio'r Bil i ddod â pholau adalw o dan swyddogaethau statudol y BRhE, nododd Eifion Evans ei fod yn gwestiwn y byddai angen i'r Bwrdd ei drafod dros yr wythnosau nesaf i benderfynu beth fyddai ei rôl yn ei farn ef.[182] Mewn gohebiaeth ddilynol, dywedodd y BRhE:

> *"Mae'r Bwrdd o'r farn y dylai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) allu cynnwys pleidleisiau adalw o fewn ei gylch gwaith ac y dylai'r ddeddfwriaeth arfaethedig alluogi cymhwyso swyddogaethau'r BRhE, lle bo'n berthnasol, i'r cynigion adalw.*
>
> *Mae'r BRhE yn gweithredu fel fforwm i swyddogion canlyniadau godi a thrafod materion ac ystyried arfer gorau. O ystyried natur y pleidleisiau adalw arfaethedig, mae'n briodol i'r darpariaethau hyn gael eu hymestyn i'w cynnwys.*
>
> *Mae Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025 yn nodi bod y BRhE yn gyfrifol am weithredu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig. Bydd y platfform yn darparu gwybodaeth am ddigwyddiadau etholiadol sy'n cael eu cynnal yng Nghymru ac, fel y cyfryw, rydym o'r farn y dylai pleidleisiau adalw gael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth (neu ddeddfwriaeth ar wahân) i alluogi'r BRhE i gyhoeddi gwybodaeth amdanynt.*

[182] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [84]

> *Er ei bod yn annhebygol y byddai'r BRhE yn dymuno cyfarwyddo swyddog canlyniadau unigol ynglŷn â chynnal pleidlais adalw ar wahân, fe allai pwerau cyfarwyddo fod yn ddefnyddiol i fynnu bod swyddogion canlyniadau'n darparu'r setiau data sy'n angenrheidiol i roi gwybod i bleidleiswyr am unrhyw bleidlais adalw trwy'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.*
>
> *Fel y cyfryw, credwn y dylid ystyried p'un a oes angen i'r ddeddfwriaeth arfaethedig nodi'n benodol fod swyddogaethau'r BRhE yn ymestyn i ddeisebau adalw yn ogystal ag etholiadau a refferenda datganoledig."*[183]

**235.** Pan wnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried ymestyn swyddogaethau statudol y BRhE i gwmpasu polau adalw, dywedodd wrthym y byddai'r Llywodraeth yn hapus iawn i gytuno i hynny os oeddem yn credu y byddai'n ychwanegu gwerth.[184]

## Dehongli Rhan 1 a darpariaeth ganlyniadol

**236.** Mae adran 16 o'r Bil yn diffinio termau at ddiben Rhan 1 o'r Bil.

**237.** Nododd y Llywydd yn ei thystiolaeth ysgrifenedig fod adran 16 yn diffinio'r "Llywydd" fel "Llywydd Senedd Cymru a benodir yn unol ag adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006". Aeth y Llywydd ymlaen i ddatgan bod adran 25(1) o Ddeddf 2006 yn "darparu bod rhaid i'r Senedd "ethol" ei Lywydd, yn hytrach na'i "benodi"". Nododd y Llywydd fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn adran 25(2) o'r Bil sy'n cyfeirio at "y person a etholir" wrth gyfeirio at y Llywydd.[185]

**238.** Felly, argymhellodd y Llywydd i ni y dylid diwygio adran 16 o'r Bil i roi "a etholir" yn lle "a benodir", i adlewyrchu adran 25 o Ddeddf 2006.[186]

**239.** Mae adran 17 o'r Bil yn cyflwyno Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Bil, sy'n gwneud darpariaeth ganlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1 o'r Bil.

**240.** Mae Rhan 1 o Atodlen 2 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000) i sicrhau, lle

[183] Llythyr gan Fwrdd Rheoli Etholiadau Cymru, 4 Rhagfyr 2025
[184] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [50]
[185] MAB14 Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones, Llywydd, Senedd Cymru
[186] MAB14 Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones, Llywydd, Senedd Cymru

bo'n briodol, bod swyddogaethau goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol yn gymwys i bolau adalw.

**241.** Mae'r swyddogaethau diwygiedig yn cynnwys:

- adrodd ar gynnal polau adalw;
- adolygu'n rheolaidd a chyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru ar faterion datganoledig;
- galluogi cynrychiolwyr y Comisiwn i fod yn bresennol mewn pôl adalw;
- paratoi cod ymarfer ynghylch presenoldeb arsylwyr mewn pôl adalw;
- ymgynghori ar unrhyw newid i'r gyfraith etholiadol a wneir drwy reoliad (a chydsynio i bennu terfynau gwariant);
- rhoi cyngor a chymorth.

**242.** Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer swyddogion deisebau ac ar gyfer ymgyrchwyr deisebau adalw ar gyfer deisebau adalw ar gyfer Aelodau o Senedd y DU. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cadarnhau y bydd yn gwneud yr un peth ar gyfer polau adalw yng Nghymru.[187]

**243.** Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r Comisiwn Etholiadol ynghylch goblygiadau cost tebygol ymestyn ei swyddogaethau presennol yn unol â darpariaethau'r Bil.[188] Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, roedd y Comisiwn Etholiadol o'r farn y gellid bodloni'r gofynion newydd o fewn yr adnoddau presennol ac felly na fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu rhoi arnynt.[189]

## Ein barn ni

**244.** Nodwn fod Rhan 1 o'r Bil yn mynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Safonau ar adalw, ac mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod cefnogaeth eang i'r Senedd weithredu system adalw.

**245.** Serch hynny, er bod ein gwaith wedi canolbwyntio ar fanylion sut y byddai'r mecanwaith adalw a gynigir yn y Bil yn gweithredu'n ymarferol, mae barn gref wedi'i mynegi wrthym ar y system adalw a gynigir yn y Bil yn gyffredinol. Yn

[187] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [80]
[188] Memorandwm Esboniadol, paragraff 170
[189] Memorandwm Esboniadol, paragraff 170

benodol, mae pryderon y byddai aelod sy'n cael ei adalw (os caiff ei ethol ar restr plaid) yn cael ei ddisodli gan rywun o'r un blaid wleidyddol y cafodd ei ethol i'w chynrychioli ac efallai na fydd hyn yn dderbyniol i'r cyhoedd nac yn helpu i feithrin ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth.

**246.** Rydym yn ymwybodol bod y Pwyllgor Safonau wedi ystyried y mater o sut y byddai aelod yn cael ei ddisodli yn ei adroddiad ar adalw, a'i fod wedi dod i'r casgliad na fyddai argymell is-etholiadau ar gyfer materion adalw yn gyson â phenderfyniadau a wnaed eisoes ynghylch y system etholiadol a gyflwynir ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026.[190]

**Casgliad 2.** Pe bai'r Seithfed Senedd yn cytuno i adolygu'r system etholiadol sydd ar waith ar gyfer etholiadau'r Senedd, rhaid ystyried yr effaith ar system adalw (pe bai'r Bil hwn yn cael ei basio a'i ddeddfu) fel rhan o'r adolygiad cyfannol hwnnw.

**247.** Er bod y system etholiadol sydd ar waith ar gyfer etholiad 2026 y tu allan i gylch gwaith ein hystyriaeth o'r Bil, mae canlyniadau'r system cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig yn golygu bod cyfyngiadau ar y ffordd y gall system adalw weithredu. Felly, teimlwn fod rhaid i ni gydnabod y pryderon a godwyd gyda ni ynghylch sut y gallai'r rhyngweithio rhwng y system etholiadol newydd a'r broses o ddisodli aelod sydd wedi'i adalw gyfrannu at y canfyddiad bod pleidiau'n cael eu gwobrwyo am ymddygiad gwael, a pheri risg o ddryswch ymhlith pleidleiswyr hefyd.

**248.** Un o'r materion a drafodwyd gyda sefydliadau etholiadol oedd pwysigrwydd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r broses adalw.

**Casgliad 3.** Pe bai'r Bil yn cael ei basio gan y Senedd a'i ddeddfu, credwn y bydd angen ymdrech sylweddol gan bawb sy'n ymwneud â'r system adalw i sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn cael addysg ddigonol am y system a chanlyniadau unrhyw bolau adalw.

**249.** O ran digwyddiad sbardun A, nodwn y bydd yn cael ei actifadu os yw Aelod o'r Senedd wedi cael ei euogfarnu yn y DU o drosedd neu wedi cael gorchymyn i gael ei garcharu neu ei gadw'n gaeth am gyfnod o 12 mis neu lai.

**250.** Ni wnaeth y dystiolaeth a gawsom godi unrhyw bryderon sylweddol ynghylch digwyddiad sbardun A ei hun, ond mae rhanddeiliaid wedi codi materion ynghylch gweithrediad arfaethedig pôl adalw sy'n dilyn y sbardun hwn, yn enwedig gofynion adrannau 4 a 6.

[190] Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Adalw, paragraff 85

**251.** Er bod adran 4 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar lysoedd Cymru a Lloegr i hysbysu'r Llywydd os caiff aelod ei euogfarnu o drosedd digwyddiad sbardun A yn awdurdodaeth Cymru neu Loegr, nid yw'n gosod yr un ddyletswydd ar y llysoedd yn yr Alban na Gogledd Iwerddon gan y byddai gwneud hynny y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Er ein bod yn deall y materion cymhwysedd, os nad yw'r ddyletswydd yn gymwys i bob llys yn y Deyrnas Unedig, nid ydym yn ystyried bod y mecanwaith hysbysu hwn yn foddhaol nac yn angenrheidiol.

**Argymhelliad 2.** Dylid dileu adran 4 o'r Bil.

**252.** Cyn i ni droi at ddigwyddiad sbardun B, hoffem fyfyrio ar y cysylltiad rhwng adran 6 (sy'n gosod dyletswydd ar y Llywydd i bennu dyddiad ar gyfer y pôl adalw) a'r ddarpariaeth yn adran 8(4) (sy'n darparu na fydd pôl adalw yn digwydd pan fo digwyddiad sbardun A wedi digwydd ond bod yr euogfarn, y ddedfryd neu'r gorchymyn yn cael ei gwrthdroi neu ei wrthdroi wedi hynny ar apêl). Diffinnir y senario hwn yn y Bil fel "digwyddiad terfynu cynnar C".

**253.** Yn unol ag adran 6, rhaid i'r Llywydd bennu'r dyddiad ar gyfer pôl adalw o fewn tri mis i hysbysu'r swyddog canlyniadau etholaethol ar gyfer etholaeth berthnasol y Senedd fod aelod yn destun pôl adalw. Mae hyn yn golygu, pan fo digwyddiad sbardun A wedi digwydd (h.y. pan fydd yr Aelod wedi cael ei euogfarnu o drosedd a'i orchymyn i gael ei garcharu neu ei gadw'n gaeth am gyfnod o 12 mis neu lai), bod gan yr Aelod dan sylw dri mis i apelio yn erbyn yr euogfarn honno a chael y ddedfryd o garchar wedi'i gwrthdroi. Os caiff yr euogfarn ei gwrthdroi o fewn y cyfnod hwnnw o dri mis, bydd digwyddiad terfynu cynnar C yn digwydd ac ni chynhelir pôl adalw.

**254.** Rydym yn ymwybodol bod euogfarn o fwy na 12 mis yn arwain yn awtomatig at anghymhwyso Aelod o'r Senedd, ac nid yw'r darpariaethau sy'n ymwneud ag anghymhwyso awtomatig yn cynnwys unrhyw fecanwaith sy'n rhoi amser i aelod apelio i gael yr euogfarn honno wedi'i gwrthdroi.

**255.** Nodwn fod yr asesiad o effaith y Bil ar gydraddoldeb yn tynnu sylw at y ffaith nad yw cyflwyno'r system adalw yn darparu ar gyfer gohirio cynnal pôl adalw tan ddiwedd y cyfnod apeliadau troseddol. Nodwn ymhellach fod Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod wedi ystyried effaith y cynnig hwn ar yr hawl i gael treial teg a ddarperir o dan Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac wedi

dod i'r casgliad nad yw'r cynnig yn atal Aelod rhag arfer ei hawl i apelio yn erbyn ei euogfarn a'i ddedfryd.[191]

**256.** Rydym hefyd yn cydnabod tystiolaeth y Cwnsler Cyffredinol i ni fod y Llywodraeth eisiau sicrhau bod y systemau anghymhwyso a'r systemau adalw yn gydnaws.

**257.** Fodd bynnag, rydym hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig tynnu sylw at y dystiolaeth a glywsom sy'n awgrymu y dylai system adalw ystyried yr amser sydd ei angen i ymdrin ag apeliadau yn y system cyfiawnder troseddol.

**Casgliad 4.** Rydym yn cydnabod y safbwyntiau a fynegwyd i ni ynghylch goblygiadau'r darpariaethau polau adalw yn y Bil ar gyfer apeliadau y gellir eu clywed yn y system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, o ystyried nad oes unrhyw fecanwaith yn rhoi amser ar gyfer apeliadau yn y darpariaethau sy'n rheoli anghymhwyso aelod yn awtomatig os yw wedi cael ei euogfarnu o drosedd a'i ddedfrydu i garchar am fwy na 12 mis, gallwn werthfawrogi'r rhesymeg pam y dylai'r ddwy system gyd-fynd â'i gilydd.

**258.** O ran adran 5 a digwyddiad sbardun B, nodwn y bydd y Bil yn galluogi'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, fel y'i sefydlir yn unol ag adran 18, i ddyroddi canllawiau ynghylch y materion y mae'n rhaid iddo roi sylw iddynt wrth ystyried a ddylid argymell gwneud aelod yn destun pôl adalw.

**259.** Er ein bod yn cydnabod bod adran 5 o'r Bil yn ymateb i argymhelliad 6 o adroddiad y Pwyllgor Safonau ar adalw, rydym wedi cael ein taro gan y dystiolaeth sy'n tynnu sylw at y ffaith bod angen cydbwyso hyblygrwydd canllawiau yn erbyn sicrwydd a thryloywder system adalw gadarn. Un cam tuag at wella sicrwydd fyddai gofyniad i ddyroddi'r canllawiau hyn.

**Argymhelliad 3.** Dylid diwygio adran 5 o'r Bil fel ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a sefydlir yn unol ag adran 18, ddyroddi canllawiau ynghylch y materion y mae'n rhaid i'r pwyllgor hwnnw eu cadw mewn cof wrth ystyried a ddylid argymell gwneud Aelod yn destun pôl adalw.

**260.** Nodwn y bydd adran 5(7)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i ddwy ran o dair o Aelodau o'r Senedd bleidleisio i gymeradwyo'r canllawiau adalw, ac rydym yn cydnabod y rhesymeg dros y gofyniad hwn a gyflwynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol. Fodd bynnag, ein dealltwriaeth ni yw mai mwyafrif syml yn pleidleisio o blaid sydd ei angen er mwyn cymeradwyo Cod Ymddygiad y Senedd ac

[191] Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau): Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, 4 Tachwedd 2025

adroddiadau safonau unigol. Felly, byddai'r trothwy pleidleisio uwch ar gyfer y canllawiau yn eu gwneud yn eithriad yn y dirwedd safonau gyfan.

**261.** Yn ogystal, fel y soniwyd gan ERS Cymru ac eraill, os na fydd modd i'r canllawiau adalw gael cefnogaeth dwy ran o dair o Aelodau o'r Senedd sy'n pleidleisio (fel sy'n ofynnol gan adran 5(7)(b)), ni fydd digwyddiad sbardun B yn dod yn weithredol. Mae hyn yn peri pryder i ni.

**Casgliad 5.** Mae mwyafrif y Pwyllgor o'r farn, pe bai mwyafrif yn pleidleisio o blaid y canllawiau adalw, y byddai hynny'n adlewyrchu'n well prosesau presennol y Senedd sy'n ymwneud â safonau.

**Argymhelliad 4.** Mae mwyafrif o'r Pwyllgor o'r farn y dylid diwygio'r Bil fel y gall y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ddyroddi canllawiau adalw cyn belled â bod mwyafrif syml o gyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd gan y Senedd o blaid y penderfyniad.

**262.** O ran sbardunau eraill, rydym yn cydnabod y dystiolaeth rydym wedi'i chlywed am rinweddau (neu fel arall) gosod digwyddiadau sbardun ar wyneb y Bil; digwyddiadau sbardun a allai gynnwys achosion o aflonyddu rhywiol neu fwlio, er enghraifft. Er nad ydym o'r farn y dylai'r Bil ddarparu ar gyfer 'sbardunau eraill' o'r fath, byddem yn disgwyl i Bwyllgor Safonau Ymddygiad y dyfodol ystyried yn ofalus sut yr ymdrinnir â'r materion hyn pan fydd yn datblygu canllawiau adalw.

**263.** Er ein bod yn cydnabod bod Rhan 1 o'r Bil yn nodi'r fframwaith allweddol ar gyfer polau adalw, bydd llawer o'r manylion sy'n ymwneud â rhedeg pôl adalw, gan gynnwys cofrestru etholwyr a'r cyfyngiadau ar wariant a rhoddion, ymgyrchu, yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth a wneir o dan adran 11 o'r Bil.

**264.** Felly, mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 11 yn helaeth ac, fel y'i hamlygwyd gan randdeiliaid, mae'n rhoi cryn ddisgresiwn i Weinidogion Cymru ynghylch rhedeg polau adalw.

**Casgliad 6.** Credwn y byddai'n fuddiol archwilio sut y gellid ychwanegu darpariaeth ychwanegol ar wyneb y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd ymgynghori'n fwy helaeth â rhanddeiliaid a chraffu'n fwy manwl cyn y gellir gwneud rheoliadau o dan adran 11.

**Argymhelliad 5.** O ystyried pwysigrwydd rheoliadau adran 11 i'r broses adalw, dylid diwygio'r Bil fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud y rheoliadau, yn hytrach na'u galluogi i wneud hynny fel y mae adran 11(1) wedi'i drafftio ar hyn o bryd.

**265.** O ran adran 10 o'r Bil a'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer y bleidlais gudd ei hun, cytunwn â'r dystiolaeth a gawsom fod angen ystyried dyluniad y papur pleidleisio ar gyfer pôl adalw yn ofalus fel bod pleidleiswyr yn deall y dasg.

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol a rhanddeiliaid etholiadol eraill ar ffurf y papur pleidleisio ar gyfer polau adalw a dylai fod yn destun profion defnyddwyr cyn gynted â phosibl, os caiff y Bil ei basio a'i ddeddfu.

**266.** Gan droi at adran 15 o'r Bil, sy'n ymwneud â swyddogaethau swyddogion canlyniadau etholaethol, deallwn nad yw'r Bil fel y'i drafftiwyd yn diwygio Deddf 2013 i gynnwys pôl adalw o fewn y diffiniad o 'etholiadau a refferenda Cymru'. O'r herwydd, nid ydym yn glir pa swyddogaethau statudol fydd gan y BRhE mewn perthynas â pholau adalw. Mae'r BRhE wedi cadarnhau wrthym ei fod yn credu y dylai allu cynnwys polau adalw o fewn ei gylch gwaith a dylid ystyried a oes angen datgan yn benodol yn y Bil bod swyddogaethau'r BRhE yn ymestyn i ddeisebau adalw.

**Argymhelliad 7.** Dylid diwygio'r Bil i ddatgan yn benodol y bydd polau adalw yn dod o fewn swyddogaethau statudol y Bwrdd Rheoli Etholiadol.

**267.** Yn olaf, o ran Rhan 1 o'r Bil, nodwn bryderon y Llywydd ynghylch y ffordd y mae "Llywydd" wedi'i ddiffinio ar hyn o bryd yn adran 16 o'r Bil.

**Casgliad 7.** Byddem yn croesawu gwella'r diffiniad o "Llywydd" yn adran 16 o'r Bil yn unol ag awgrym y Llywydd.

# 5. Rhan 2 o'r Bil: Safonau ymddygiad Aelodau o'r Senedd

Mae Rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob Senedd sefydlu pwyllgor safonau ymddygiad, gan alluogi penodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor hwnnw, darparu i Gomisiynydd Safonau y Senedd i ymchwilio ar ei ysgogiad ei hun, a newid y personau nad ydynt yn gymwys i wasanaethu fel y Comisiynydd.

**268.** Daw darpariaethau yn y Rhan hon (gan gynnwys Rhan 2 o Atodlen 2) i rym y diwrnod ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol.

## Safonau ymddygiad

### Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

#### Pwyllgor Safonau Ymddygiad statudol

**269.** Mae adran 18(3) o'r Bil yn mewnosod adran newydd 30A yn Neddf 2006. Mae'r adran newydd 30A yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd gael pwyllgor safonau ymddygiad sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau o'r Senedd fel y'u nodir yn y Rheolau Sefydlog. Mae hefyd yn darparu ar gyfer pennu swyddogaethau ychwanegol y Pwyllgor mewn Rheolau Sefydlog.

**270.** Mae'r gofyniad presennol i'r Senedd gael pwyllgor safonau ymddygiad wedi ei nodi yn y Rheolau Sefydlog.

**271.** Yn y Memorandwm, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn datgan y bydd gosod rôl a chylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn deddfwriaeth yn "cryfhau'r ymrwymiad o ran y pwys a roddir ar safonau ac atebolrwydd", a bod hynny'n debygol o godi proffil y Pwyllgor o fewn y Senedd a chyda'r cyhoedd.[192]

[192] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 110

**272.** Mae'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn datgan bod ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad fodoli yn galluogi dyletswyddau i gael eu rhoi ar y Pwyllgor i gyflawni'r system adalw newydd, ac yn darparu "trefniant effeithiol" ar gyfer cyflawni argymhelliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ynghylch aelodau lleyg.[193]

**273.** Mae adran newydd 30A(3) yn darparu bod nifer aelodau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad i'w bennu yn y Rheolau Sefydlog, ac y gall hyn gynnwys aelodau lleyg – h.y. aelodau nad ydynt yn Aelodau o'r Senedd.

**274.** Mae darpariaeth bellach ynglŷn â'r hyn y gall Rheolau Sefydlog ei gynnwys am y Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi ei nodi yn is-adrannau (5) a (6). Yn y Memorandwm, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn datgan, er ei bod yn gonfensiwn sefydledig mai mater i'r Senedd benderfynu arno ei hun yw gweithdrefnau a phrosesau, "ystyrir ei bod yn bwysig" bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolau Sefydlog wneud darpariaeth mewn perthynas â materion penodol er mwyn cyflawni amcanion polisi'r Bil.[194]

**275.** Mae is-adran (5) o adran newydd 30A yn darparu y gall y Rheolau Sefydlog gynnwys darpariaeth:

- i eithrio aelodau lleyg o drafodion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad neu un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor;
- ynglŷn ag aelodaeth unrhyw is-bwyllgor o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, gan gynnwys aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor;
- i aelodau is-bwyllgor gael eu penodi drwy ddull arall heblaw gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ei hun; a hefyd
- y gall unrhyw is-bwyllgor a sefydlwyd i gynnal adolygiadau neu apeliadau yn erbyn trafodion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, neu is-bwyllgor sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau, gynnwys dim ond aelodau lleyg, boed hynny'n un neu'n rhagor.

**276.** Pan ofynnwyd i Hannah Blythyn a ddylai'r Bil orfodi sefydlu pwyllgor safonau ymddygiad, cadarnhaodd nad argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Safonau ydoedd, ond awgrymodd ei fod yn pwysleisio cymaint o bwys yw'r materion hynny

[193] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 110
[194] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 113

i'r sefydliad. Aeth ymlaen i ddweud nad yw'r Senedd eisiau cael ei gadael ar ôl, ond yn hytrach, arwain y ffordd o ran ei safonau ymddygiad.[195]

**277.** Awgrymodd Douglas Bain na fyddai cael pwyllgor safonau ymddygiad gorfodol, yn ymarferol, yn gwneud unrhyw wahaniaeth gwirioneddol gan fod gan y Senedd bwyllgor safonau ymddygiad erioed. Fodd bynnag, mynegodd bryder fod ei roi mewn statud yn dileu'r cyfle i newid y darpariaethau'n hawdd pe canfyddir bod angen newid unrhyw beth.[196]

**278.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Llywydd nad yw'n glir pam mae angen gorchymyn sefydlu pwyllgor safonau ymddygiad, gan gwestiynu pam na fyddai cyfeiriad at 'y Pwyllgor Safonau Ymddygiad', fel y'i diffinnir yn adran 20 o Fesur 2009, yn ddigonol mewn perthynas â gosod dyletswyddau uniongyrchol ar y Pwyllgor. Dywedodd y Llywydd y dylid ystyried y canlynol:

> "… *a oes angen gofyniad cyfreithiol i'r Senedd sefydlu 'Pwyllgor Safonau Ymddygiad' neu a fyddai'n ddigonol i'r Bil gyfeirio at 'y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, fel y'i diffinnir yn adran 20 o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009', er mwyn gosod dyletswyddau yn uniongyrchol ar y pwyllgor hwnnw.*"[197]

**279.** Nododd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, hefyd, fod pwyllgor safonau ymddygiad wedi'i sefydlu ym mhob Cynulliad a Senedd hyd yn hyn, a bod Rheol Sefydlog 22 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol, wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau, fod yn rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod yna bwyllgor â chyfrifoldeb am y swyddogaethau a bennir yn Rheol Sefydlog 22 (Safonau Ymddygiad).[198]

**280.** Fe wnaeth Cathy Mason ACD, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Breintiau, Cynulliad Gogledd Iwerddon, dynnu sylw at y ffaith bod darpariaeth ar gyfer y pwyllgor hwnnw wedi'i nodi mewn Rheolau Sefydlog, yn hytrach na deddfwriaeth, a dywedodd fod y trefniadau cyfreithiol/gweithdrefnol presennol wedi gwasanaethu'r pwyllgor hwnnw'n dda, ac nad yw'r mater o osod y Pwyllgor ar sail statudol wedi codi.[199]

---

[195] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [29]
[196] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [114]
[197] MAB14 Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones, y Llywydd, Senedd Cymru
[198] MAB09 Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, Senedd Cymru
[199] MAB03 Cathy Mason ACD, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Breintiau, Cynulliad Gogledd Iwerddon

**281.** Awgrymodd Daniel Greenberg, hefyd, fod angen ystyried cymysgu statud a hunanreoleiddio oherwydd y posibilrwydd anochel o gyflwyno achosion o ystumio.[200]

**282.** Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill i'r ymgynghoriad yn croesawu'r gofyniad deddfwriaethol i sefydlu Pwyllgor Safonau Ymddygiad, gan gynnwys Paul Evans a Syr Paul Silk[201], Datgloi Democratiaeth[202] a Transparency International UK, gyda'r olaf yn awgrymu y byddai'n amddiffyniad hanfodol yn erbyn mympwy gweithredol, neu'n anwybyddu prosesau safonau gan y weithrediaeth, ac yn un a fydd yn helpu i ddiogelu'r system safonau ar gyfer y dyfodol.[203]

**283.** Ar y mater hwn, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

> "*… the Government does think that a standards committee should be a compulsory part of any parliamentary arrangements.* (…)
>
> … *it seems inconceivable to me that you could have a decent parliamentary authority that didn't have a Standards of Conduct Committee, so we thought we would put that beyond doubt. It also means that the provisions around lay members and so on make some sense.*"[204]

**284.** Mae is-adran (8) o adran newydd 30A yn pennu deiliaid swyddi na chaniateir iddynt fod yn aelodau o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad nac un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor. Dyma nhw:

- y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru;
- y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd.

**285.** Cwestiynodd y Llywydd pam mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil, gan ddatgan fel a ganlyn:

> "*Er bod cynsail yn bodoli ar gyfer cynnwys darpariaeth ar aelodaeth pwyllgorau penodol yn y Senedd (h.y. Pwyllgor y*

[200] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [59]
[201] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk
[202] MAB08 Unlock Democracy
[203] MAB11 Transparency International (UK)
[204] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [35] a [68]

> *Llywydd a'r Pwyllgor Archwilio) mewn deddfwriaeth, nid yw'n glir pam mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cynnwys darpariaeth o'r fath yn y Bil hwn, mewn perthynas â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Oni bai bod rhesymau penodol y gellir eu cyfiawnhau dros ddarparu ar gyfer materion sy'n ymwneud ag aelodaeth pwyllgorau mewn deddfwriaeth, dylai'r Senedd allu penderfynu ar faterion o'r fath."*[205]

**286.** Awgrymodd y Llywydd, felly, y dylem archwilio pam mae'r rhestr o ddeiliaid swyddi nad ydynt yn cael bod yn aelodau o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil.[206]

**287.** Yn ei dystiolaeth, awgrymodd yr Athro Alistair Clark, hefyd, y gallai'r Bil fod yn gyfle i ystyried gweithrediad pwyllgor safonau ymddygiad yn ehangach, naill ai drwy ddeddfu i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau gael ei ddewis o'r brif wrthblaid, neu, os yw'n fwy perthnasol, i'r Rheolau Sefydlog gael eu diwygio yn unol â hynny.[207]

**288.** Fel y nodwyd uchod, un mater penodol y gallai is-bwyllgor mandadol o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ymgymryd ag ef yw cynnal adolygiadau neu apeliadau yn erbyn trafodion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

**289.** Yn flaenorol, roedd gan y Senedd broses apelio ar waith fel rhan o'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn aelodau. Roedd y broses yn rhagddyddio creu Comisiynydd Safonau annibynnol i'r Senedd. Roedd y broses apelio yn galluogi Aelodau o'r Senedd i apelio yn erbyn penderfyniad i unigolyn annibynnol â chymwysterau cyfreithiol (a enwebwyd gan Lywydd Cylchdaith Cymru). Dim ond ar sail weithdrefnol gul y gellid gwneud apeliadau, ac fe'u cynhaliwyd yn gyfan gwbl ar sail sylwadau ysgrifenedig.

**290.** Bu'r Pwyllgor Safonau yn ystyried effeithiolrwydd y mecanwaith apeliadau yn 2022 fel rhan o adolygiad ehangach o'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd. Mynegodd bryderon ar y pryd bod y weithdrefn apêl o bosibl yn agored i gamdriniaeth gan Aelodau o'r Senedd sy'n ceisio oedi canlyniad y broses, ei bod yn gostus, bod yr hawl i apelio yn anghymwys ac nad oedd sancsiwn am wneud apêl heb deilyngdod. Cytunodd mwyafrif y Pwyllgor Safonau y dylid dileu proses apelio o'r weithdrefn gwyno, a chytunodd y Senedd ar y weithdrefn gwyno ddiwygiedig.

---

[205] MAB14 Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones, y Llywydd, Senedd Cymru
[206] MAB14 Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones, y Llywydd, Senedd Cymru
[207] MAB04 Yr Athro Alistair Clark

**291.** Yn ei adroddiad ar ddichell fwriadol, argymhellodd y Pwyllgor Safonau, yng ngoleuni'r posibilrwydd o gyflwyno mecanwaith adalw, y dylid ystyried ailgyflwyno proses apelio ar gyfer Aelodau o'r Senedd.[208] Dywedodd y Pwyllgor Safonau yn ei adroddiad y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno mecanwaith deddfwriaethol i alluogi'r Senedd i sefydlu proses apelio gan gyfeirio at banel barnwrol annibynnol priodol, megis Panel Dyfarnu Cymru.[209] Mae Panel Dyfarnu Cymru eisoes yn clywed apeliadau gan aelodau awdurdodau lleol mewn perthynas â materion safonau.

**292.** Roedd y Pwyllgor Safonau'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno mecanwaith deddfwriaethol i alluogi unrhyw weithdrefn apelio yn y dyfodol, i'w dwyn i rym gan y Senedd.[210] Pe bai Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn, dywedodd y Pwyllgor Safonau y byddai'n ystyried sut y dylai proses apelio weithio'n ymarferol, ac yn cyflwyno cynigion i'r Senedd gytuno arnynt.[211] Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru er bod hyn yn fater i'r Senedd, y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried pa ddarpariaeth a allai fod ei hangen.[212]

**293.** Dywedodd Hannah Blythyn wrthym, o ystyried argymhellion y Pwyllgor Safonau ar gyfer cyflwyno math o broses adalw ar gyfer y Senedd, fod y Pwyllgor o'r farn y dylid ailgyflwyno proses apelio ochr yn ochr â hynny. Fodd bynnag, dywedodd, yn amlwg bydd angen ystyried yn ofalus sut olwg sydd ar hynny yn ymarferol wrth symud ymlaen.[213] Awgrymodd Huw Williams, Prif Gynghorydd Cyfreithiol Comisiwn y Senedd a oedd yn bresennol gyda Hannah Blythyn yn ein cyfarfod ar 11 Tachwedd, ei bod yn ymddangos fel pe bai'r Bil yn creu'r fframwaith angenrheidiol i sefydlu pwyllgor ffurfiol a allai gyflawni swyddogaethau adolygu neu apelio ffurfiol.[214]

**294.** Roedd Dr Ben Stanford hefyd yn croesawu ailgyflwyno mecanwaith apelio, a nododd fod pryderon ynghylch tegwch mecanwaith adalw San Steffan wedi

[208] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, argymhelliad 11
[209] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, paragraff 201
[210] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, argymhelliad 11
[211] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, paragraff 201
[212] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol
[213] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [37]
[214] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [34]

arwain at ymestyn rôl y Panel Arbenigwyr Annibynnol yn 2022 i glywed apeliadau gan Aelodau Seneddol yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau.[215]

**295.** Fodd bynnag, nododd Douglas Bain nad oedd yn cefnogi ailgyflwyno proses apelio, gan ddatgan y byddai am weld achos llawer mwy argyhoeddiadol ar ei gyfer. Ychwanegodd, yn anochel, y byddai cyflwyno proses apelio yn arwain at oedi ac ansicrwydd.[216]

**296.** Dywedodd Alberto Costa AS wrthym y dylai'r Senedd greu system apelio ar wahân i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Fel arall, ychwanegodd, byddem yn gweithredu fel fforwm gweithle cyntaf yn ogystal â chorff apeliadau, ac nid oedd o'r farn y dylem fod yn gwisgo'r ddwy het hynny.[217]

**297.** O ran apeliadau, dywedodd Daniel Greenberg wrthym fod yn rhaid ymgorffori seiliau gwrthrychol a chlir dros apelio, yn ogystal â therfynoldeb mewn unrhyw broses apelio.[218] Awgrymodd, hefyd, fod angen meddwl yn ofalus ynghylch rôl aelodau lleyg gydag apeliadau, gan ddatgan, o safbwynt tegwch a phroses ddyladwy, mae'n amlwg bod problemau ynghylch cael un grŵp penodol â'r dasg, o bosibl, o ddod i mewn yn ddiweddarach a gorfod gwrando ar apêl.[219]

**298.** Ar y pwnc hwn, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod Llywodraeth Cymru'n teimlo'n gryf iawn mai mater i'r awdurdodau seneddol yw penderfynu sut mae eu pwyllgor safonau a'u mecanweithiau apelio yn gweithio.[220]

### Penodi aelodau lleyg

**299.** Fel y nodwyd yn flaenorol ym mharagraff 276, mae adran newydd 30A(3) yn caniatáu penodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Mae hyn yn ymateb i argymhelliad 2 o adroddiad y Pwyllgor Safonau ar ddichell fwriadol[221]. Mae Pwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin wedi gweithredu gydag aelodau lleyg ers dros ddegawd (gweler blwch 6).

---

[215] MAB02 Dr Ben Stanford
[216] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [116]
[217] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [97]
[218] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [64] a [65]
[219] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [69]
[220] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [70]
[221] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, argymhelliad 2

***Blwch 6***

Pwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin

Penodwyd aelodau lleyg (y rhai nad ydynt yn ASau) i Bwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin am y tro cyntaf yn 2012, gyda thri aelod yn cael eu penodi. Yn 2016, newidiwyd hynny i ddarparu ar gyfer nifer cyfartal o aelodau lleyg i aelodau etholedig ar y pwyllgor. Ar hyn o bryd mae gan y Pwyllgor saith aelod lleyg.

Mae aelodau lleyg yn chwarae rhan lawn yng ngwaith y Pwyllgor, gan gynnwys mewn achosion disgyblu ac ymchwiliadau sy'n ymwneud â materion safonau. Yn 2019, pleidleisiodd Tŷ'r Cyffredin i roi hawliau pleidleisio llawn i aelodau lleyg o ganlyniad i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor.

Mae aelodau lleyg yn cael eu penodi gan Dŷ'r Cyffredin drwy gynnig yn dilyn proses recriwtio deg a thryloyw am dymor na ellir ei adnewyddu o hyd at chwe blynedd.

**300.** Mae'r adran newydd 30A(6) yn nodi'r darpariaethau y mae'n rhaid i Reolau Sefydlog eu gwneud ac y caiff eu gwneud os yw'r Senedd yn dewis penodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor:

- Mewn perthynas â thrafodion pwyllgor neu is-bwyllgor ynghylch ymddygiad Aelod o'r Senedd, rhaid i'r Rheolau Sefydlog ddarparu ar gyfer y canlynol:
  - bod aelodau lleyg yn cael yr un cyfranogiad a hawliau pleidleisio ag aelodau eraill y Pwyllgor; a hefyd
  - nifer yr aelodau lleyg ac aelodau eraill sy'n ofynnol er mwyn i'r trafodion gyrraedd y cworwm.
- Mewn perthynas â thrafodion pwyllgorau neu is-bwyllgorau sy'n ymwneud â materion eraill (ac eithrio craffu ar ddeddfwriaeth), caiff y Reolau Sefydlog ddarparu ar gyfer y canlynol:
  - bod aelodau lleyg yn cael yr un cyfranogiad a hawliau pleidleisio ag aelodau eraill y Pwyllgor; a hefyd
  - nifer yr aelodau lleyg ac aelodau eraill sy'n ofynnol er mwyn i'r trafodion gyrraedd y cworwm.

**301.** Mae adran newydd 30A(6)(c) yn darparu bod rhaid i'r Rheolau Sefydlog wneud darpariaeth na all aelodau lleyg gymryd rhan na phleidleisio fel aelod yng ngweithredoedd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad na thrafodion is-bwyllgor sy'n ymwneud â chraffu ar ddeddfwriaeth. Y rhesymeg dros hynny, a roddir gan y Cwnsler Cyffredinol yn y Memorandwm, yw y byddai'n amhriodol i aelodau lleyg fod yn rhan o'r elfen hon o waith y Pwyllgor gan eu bod heb eu hethol, ac mai mater i aelodau etholedig ddylai llunio a chraffu ar ddeddfwriaeth fod.[222]

**302.** Mae adran 18(3) o'r Bil, hefyd, yn mewnosod adran newydd 30B yn Neddf 2006. Mae'r adran newydd hon yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer aelodau lleyg o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, gan gynnwys sut y byddant yn cael eu recriwtio, yn cael eu penodi ac yn rhoi'r gorau i'w swydd.

**303.** Mae adran newydd 30B(1) yn gosod cyfyngiad ar aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad gan na all fod mwy o aelodau lleyg ar y Pwyllgor nag aelodau sy'n Aelodau o'r Senedd. Yn y Memorandwm, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod y dull hwn yn cydbwyso'r rôl bwysig mae aelodau lleyg yn ei chwarae gyda "phriodoldeb" sicrhau nad yw cyfansoddiad pwyllgor ar y Senedd yn arwain at y posibilrwydd o fwy o aelodau heb eu hethol nag Aelodau o'r Senedd.[223]

**304.** Mae is-adrannau (2), (3) a (4) o adran newydd 30B yn darparu modd i benodi aelodau lleyg drwy benderfyniad yn y Senedd drwy gynnig a gyflwynir gyda chydsyniad y Llywydd. Mae hefyd yn nodi bod rhaid i'r sawl a gyflwynir i'w enwebu yn y cynnig fod wedi cael ei ddewis ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

**305.** Mae is-adran (5) yn darparu na all uchafswm cyfnod penodiad aelod lleyg fod yn fwy na chwe blynedd, ond gall ddod i ben ar ôl dyddiad etholiad nesaf y Senedd, sy'n golygu y gall penodiad barhau i dymor pellach yn y Senedd. Yn y Memorandwm, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi y bydd hyn yn osgoi sefyllfa lle mae'n rhaid i recriwtio aelodau lleyg ddigwydd ar ddechrau pob tymor yn y Senedd, a allai olygu oedi cyn i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ddechrau ei waith.[224] Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi, hefyd, y bydd yn darparu rhywfaint o brofiad a pharhad i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad rhwng Seneddau ac yn osgoi beichiau gweinyddol "diangen" ar ddechrau pob tymor.[225]

**306.** Cyflwynir Atodlen newydd 1B i Ddeddf 2006 drwy Atodlen 1 i'r Bil (fel y'i cyflwynir gan adran 18) ac mae'n nodi'r categorïau o bersonau (Rhan 1 o'r Atodlen)

[222] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 121
[223] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 118
[224] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 122
[225] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 122

a swyddi (Rhan 2 o'r Atodlen) a fyddai'n anghymhwyso unigolyn rhag cael ei benodi'n aelod lleyg o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad (gweler blwch 7).

***Blwch 7***

Mae Atodlen newydd 1B yn nodi bod y categorïau a ganlyn o unigolion yn anghymwys i gael eu penodi yn aelodau lleyg o'r Pwyllgor:

Unigolyn sydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd ac eithrio mewn perthynas â'r gofyniad i fod ar y gofrestr llywodraeth leol o etholwyr mewn cyfeiriad mewn etholaeth yn y Senedd ac unigolion sy'n cael eu carcharu neu eu cadw yn y ddalfa ar ôl euogfarn.

Unigolyn a gafwyd yn euog yn y Deyrnas Unedig o drosedd y mae'r unigolyn yn cael ei ddedfrydu neu ei orchymyn i gael ei garcharu neu ei gadw yn y ddalfa amdani, os nad yw'r euogfarn wedi'i disbyddu

Unigolyn sydd mewn swydd ar hyn o bryd neu sydd wedi bod mewn swydd ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd cyn i'w benodiad fel aelod lleyg ddod i rym. Y canlynol yw'r swyddi hyn:

- Unrhyw berson sy'n dal un o'r swyddi anghymhwyso yn ail golofn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1A (ac eithrio'r swyddi barnwrol),
- Aelod o'r Senedd,
- aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi,
- cynghorydd cymuned neu gynghorydd sir yng Nghymru,
- Aelod o Senedd yr Alban,
- Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon, a hefyd
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru.

**307.** Nid yw Rheolau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin yn caniatáu i aelodau presennol neu gyn-aelodau o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi fod yn aelodau lleyg o'i Bwyllgor Safonau.

**308.** Mae is-adran (7) o adran newydd 30B yn cyfyngu aelod lleyg rhag gwasanaethu mwy na dau dymor yn y swydd (p'un a yw'r rhain yn olynol ai peidio). Dywedir yn Nodiadau Esboniadol drafft i'r Bil bod yr holl delerau ac

amodau eraill yn faterion i'r Senedd eu penderfynu a gellir eu nodi mewn Rheolau Sefydlog.[226]

**309.** Mae is-adran (8) yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau pan fydd unigolion yn rhoi'r gorau i ddal swydd fel aelodau lleyg yn awtomatig. Dyma nhw:

- os ydynt yn ymgeisydd mewn etholiad cyffredinol yn y Senedd (ar ôl i'r cyfnod ar gyfer tynnu'n ôl hysbysiad am ymgeisyddiaeth ddod i ben); neu
- os ydynt yn unrhyw un o'r categorïau a nodir ar gyfer anghymhwyso yn is-adran (6).

**310.** Mae is-adran (9) o adran newydd 30B, hefyd, yn darparu modd i aelod lleyg ymddiswyddo drwy hysbysu'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac i'r Senedd ei ddiswyddo, yn amodol ar benderfyniad sy'n cael ei gefnogi gan o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd. Dim ond gyda chydsyniad y Llywydd y gellir cyflwyno'r cynnig hwn ac yn unol ag unrhyw ddarpariaeth a wneir yn y Rheolau Sefydlog.

**311.** Mae hyn yn wahanol i ddull Tŷ'r Cyffredin, lle mai dim ond drwy benderfyniad gan Dŷ'r Cyffredin, yn dilyn adroddiad gan Gomisiwn Tŷ'r Cyffredin ei fod yn fodlon y dylai'r unigolyn beidio â bod yn aelod lleyg, y caiff yr aelod lleyg ei ddiswyddo. Rhaid i adroddiad Comisiwn Tŷ'r Cyffredin gynnwys datganiad sy'n nodi ei resymau dros ddod i'r casgliad hwn.

**312.** Mae is-adran (11) yn ei gwneud yn ofynnol i Reolau Sefydlog wneud darpariaeth ar gyfer ymchwilio a dyfarnu ar gwynion am gamymddwyn aelodau lleyg.

**313.** Mae is-adran (12) yn galluogi Comisiwn y Senedd i dalu unrhyw gydnabyddiaeth ariannol a lwfansau a bennir gan y Comisiwn i aelodau lleyg.

**314.** Dywedodd Hannah Blythyn wrthym mai un o fanteision posibl cael pwyllgor safonau ymddygiad gorfodol yw'r darpariaethau canlyniadol yn y Bil ar gyfer aelodau lleyg.[227] O ran aelodau lleyg, dywedodd, fel pwyllgor, eu bod yn gweld hyn fel cam cadarnhaol ymlaen, nid yn unig i gryfhau'r math hwnnw o annibyniaeth a

[226] Y Memorandwm Esboniadol, Nodiadau Esboniadol drafft, tudalen 71, paragraff 48
[227] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [33]

hyder yn y system, ond i'w galluogi, mewn gwirionedd, i ddefnyddio arbenigedd annibynnol.[228]

**315.** Roedd Douglas Bain yr un mor gefnogol i'r posibilrwydd o aelodau lleyg yn eistedd ar bwyllgor safonau ymddygiad. Awgrymodd y gallai cynnwys aelodau annibynnol cymwysedig fod yn gymorth i amddiffyn rhag unrhyw ganfyddiad bod Aelodau o'r Senedd yn 'marcio eu gwaith cartref eu hunain' yn unig,[229] pwynt a adleisiwyd gan Transparency International UK[230] a Daniel Greenberg.[231]

**316.** Dywedodd Daniel Greenberg wrthym, hefyd, fod dwyn elfennau annibynnol effeithiol o'r drefn yn ychwanegu hygrededd mewn ffordd bwysig iawn at y cynllun safonau cyffredinol, a rhaid i aelodau lleyg fod yn rhan bwysig o hynny.[232]

**317.** Cynigiwyd sylwadau cefnogol tebyg gan Dr Ben Stanford,[233] ERS Cymru,[234] Unlock Democracy,[235] a'r Athro Alistair Clark.[236]

**318.** Dywedodd Dr David Stirling wrthym, fel aelod lleyg ei hun ar Bwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin, mai un cryfder penodol o gael aelodau lleyg yn eistedd ar bwyllgor safonau yw nad yw ystyriaethau gwleidyddol – megis y modd y byddai gwahardd Aelod yn effeithio ar Lywodraeth â mwyafrif bach yn unig – yn cael eu cynnwys yn y drafodaeth o gwbl.[237]

**319.** Ar fater hawliau pleidleisio i aelodau lleyg, ychwanegodd Dr Stirling nad oedd yn hollol siŵr beth fyddai pwynt cael aelodau lleyg ar bwyllgor pe na baent yn gallu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.[238]

**320.** Awgrymodd Paul Evans a Syr Paul Silk inni y dylid ystyried mynd gam ymhellach drwy wneud aelodau lleyg yn nodwedd orfodol o bwyllgor safonau ymddygiad. Dywedon nhw fod cyfranogiad aelodau lleyg ym Mhwyllgor Safonau San Steffan wedi profi'n atgyfnerthiad cryf i annibyniaeth a didueddrwydd canfyddedig y Pwyllgor hwnnw.[239]

[228] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [46]
[229] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [124]
[230] MAB11 Transparency International UK
[231] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [34]
[232] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [34]
[233] MAB02 Dr Ben Stanford
[234] MAB07 ERS Cymru
[235] MAB08 Unlock Democracy
[236] MAB04 Yr Athro Alistair Clark
[237] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [19]
[238] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [51]
[239] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk

**321.** Awgrymodd Crynwyr Cymru, hefyd, fod yn rhaid cynnwys aelodau lleyg ar bwyllgor safonau ymddygiad, ac y dylai'r Bil gynnwys egwyddor bod yn rhaid i aelodau lleyg fod yn wleidyddol niwtral ac yn annibynnol, a chael eu gweld felly. Dywedodd, hefyd, y byddai'n croesawu nifer targed neu ystod o niferoedd e.e. rhaid i 4 o 9 aelod fod yn aelodau lleyg.[240]

**322.** Gwnaed sylwadau tebyg am nifer yr aelodau lleyg gan yr Athro Alistair Clark. Dywedodd fel a ganlyn:

> "*The key question of how many Lay Members to appoint has been left unaddressed by the legislation. To some degree this is inevitable, given the institutional changes that will happen from the 2026 election. It is however possible to anticipate potential outcomes in this regard, since the overall size of the future Senedd is already known, and the Committee is likely to be larger than it currently is. This should have been done.*
>
> *It is correct that the number of Lay Members should not exceed the number of elected members (Para 118 explanatory memorandum). At the same time, it is important that Lay Members do not feel pressurised or outnumbered by elected members into taking one course of action over another, which could happen if there are fewer lay members than elected members. This speaks to an equivalent number of Lay Members and elected members in the future Standards Committee.*"[241]

**323.** Fodd bynnag, ynghylch darpariaethau'r Bil yn ymwneud â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac aelodau lleyg, rhybuddiodd y Llywydd y gallai "cynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil yn gwrthdaro â'r egwyddor y dylai senedd fod yn rhydd i'w llywodraethu ei hun, heb ymyrraeth allanol". Ychwanegodd fel a ganlyn:

> "*Dylai'r Pwyllgor ystyried yn ofalus unrhyw ddarpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ar hyn o bryd sy'n cyfyngu ar ddisgresiwn y Senedd i benderfynu ar ei gweithdrefnau ei hun, ac, o bosibl, dylid argymell eu dileu.*
>
> *Felly, efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried ar ba sail y mae'r Bil yn ceisio diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 y tu hwnt i'r hyn*

[240] MAB05 Crynwyr Cymru
[241] MAB04 Yr Athro Alistair Clark

> *sy'n angenrheidiol i gyflawni argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad."*[242]

**324.** O ran pwy na ddylid caniatáu iddyn nhw wasanaethu fel aelodau lleyg, dywedodd Hannah Blythyn bod y Bil, yn ei barn hi, yn berffaith synhwyrol, fel y'i cyflwynwyd[243]; cynigiodd Douglas Bain farn debyg.[244] Pan ofynnwyd iddo'n benodol a ddylid caniatáu i gyn-Aelodau o'r Senedd wasanaethu fel aelodau lleyg ar ôl seibiant o ddwy flynedd yn unig ar ôl eistedd fel aelod, cadarnhaodd Clerc y Pwyllgor Safonau farn y Pwyllgor y dylai fod yn hirach na dwy flynedd, a dylai fod yn unol â'r cyfnod anghymhwyso ar gyfer pwy y gellir ei benodi'n Gomisiynydd Safonau.[245] Ychwanegodd Hannah Blythyn, os byddwch chi'n newid un, byddwch chi'n newid y ddau.[246]

**325.** Nododd Dr David Stirling fod annibyniaeth wleidyddol yn wirioneddol bwysig i aelodau lleyg, ac awgrymodd y byddai'n anodd iawn, ar ôl bod yn Aelod or Senedd, hyd yn oed ar ôl seibiant o bum mlynedd, i ddod yn ôl a dweud yn wirioneddol eich bod yn annibynnol.[247]

**326.** Cadarnhaodd Douglas Bain inni y dylai'r cyfnod lleiaf y gellid penodi cyn-Aelod o'r Senedd yn aelod lleyg fod yn bedair blynedd yn hytrach na dwy, gan awgrymu bod dwy flynedd yn rhoi arwydd anghywir i'r cyhoedd.[248]

**327.** Pan ofynnwyd iddo egluro'r rhesymeg dros ddrafftio'r Bil ynghylch anghymhwyso cyn-Aelodau o'r Senedd rhag cael eu penodi'n aelodau lleyg, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru wedi edrych ar y meini prawf anghymhwyso ar gyfer ellid penodi'n Gomisiynydd Safonau, ac wedi efelychu'r meini prawf hynny.[249]

**328.** O ran telerau swydd aelodau lleyg, dywedodd Hannah Blythyn wrthym y byddai'r Pwyllgor Safonau yn croesawu parhad a fyddai'n cael ei gyflawni gan dymhorau nad ydynt yn cyd-fynd â thymhorau'r Senedd, ac i'r tymhorau beidio â

[242] MAB14 Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones, y Llywydd, Senedd Cymru
[243] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [48]
[244] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [127]
[245] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [51]
[246] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [52]
[247] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [62]
[248] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [129]
[249] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [91]

dechrau a gorffen ar y pryd.[250] Cefnogwyd hyn gan Daniel Greenberg[251] a'r Cwnsler Cyffredinol.[252]

**329.** Dywedodd Crynwyr Cymru y byddai'n ffafrio terfynau tymor byrrach ar gyfer aelodau lleyg er budd eglurder, tryloywder a thegwch, gan awgrymu, fel enghraifft, dymor o 3 blynedd adnewyddadwy (yn unol â threfniadau Tŷ'r Arglwyddi) neu 6 blynedd na ellir ei adnewyddu (yn unol â threfniadau Tŷ'r Cyffredin). Dywedodd, hefyd, y dylai'r Bil (neu'r rheoliadau perthnasol) nodi'n glir y broses ar gyfer ailbenodi aelodau lleyg ac a fydd cystadleuaeth agored yn berthnasol i osgoi canfyddiadau o gronyiaeth, ymwreiddio neu ddibyniaeth ar actorion gwleidyddol.[253]

**330.** Fel aelod lleyg presennol o Bwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin, mynegodd Dr David Stirling ei farn bod perygl i gyflwyno telerau adnewyddadwy. Ychwanegodd fel a ganlyn:

> "*I think there's a value in a fresh voice and fresh thinking around the table. So, I personally wouldn't be a huge supporter if someone suggested that we were able to stand for a second six-year term. I think that would be too long.*"[254]

**331.** O ran telerau adnewyddadwy ar gyfer aelodau lleyg, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol mai mater i'r awdurdodau seneddol ydyw, ond y dylai'r Senedd fod yn ofalus nad yw'n creu sefyllfa lle mae yna rywun sy'n berffaith abl i wasanaethu, ond bod rheol wedi'i rhoi ar waith sy'n golygu na ellid gofyn iddyn nhw.[255]

**332.** O ran ymddygiad aelodau lleyg, dywedodd PCS Cymru wrthym:

> "*Lay Members should be subject to the full rules of a Member of the Senedd with regard to their role on the Committee, including being subject to investigation by the Commissioner for Standards for their conduct in that role. They should also be subject to the full range of sanctions of the Committee – including recall of some form*".[256]

[250] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [48] a [49]
[251] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [39]
[252] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [89]
[253] MAB05 Crynwyr Cymru
[254] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [64]
[255] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [97] a [99]
[256] MAB12 PCS Cymru

**333.** Mae un mater olaf ar ddarpariaethau'r Bil ar gyfer aelodau lleyg yn ymwneud â drafftio'r teitl hir. Mae'r teitl hir yn nodi mai un o ddibenion y Bil yw ei gwneud yn ofynnol bod Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd yn bodoli, sy'n cynnwys aelodau nad ydynt yn Aelodau o'r Senedd. Pan ofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd hi'n ystyried bod hyn yn gorliwio effaith y Bil, o ystyried bod penodi aelodau lleyg yn ôl disgresiwn y Senedd, atebodd fel a ganlyn:

> *"Yes, it does go beyond what's strictly provided for by the Bill. So if the committee doesn't make any amendments that mandate the appointment of lay members, then we'll adjust the long title accordingly."*[257]

### Materion eraill sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Senedd

**334.** Rydym yn tynnu sylw ym Mhennod 2, ochr yn ochr â'r Bil, fod y Pwyllgor Safonau yn parhau â'i waith o edrych ar gyfundrefn safonau'r Senedd yn ei chyfanrwydd. Wrth roi tystiolaeth inni, cadarnhaodd Hannah Blythyn fod y Pwyllgor Safonau yn ystyried newidiadau i reol 2 o'r Cod Ymddygiad.

## Comisiynydd Safonau y Senedd

### Pŵer Comisiynydd Safonau y Senedd i ymchwilio ar ei ysgogiad ei hun

**335.** Mae adran 19 o'r Bil yn mewnosod adran newydd 10A i Fesur 2009.

**336.** Mae adran 19 yn rhoi'r pŵer i Gomisiynydd Safonau y Senedd (y Comisiynydd) gychwyn ei ymchwiliadau ei hun (ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun). Mae'r ddarpariaeth hon yn ymateb i argymhelliad 6 o adroddiad y Pwyllgor Safonau ar ddichell fwriadol.[258]

**337.** Ar hyn o bryd, dim ond os deuir â chŵyn i'w sylw y gall y Comisiynydd ymchwilio i ymddygiad Aelod o'r Senedd. Mae gan y cyrff cyfatebol ar gyfer Tŷ'r Cyffredin a Chynulliad Gogledd Iwerddon bwerau ar eu hysgogiad eu hunain.

**338.** Mae adran (1) o adran newydd 10A yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i ymddygiad Aelod o'r Senedd ar ei ysgogiad ei hun:

[257] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [94]
[258] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, argymhelliad 6

- os oes gan y Comisiynydd sail resymol dros amau bod ymddygiad yr aelod, ar adeg berthnasol, wedi methu â chydymffurfio â gofyniad mewn darpariaeth berthnasol (gweler blwch 8), ac
- os yw'n fodlon bod unrhyw amod arall – y gellir ei nodi mewn Rheolau Sefydlog neu reolau a wneir gan y Senedd – wedi ei fodloni.

***Blwch 8***

Beth yw darpariaeth berthnasol?

Mae adran 6 o'r Mesur Safonau yn diffinio 'darpariaeth berthnasol' fel a ganlyn:

Unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â'r canlynol:

- cofrestru neu ddatgan buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill
- hysbysiadau gan Aelodau o'r Senedd ynglŷn â'u haelodaeth o gymdeithasau; neu
- cofrestru neu hysbysu unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud ag Aelodau o'r Senedd neu â phersonau sy'n gysylltiedig ag Aelodau o'r Senedd

unrhyw benderfyniad gan y Senedd sy'n ymwneud â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill Aelodau o'r Senedd.

unrhyw God Ymddygiad a gymeradwyir gan y Senedd sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau o'r Senedd.

unrhyw benderfyniad gan y Senedd sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau o'r Senedd.

**339.** Os yw'r Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun, mae is-adran (2) o adran newydd 10A yn ei gwneud yn ofynnol iddo adrodd i'r Senedd ar ganlyniad yr ymchwiliad.

**340.** Mae is-adran (3) o adran newydd 10A yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gynnal ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun ac adrodd o dan is-adran (2) yn unol â'r canlynol:

- unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheolau Sefydlog, a hefyd
- unrhyw reolau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau a gynhelir o dan yr adran hon a fabwysiadwyd gan y Senedd o dan Reolau Sefydlog.

**341.** Fodd bynnag, mae is-adran (4) o'r adran newydd yn darparu modd i'r Comisiynydd benderfynu pryd a sut i gynnal ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun, yn ddarostyngedig i'r gofynion yn is-adrannau (1) a (3).

**342.** Mae is-adran (5) yn rhoi'r modd i'r Comisiynydd roi'r gorau i ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun heb adrodd amdano i'r Senedd os gwnaed rheolau yn unol ag is-adran (3)(b) sy'n nodi'r amgylchiadau y gall hynny ddigwydd. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd hysbysu'r Aelod o'r Senedd dan ymchwiliad, gan nodi'r rhesymau dros roi'r gorau i'r ymchwiliad.

**343.** Mae is-adran (7) o adran newydd 10A yn gwahardd unrhyw adroddiad a wneir gan y Comisiynydd yn dilyn ymchwiliad ei hun rhag cynnwys unrhyw argymhelliad ynghylch pa sancsiynau (os o gwbl) y dylid eu gosod ar yr Aelod dan ymchwiliad. Mae hyn yn unol â'r gofynion presennol ar gyfer adroddiadau'r Comisiynydd Safonau, gyda sancsiynau yng nghylch gwaith y Pwyllgor, yn seiliedig ar adroddiad y Comisiynydd.

**344.** Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ysgrifennu at Glerc y Senedd os yw, yn ystod ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun, yn dod yn ymwybodol o amgylchiadau sy'n arwain at faterion egwyddor neu arfer cyffredinol sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Clerc fel prif swyddog cyfrifyddu o dan adran 138 o Ddeddf 2006. Mae hyn yn adlewyrchu darpariaeth gyfatebol yn y Mesur Safonau sy'n ymwneud ag ymchwilio i gwynion gan y Comisiynydd.

**345.** Mae is-adran (9) yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheolau Sefydlog yn nodi manylion sut bydd ymchwiliadau ar ei ysgogiad ei hun yn gweithredu.

**346.** Yn y Memorandwm, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r Comisiynydd i ddeall unrhyw gostau posibl o ddarparu'r pwerau hyn i'r swydd yng Nghymru o ystyried ei brofiad blaenorol fel Comisiynydd yng Ngogledd Iwerddon. [259]

**347.** Pan roddodd dystiolaeth i ni, cadarnhaodd Hannah Blythyn fod adran 19 o'r Bil yn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Safonau, gan ychwanegu, ar hyn o bryd, mae'r Senedd mewn gwirionedd yn eithriad yn hyn o beth, gyda seneddau eraill eisoes yn rhoi pŵer o'r fath i'w comisiynwyr.[260]

[259] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 185
[260] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [56]

**348.** Dywedodd Douglas Bain, fel Comisiynydd, ei fod yn croesawu'r ddarpariaeth adran 19 a chadarnhaodd ei fod wedi bod yn galw am bwerau 'ysgogiad ei hun' ers ei benodi'n Gomisiynydd. Dywedodd y canlynol wrthym:

> "*I had a power to initiate investigations whilst I was Northern Ireland's standards commissioner, although I used it only once. I would envisage that it would be used very rarely. In the six years in which I've been working in the Senedd, I can think of only two occasions on which I would have considered using this power, had it been available. Both of these were alleged misconduct that had been widely reported in the media, and I think it sends the wrong signal to the public when they read of that and no action is taken. Now, no action could be taken because, much to my surprise, not a single person made a complaint about either of the incidents, perhaps assuming that someone else was going to do that. But the result was that, as far as the public were concerned, the Senedd condoned what had happened.*"[261]

**349.** Awgrymodd Dr David Stirling ei bod yn hollol briodol i'r Comisiynydd gael yr annibyniaeth honno o ran pryd i gychwyn ymchwiliad neu ble i ymestyn ymchwiliad, ac, yng nghyd-destun Tŷ'r Cyffredin, na fyddai'n rhywbeth y byddai'r Pwyllgor Safonau mewn unrhyw ffordd yn ceisio dylanwadu arno.[262]

**350.** Ychwanegodd yr AS Alberto Costa fod gallu'r Comisiynydd i gychwyn ymchwiliadau yn gwneud y canlynol:

> "*… safeguards the commissioner's operational independence to enable the commissioner to respond to events, rather than wait for complaints that may or may not arise. And this undoubtedly strengthens accountability in demonstrating the independence of the system.*"[263]

**351.** Dywedodd Daniel Greenberg wrthym am ei brofiad o ddefnyddio pwerau 'ysgogiad ei hun' yn San Steffan, gan ddweud mai'r nodwedd bwysicaf yw bod yn rhaid i hynny gyd-fynd â disgwyliadau'r cyhoedd y bydd adroddiadau am amhriodoldeb yn cael eu hymchwilio yn yr un ffordd trwyadl a thrylwyr ar sail y dystiolaeth, yn yr un modd ag y cynhelir pob ymchwiliad arall gan y

[261] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [131]
[262] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [84]
[263] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [86]

Comisiynydd.[264] Ychwanegodd na ddylai ymchwiliadau o'r fath ddod yn gyfle, naill ai mewn gwirionedd neu mewn canfyddiad, i 'fynd ar deithiau pysgota a chwilio am drafferth' ar unrhyw adeg.[265]

**352.** O ran manteision Comisiynydd yn cael pwerau i ymchwilio ar ei ysgogiad ei hun, dywedodd Daniel Greenberg:

> "*… the most obvious benefit is that whether or not an investigation is commenced does not depend on simply whether somebody thinks to complain to me or not.* (…)
>
> *… it enhances credibility for the regime as a whole, because the public can see that, in the performance of my operationally independent role, whether or not an investigation is triggered is wholly down to the matters I discussed before—evidence, justification, proportionality—and not on what the public might see as a whim of mine or a whim of the public.*"[266]

**353.** Roedd cefnogaeth, hefyd, i'r Comisiynydd gael pwerau 'ysgogiad ei hun' gan Crynwyr Cymru.[267], ERS Cymru[268], yr Athro Alistair Clark[269], Unlock Democracy[270], a Paul Evans a Syr Paul Silk.[271]

**354.** Wrth gynnig ei gefnogaeth, dywedodd Transparency International UK:

> "*Following the appropriate procedures for dealing with complaints against Members, the Commissioner is well placed to open investigations into breaches of the Code considering their familiarity and experience of process. Allowing the Commissioner to open investigations also enables another layer of monitoring and accountability to the standards of Members.*"[272]

[264] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [46]
[265] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [47]
[266] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 25 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [52] a [53]
[267] MAB05 Crynwyr Cymru
[268] MAB07 ERS Cymru
[269] MAB04 Yr Athro Alistair Clark
[270] MAB08 Unlock Democracy
[271] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk
[272] MAB11 Transparency International UK

**355.** Er eu bod yn cefnogi adran 19, awgrymodd PCS Cymru, heb gomisiynu cyngor arbenigol allanol ar faterion bwlio ac aflonyddu rhywiol, fod y Bil mewn perygl o roi gormod o rym ar farn unigol y Comisiynydd.[273]

## Comisiynydd Safonau y Senedd: cymhwysedd

**356.** Mae adran 20 o'r Bil yn diwygio'r Mesur Safonau drwy ychwanegu dau gategori o bersonau nad ydynt yn gymwys i gael eu penodi fel y Comisiynydd:

- person sy'n cael ei gyflogi gan Aelod o'r Senedd ar waith sy'n gysylltiedig â swyddogaethau gwleidyddol yr Aelod (neu sydd wedi bod felly yn y ddwy flynedd cyn i'r penodiad ddod i rym), a hefyd
- person sy'n cael ei gyflogi gan blaid wleidyddol gofrestredig (neu sydd wedi bod felly yn y ddwy flynedd cyn i'r penodiad ddod i rym).

**357.** Un mater nad yw'n cael sylw ar hyn o bryd yw anghymhwyso cyn Aelodau o'r Senedd. Ysgrifennodd y Pwyllgor Safonau at y Cwnsler Cyffredinol ym mis Mai 2025 i amlinellu ei farn y gallai cyfnod anghymhwysedd o ddwy flynedd ar gyfer cyn Aelodau o'r Senedd, neu staff y Senedd neu Lywodraeth Cymru, fod yn rhy fyr, bellach, ac y gallai person o'r fath barhau i fod yn rhy agos at yr Aelod y cwynwyd amdano neu at dystion, neu y gellid canfod bod y person yn rhy agos. Fel y nodwyd uchod (ym mharagraff 327), cadarnhaodd Hannah Blythyn y safbwynt hwn pan roddodd dystiolaeth inni, gan nodi barn y Pwyllgor Safonau y dylai'r cyfnod anghymhwyso ar gyfer pwy y gellir ei benodi'n Gomisiynydd fod yn hirach na dwy flynedd ac yn unol â'r hyn a gynigir ar gyfer y meini prawf cymhwysedd i gyn-Aelodau o'r Senedd eistedd fel aelodau lleyg.

## Materion eraill sy'n ymwneud â rôl Comisiynydd Safonau y Senedd

**358.** Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, awgrymodd ERS Cymru ddiwygiad pellach y gellid ei wneud i'r broses safonau, rhywbeth y mae wedi bod yn galw amdano ochr yn ochr â sefydliadau eraill gan gynnwys Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, Chwarae Teg ac Oxfam. Byddai hyn yn gweld rôl sengl y Comisiynydd yn cael ei disodli gan banel bach o gomisiynwyr, er mwyn adlewyrchu set ehangach o brofiadau ac arbenigedd.[274]

**359.** Tynnodd Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Senedd sylw at y llythyr dyddiedig 30 Hydref gan y Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys nodyn yn nodi nifer o newidiadau cymharol fach ond defnyddiol, serch hynny, a awgrymwyd gan weithrediad y

[273] MAB12 PCS Cymru
[274] MAB07 ERS Cymru

system ac a welwyd gan y pwyllgor, ond hefyd o ganlyniad i sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd o dan ei bŵer i wneud sylwadau cyffredinol.[275]

**360.** Pan roddodd Douglas Bain dystiolaeth inni wedi hynny, rhestrodd nifer o faterion ynghylch rôl y Comisiynydd yr oedd o'r farn y gellid eu gwella. Mae'r canlynol ymhlith y rheini:

- Diwygiadau i adran 16 o Fesur 2009 a fyddai'n galluogi'r Comisiynydd i gyhoeddi enw'r Aelod a manylion cryno'r gŵyn, ond dim ond ar ôl i'r Comisiynydd benderfynu bod y gŵyn yn dderbyniadwy; neu ddileu adran 16 gyda darpariaeth yn ei lle yn y Rheolau Sefydlog.[276]

- Diwygiadau i adrannau 11 a 12 o Fesur 2009 sy'n galluogi cyflwyno hysbysiadau drwy ddulliau electronig, yn galluogi cynnal cyfweliadau o bell, ac yn galluogi'r Comisiynydd i fynnu atebion i gwestiynau ysgrifenedig neu ymholiadau.[277]

- Diwygiadau i adran 13 o Fesur 2009 sy'n galluogi gweinyddu llw i gyfieithydd.[278]

- Diwygiadau i adran 15 o Fesur 2009 sy'n creu trosedd newydd o rwystro neu ymyrryd ag ymchwiliad gan y Comisiynydd.[279]

**361.** Cawsom dystiolaeth, hefyd, gan Gymdeithas yr Iaith a nododd ei bod yn annerbyniol, ac yn groes i arfer safonol mewn cyrff cyhoeddus a'r system gyfiawnder ledled Cymru nad yw'r Comisiynydd, ar hyn o bryd, yn ddarostyngedig i unrhyw ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'n gweld y Bil, felly, fel cyfle i unioni'r mater er lles y Gymraeg yn y Senedd newydd. Dywedodd Cymdeithas yr Iaith wrthym ei bod yn argymell yn gryf y dylid diwygio'r Bil mewn dwy ffordd: drwy ddiwygio adran 20 o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Gomisiynydd allu cyfathrebu yn y Gymraeg, a thrwy ychwanegu'r Comisiynydd at y cyrff y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.[280]

---

[275] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [82] a [83]
[276] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [141] i [144]
[277] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [146] i [147]
[278] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [148]
[279] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 11 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [149]
[280] MAB17 Cymdeithas yr Iaith. Cyflwynwyd y dystiolaeth wreiddiol yn Gymraeg; paratowyd cyfieithiad cwrteisi gan Wasanaeth Cyfieithu'r Senedd

## Ein barn ni

**362.** Nodwn fod Rhan 2 o'r Bil yn rhoi mesurau ar waith i weithredu argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Safonau ac, fel y nodwyd ym Mhennod 3, rydym yn cydnabod y gefnogaeth gyffredinol i gyflwyno aelodau lleyg i system safonau'r Senedd yn ogystal â darpariaethau sy'n anelu at gryfhau pŵer y Comisiynydd Safonau.

**363.** O ran a ddylid gorfodi sefydlu Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn deddfwriaeth ai peidio, cymysg yw'r farn a gawsom.

**364.** Rydym yn cydnabod y byddai adran 18 o'r Bil yn gwneud Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd y cyntaf yn y DU i fod yn ofynnol mewn statud. Rydym yn cydnabod, yn yr un modd, y sylwadau gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau presennol, er nad yw'n argymhelliad gan y Pwyllgor hwnnw, y byddai ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor o'r fath gael ei sefydlu mewn statud yn golygu y byddai'r Senedd yn arwain y ffordd o ran safonau ymddygiad.

**365.** Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth gan y Llywydd ac eraill sy'n ein hatgoffa o'r egwyddor y dylai senedd fod yn rhydd i lywodraethu ei hun, yn dwyn perswâd. Mae'r Senedd wedi dewis gosod gofyniad am bwyllgor safonau ymddygiad yn ei Rheolau Sefydlog. Mae'r ffaith bod pob Cynulliad a Senedd, hyd yn hyn, wedi sefydlu pwyllgor o'r fath heb ysgogiad deddfwriaethol, yn dangos y statws pwysig sydd eisoes yn cael ei roi i faterion safonau gan y ddeddfwrfa yng Nghymru, a chan ei haelodau etholedig.

**366.** Nodwn farn y Cwnsler Cyffredinol, bod ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor safonau ymddygiad gael ei sefydlu mewn statud yn galluogi dyletswyddau i gael eu gosod yn uniongyrchol ar y pwyllgor hwnnw, lle ystyrir bod hynny'n hanfodol i gyflawni gweithrediad effeithiol y system newydd o adalw Aelodau o'r Senedd.

**367.** Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei hun, hefyd, fod Llywodraeth Cymru yn gryf o'r farn mai'r awdurdodau seneddol sydd i benderfynu sut mae eu pwyllgor safonau a'u mecanweithiau apelio yn gweithio.

**368.** Ar y cyfan, ymddengys nad oes angen nodi'r darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn deddfwriaeth. Rydym yn cydnabod bod angen newid deddfwriaethol i alluogi pobl nad ydynt yn Aelodau o'r Senedd i eistedd ar bwyllgor safonau ymddygiad, ac rydym yn croesawu'r Bil sy'n gwneud darpariaeth yn hyn o beth.

**Casgliad 8.** Mater i'r Senedd yw gweithdrefnau'r Senedd. Dylid gosod y cyfyngiadau lleiaf posibl mewn deddfwriaeth ar allu'r Senedd i ddylunio ei strwythurau ei hun, er mwyn cyflawni ei chyfrifoldebau.

**369.** Er ein bod, felly, yn croesawu'r ysbryd y paratowyd adran 18 ynddo gan Lywodraeth Cymru, rydym o'r farn ei bod yn rhy ragnodol a bod ganddi'r potensial i beri dryswch wrth ei darllen ochr yn ochr â gweithdrefnau presennol y Senedd, yn ogystal ag egwyddorion seneddol hirhoedlog ynghylch gweithrediad is-bwyllgorau. Gwyddom nad dyma fyddai bwriad y Llywodraeth.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn cytuno y dylai'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- Pwyllgor Safonau Ymddygiad gorfodol,
- galluogi aelodau lleyg i gael eu penodi i bwyllgorau'r Senedd sy'n ystyried materion sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau o'r Senedd;
- gwahardd y canlynol rhag cael eu penodi'n aelodau lleyg:
  - aelodau etholedig presennol a chyn-aelodau etholedig o holl seneddau a deddfwrfeydd y DU,
  - aelodau o Dŷ'r Arglwyddi,
  - aelodau etholedig presennol a chyn-aelodau etholedig cynghorau cymuned, sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru,
  - comisiynwyr heddlu a throseddu presennol a chyn-gomisiynwyr ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru, a hefyd
  - personau sy'n dal y swyddi anghymhwyso yn ail golofn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1A i Ddeddf 2006 (ac eithrio'r swyddi barnwrol);

ac o ganlyniad, nid ydym yn ystyried bod angen unrhyw ddarpariaeth arall sydd yn adran 18 ar hyn o bryd, a dylid diwygio'r Bil yn unol â hynny.

**Casgliad 9.** Yn unol ag argymhelliad 8, ar sail y dystiolaeth a glywsom, tra ein bod o'r farn o ran y canlynol:

- dylai fod gan y Senedd broses apelio wedi'i hymgorffori yn ei system safonau,

- dylai aelodau lleyg sy'n eistedd ar bwyllgor safonau ymddygiad gael hawliau pleidleisio (ac eithrio mewn perthynas â chraffu ar Filiau),
- ni ddylai cyfanswm y nifer o aelodau lleyg sy'n eistedd ar bwyllgor safonau ymddygiad fod yn fwy na nifer yr Aelodau etholedig o'r Senedd ar y pwyllgor hwnnw,
- dylid penodi aelodau lleyg am gyfnod o bum mlynedd ar y mwyaf, a dim ond unwaith y dylid adnewyddu penodiad,
- dylai'r Senedd, wrth benodi aelodau lleyg yn y lle cyntaf, ystyried tymhorau o wahanol hyd, fel nad yw pob penodiad yn dod i ben ar yr un pryd,
- dylai'r Senedd, wrth benodi aelodau lleyg, ystyried sgiliau Cymraeg y darpar benodeion er mwyn sicrhau lefel ofynnol o ran sgiliau ymhlith yr aelodau lleyg, a hefyd
- ni ddylid dewis Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o'r un blaid â'r blaid sydd mewn llywodraeth na'r blaid fwyaf a gynrychiolir yn y Senedd,

dylai'r Senedd benderfynu ar y materion hyn a darparu ar eu cyfer yn ei Rheolau Sefydlog.

**370.** Yn olaf, o ran aelodau lleyg, nodwn fod teitl hir y Bil yn dweud mai un o'i ddibenion yw "i'w gwneud yn ofynnol bod Pwyllgor Safonau Ymddygiad o'r Senedd yn bodoli sy'n cynnwys aelodau nad ydynt yn Aelodau o'r Senedd". Fodd bynnag, o ystyried y bydd penodi aelodau lleyg yn ôl disgresiwn y Senedd, nid yw hyn yn adlewyrchu effaith wirioneddol y Bil. Nodwn fod y Cwnsler Cyffredinol yn cytuno â ni, ac rydym yn croesawu ei hymrwymiad i gyflwyno'r gwelliant gofynnol i sicrhau bod y teitl hir yn adlewyrchu'r hyn a ddarperir yn ddieithriad ar ei gyfer yn y Bil.

**371.** O ran y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â Chomisiynydd Safonau y Senedd, mae darpariaethau'r Bil i ymestyn pwerau'r Comisiynydd Safonau i gychwyn ymchwiliadau heb gael cwyn, wedi cael cefnogaeth eang.

**Casgliad 10.** Rydym yn cytuno â'r dystiolaeth a glywsom, sef bod gan alluogi'r Comisiynydd Safonau i gychwyn ymchwiliadau y potensial i wella'r system safonau, ac felly rydym yn fodlon ag adran 19.

**372.** O ran adran 20 o'r Bil a'r newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y rheini y gellir eu penodi'n Gomisiynwyr, nodwn fod y newidiadau hyn yn

adlewyrchu materion a godwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn gohebiaeth at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Gyflawni ym mis Mai 2025.

**Casgliad 11.** Rydym yn cydnabod bod adran 20 o'r Bil yn diwygio Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 drwy ychwanegu dau gategori o bersonau nad ydynt yn gymwys i gael eu penodi'n Gomisiynydd Safonau y Senedd, ac rydym yn fodlon, yn amodol ar ein barn a nodir yn yr argymhelliad 9.

**Argymhelliad 9.** Dylid diwygio'r Bil fel bod y bobl ganlynol wedi'u hanghymhwyso rhag cael eu penodi'n Gomisiynydd Safonau y Senedd:

- aelodau etholedig presennol a chyn-aelodau etholedig o holl seneddau a deddfwrfeydd y DU,
- aelodau o Dŷ'r Arglwyddi,
- aelodau etholedig presennol a chyn-aelodau etholedig cynghorau cymuned, sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru,
- comisiynwyr heddlu a throseddu presennol a chyn-gomisiynwyr ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru, a hefyd
- personau eraill sy'n dal y swyddi anghymhwyso yn ail golofn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1A i Ddeddf 2006 (ac eithrio'r swyddi barnwrol).

**373.** Clywsom dystiolaeth, hefyd, am nifer o faterion eraill ynghylch rôl y Comisiynydd Safonau, gan gynnwys gwelliannau y gellid eu gwneud i adran 16 o Fesur 2009 a fyddai'n galluogi'r Comisiynydd i gyhoeddi enw'r Aelod o'r Senedd a manylion byr am y gŵyn ar ôl i'r Comisiynydd benderfynu bod y gŵyn yn dderbyniadwy, yn ogystal â gwelliannau i adran 13 o Fesur 2009 sy'n galluogi cyfieithydd i weinyddu'r llw. Rydym yn tynnu sylw'r Senedd at y materion hyn.

**374.** O ran hwyluso defnydd y Gymraeg yn well yn ein system safonau, rydym yn cydnabod y dystiolaeth gan Gymdeithas yr Iaith ac yn cytuno y mai cam cadarnhaol ymlaen fyddai gweld Swyddfa'r Comisiynydd Safonau yn dod yn ddarostyngedig i Safonau'r Iaith.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddiwygio *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* i gynnwys Comisiynydd Safonau'r Senedd yn y rhestr o gyrff cyhoeddus a restrir yn Atodlen 6 i'r Mesur. Nodwn y gellid cyflawni gwelliant o'r fath i Atodlen 6 naill ai drwy gynnwys darpariaeth ar wyneb y Bil neu drwy gyflwyno gorchymyn o dan adran 35 o'r Mesur. Yn yr un modd, dylai'r Cwnsler Cyffredinol hefyd gynnwys

Comisiynydd Safonau'r Senedd mewn set o reoliadau Safonau Cymraeg perthnasol. Nodwn y gellir gwneud hyn naill ai drwy gynnwys darpariaeth ar wyneb y Bil neu drwy reoliadau a wneir drwy ddefnyddio pwerau o dan y Mesur. Os na chaiff y newidiadau hyn eu cynnwys ar wyneb y Bil, dylid cyflwyno'r offerynnau statudol priodol cyn gynted â phosibl.

# 6. Rhan 3 o'r Bil: Rhedeg etholiadau Senedd Cymru

Mae Rhan 3 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy orchymyn o dan adran 13 o Ddeddf 2006 ynglŷn â rhedeg etholiadau'r Senedd.

**375.** Pwrpas y darpariaethau hyn yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth i wahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau o ffeithiau anwir neu gamarweiniol cyn neu yn ystod etholiad at ddibenion effeithio ar ethol unrhyw ymgeisydd.

**376.** Daw darpariaethau yn Rhan 3 o'r Bil i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau ar y diwrnod mae'r Ddeddf yn cael Cydsyniad Brenhinol.

## Cefndir

**377.** Mae adran 13 o Ddeddf 2006 yn darparu pŵer eang i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch etholiadau'r Senedd. Mae hyn yn cynnwys gwneud darpariaeth ynglŷn â rhedeg etholiadau, cwestiynu etholiad aelod a chanlyniadau afreoleidd-dra, ac ethol aelod heblaw mewn etholiad.

**378.** Ym mis Gorffennaf 2025, gwnaeth Gweinidogion Cymru Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (y Gorchymyn Cynnal Etholiadau), sy'n cynnwys llawer o fanylion am gynnal etholiadau'r Senedd, gan gynnwys darpariaeth ynghylch rheoleiddio ymddygiad ymgeiswyr mewn etholiadau. Mae hyn yn cynnwys rheoleiddio datganiadau anwir mewn papurau enwebu, rheolaethau ar roddion a threuliau, rheolau ar anfon cyfathrebiadau etholiadol, rheolau ar lwgrwobrwyo, tretio a dylanwad amhriodol ar bleidleiswyr a gwahardd datganiadau o ffeithiau anwir mewn perthynas â chymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd (gweler blwch 9). Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau wedi cydgrynhoi ac ail-wneud gorchmynion cynnal etholiadau blaenorol o'r fath yn ddwyieithog am y tro cyntaf, gan ystyried y newidiadau a wnaed gan Ddeddf 2024 a Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

***Blwch 9***

Erthygl 75 o'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau

Mae erthygl 75 o'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau eisoes yn ei gwneud yn drosedd i unrhyw un wneud neu gyhoeddi "unrhyw ddatganiad ffeithiol anwir mewn perthynas â chymeriad personol neu ymddygiad unrhyw ymgeisydd" cyn neu yn ystod etholiad i'r Senedd "er mwyn effeithio ar sut y rhoddir pleidlais yn yr etholiad". Ni fyddai rhywun yn euog o drosedd os oes modd iddo ddangos bod ganddo "sail resymol dros gredu, a'i fod wedi credu, fod y datganiad yn wir."

Roedd y drosedd hon wedi'i chynnwys yn wreiddiol yn adran 106 o *Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983* (Deddf 1983).

**379.** Yn yr adroddiad ar ddichell fwriadol, argymhellodd mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor Safonau y canlynol:

> ***Argymhelliad 1****: Dylai Llywodraeth Cymru ddiffinio dichell fwriadol yn glir mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud ag etholiadau'r Senedd; a'i fod yn cael ei ailadrodd mewn unrhyw Reolau Sefydlog a chanllawiau cysylltiedig, ac yn y Cod Ymddygiad yn ymwneud ag Aelodau.*
>
> ***Argymhelliad 3:*** *Dylai Llywodraeth Cymru yn ystyried ehangu [erthygl] 75 o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 i'w gwneud yn drosedd i ymgeisydd neu unrhyw asiant etholiadol wneud neu gyhoeddi datganiadau/gwybodaeth sy'n camarwain drwy ddichell fwriadol at ddibenion effeithio ar sut y rhoddir pleidlais mewn etholiad*
>
> ***Argymhelliad 4:*** *Dylid diwygio adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i nodi y caiff unrhyw Orchymyn Cynnal Etholiadau a wneir o dan adran 13 gynnwys darpariaeth ar gyfer dichell fwriadol*

**380.** Daeth y Pwyllgor Safonau hefyd i'r casgliad:

> ***Casgliad 2:*** *Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor o waith, sy'n ymestyn y tu hwnt i etholiad 2026, sy'n adeiladu ar y corff o dystiolaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i gasglu i archwilio'r materion cymhleth sy'n ymwneud â rheoleiddio dichell wleidyddol yn*

*fanylach, gan gynnwys ystyried defnyddio panel arbenigol i asesu'r dystiolaeth a'r goblygiadau.*

**381.** Yn ei ymateb, derbyniodd y Cwnsler Cyffredinol mewn egwyddor argymhelliad y Pwyllgor Safonau y dylid diwygio'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau. Nododd y Cwnsler Cyffredinol nad oedd Llywodraeth Cymru o'r farn y gellid ehangu'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Safonau ond y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn datblygu trosedd arfaethedig yn unol â'r argymhelliad. Ychwanegodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai angen ymgynghori ymhellach ar unrhyw drosedd ac felly ni fyddai'n ymarferol ei gynnwys yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau terfynol ar gyfer etholiad 2026.[281]

## Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau etc. y Senedd

**382.** Mae adran 22(3) o'r Bil yn mewnosod is-adrannau (2A) a (2B) newydd yn adran 13 o Ddeddf 2006. Mae is-adran newydd (2A) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau o ffaith anwir neu gamarweiniol cyn neu yn ystod etholiad at ddibenion effeithio ar ethol unrhyw ymgeisydd. Mae is-adran newydd (2B) yn nodi y gall hyn gynnwys darpariaeth:

- ynglŷn â'r hyn sy'n "ddatganiad o ffaith" ai peidio;
- gwahardd datganiadau anwir yn unig neu ddatganiadau sy'n anwir ac yn gamarweiniol;
- pennu'r cyfnod mae unrhyw waharddiad mewn grym;
- gwahardd datganiadau o ffaith anwir neu gamarweiniol sy'n ymwneud â materion a bennir yn y Gorchymyn neu faterion yn gyffredinol;
- gwahardd datganiadau o ffaith anwir neu gamarweiniol a wneir neu a gyhoeddir gan bersonau neu gategorïau o berson a bennir yn y Gorchymyn neu unrhyw berson;
- gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau anwir neu gamarweiniol bwriadol neu ddi-hid;

[281] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, Mawrth 2025

- pennu esemtiadau neu eithriadau i unrhyw waharddiad.

**383.** Nodwn fod is-adran newydd (2A) yn cyfeirio at wneud neu gyhoeddi datganiadau ffaith anwir **neu** gamarweiniol, fodd bynnag mae is-adran newydd (2B) yn cyfeirio at wahardd datganiadau anwir yn unig neu ddatganiadau anwir **a** chamarweiniol. (Pwyslais wedi'i ychwanegu gennym.) At ddiben yr adroddiad hwn, byddwn yn cyfeirio at y derminoleg a ddefnyddir yn is-adran (2A).

**384.** Mae adran 22(4) o'r Bil yn mewnosod is-adran newydd (4A) yn adran 13 o Ddeddf 2006 i egluro y gall gorchymyn o dan yr adran hon roi pŵer neu ddyletswydd i unrhyw berson (gan gynnwys pŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth) a chreu troseddau.

**385.** Cyn arfer y pŵer yn adran 13 o Ddeddf 2006, fel y'i diwygiwyd gan adran 22, mae adran 7 o Ddeddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol.

**386.** Yn y Datganiad o Fwriad Polisi sy'n cyd-fynd â'r Bil, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn datgan bod "creu trosedd bosibl mewn cysylltiad â dichell fwriadol gan ymgeiswyr yn gynnig newydd".[282] Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn ychwanegu nad yw Llywodraeth Cymru wedi cael amser i ymgysylltu'n gynhwysfawr â'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron na'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac felly nid yw wedi bod yn bosibl yn ei barn i "ymgymryd â'r ymgysylltiad angenrheidiol wrth ddatblygu trosedd ar hyn o bryd".[283]

## Cyflwyno trosedd newydd drwy is-ddeddfwriaeth

**387.** Byddai'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno trosedd newydd drwy is-ddeddfwriaeth.

**388.** Yn ei Datganiad Sefyllfa, dywedodd Cymdeithas y Bar Troseddol (CBA):

> *"… the creation of a criminal offence prohibiting the making or publishing of false/misleading statements of fact, before or during an election for the purpose of affecting the return of any candidate, is properly a matter for primary not secondary legislation."*[284]

[282] Datganiad o Fwriad y Polisi, tudalen 6
[283] Datganiad o Fwriad y Polisi, tudalen 6
[284] MAB18 Jonathan Elystan Rees CB ac Alexander Greenwood

**389.** Ymhelaethodd Jonathan Elystan Rees KC ar hyn mewn tystiolaeth lafar ac, o ystyried mater difrifol cynhenid honiadau o ymyrryd yn fwriadol â chanlyniad etholiad trwy ddefnyddio datganiadau neu gynrychioliadau anwir, dywedodd:

> *"… it is something that ordinarily we would suggest ought to be dealt with by way of primary legislation, with the accompanying scrutiny that is due to primary legislation, rather than being a matter for Welsh Ministers to create by way of regulation. Obviously, I understand that there is a degree of scrutiny that is required in the making of secondary legislation, but to mark the importance of such a serious alleged offence, it ought to be dealt with, we would suggest, by an Act of the Senedd."*[285]

**390.** Ehangodd Alexander Greenwood ymhellach, gan egluro bod angen ymgynghori sylweddol ynghylch goblygiadau'r hyn sy'n cael ei gynnig mewn gwirionedd.[286]

**391.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Thomas o Gwmgiedd:

> *"In Westminster there would be a very strong view that this should be done in primary legislation."*

**392.** O ran dymunoldeb creu trosedd o'r fath, aeth yr Arglwydd Thomas ymlaen i ddweud:

> *"It is not easy to debate the desirability of creating an offence going well beyond current UK electoral law without the detailed provisions of the offence being clear. In particular, it is important to be able to see how it is thought that in contradistinction to statements about personal character statements about facts of a more general nature are to be brought within the scope of the criminal law."*[287]

**393.** Mae'r Athro Horder a Transparency International UK yn nodi risgiau anfwriadol i ryddid barn o unrhyw waharddiad y maent yn dweud y dylid ei ystyried. Mae Transparency International UK yn mynegi pryder y gallai cwynion

[285] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [130]
[286] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [151]
[287] MAB19 Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd

beryglu defnydd maleisus tebyg i Ymgyfreitha Strategol yn erbyn Cyfranogiad Cyhoeddus (SLAPPs).[288] Rhybuddiodd yr Athro Horder:

> *"… there is a significant risk that an over-broad false statement law will have an unduly chilling effect on the speech of conscientious people and media outlets fearful of transgressing the law, whilst failing to do much to deter those who see in the use of such laws against them an opportunity to gain public prominence and possibly political martyrdom."*[289]

**394.** Holwyd y Cwnsler Cyffredinol ymhellach ynghylch pam yr oedd hi'n bwriadu cyflwyno'r drosedd mewn is-ddeddfwriaeth heb gynnal unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus. Atebodd fel a ganlyn: "*Well, because we were asked to is the answer to the question*". Aeth ymlaen i ddweud bod gorchmynion cynnal etholiadau yn ddarnau cymhleth o ddeddfwriaeth, ddweud:

> *"… although in theory they're secondary legislation, they're as complex as any piece of primary legislation that we do. So, it would be appropriate for it to be included in the conduct Order, it seems to me."*[290]

## Cwmpas y darpariaethau yn adran 22

**395.** Yn ogystal â phryderon ynghylch defnyddio is-ddeddfwriaeth i gyflwyno trosedd newydd ar wneud neu gyhoeddi datganiadau anwir neu gamarweiniol yn ystod etholiad, clywsom dystiolaeth hefyd am faint y pwerau a fyddai'n cael eu darparu i Weinidogion Cymru yn adran 22 o'r Bil a phryderon ynghylch y diffyg manylion ynghylch sut y gellid arfer y pwerau hynny ar yr wyneb.

**396.** Nid yw'r Bil yn nodi manylion ynghylch cynnwys unrhyw orchymyn a fyddai'n cael ei wneud o dan adran 13 o Ddeddf 2006 i wahardd gwneud datganiadau anwir neu gamarweiniol. Felly nid yw'n cynnwys gwybodaeth ar wyneb y Bil fel:

- diffiniadau o dermau allweddol megis beth sy'n ddatganiad o ffaith ai peidio na'r diffiniad o wneud neu gyhoeddi;
- pa gyfnod amser y byddai unrhyw waharddiad yn ei gwmpasu a'r cyfnod amser ar gyfer gwneud cwyn;

[288] MAB11 Transparency International UK
[289] MAB01 Yr Athro Jeremy Horder
[290] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [112]

- yr amserlen y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno Gorchymyn o'i mewn;
- i ba berson, neu i ba gategorïau o bersonau, y bydd y drosedd yn berthnasol (er enghraifft, ymgeiswyr a'u hasiantau, ymgyrchydd cofrestredig neu bawb);
- y materion a fyddai'n cael eu cynnwys, pe byddent yn gyfyngedig i faterion penodol yn unig neu faterion yn gyffredinol;
- a fyddai angen i'r rhai sy'n gwneud datganiadau anwir neu ddatganiadau anwir a chamarweiniol wneud hynny 'yn fwriadol' neu'n 'ddi-hid'.

**397.** Byddai gorchymyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. Byddai'n ofynnol i unrhyw Weinidog Cymru yn y dyfodol a fyddai'n defnyddio'r pwerau a ddarperir yn y Bil ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ond ni fyddai'n ofynnol iddynt ymgynghori ag unrhyw un arall. Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi amlinellu ei barn y dylid cynnal ymgynghoriad ond mae'n cydnabod, y tu hwnt i'r Comisiwn Etholiadol, na fyddai hyn yn ofyniad statudol.[291]

**398.** Mynegodd Transparency International UK yr un pryder ynghylch y diffyg manylion ar wyneb y Bil ynghylch cwmpas a chymhwysiad y drosedd newydd. Mae'n galw am ddiwygio adran 13 o Ddeddf 2006 i nodi bod gorchymyn a wneir i wahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau anwir neu gamarweiniol yn destun cyfnod ymgynghori a chraffu estynedig, sy'n cael ei brofi gyda'r cyhoedd.[292]

**399.** Rhybuddiodd y Comisiwn Etholiadol yn erbyn y pŵer yn adran 22 o'r Bil, gan ddatgan yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

> *"Byddai creu gwaharddiad newydd a throseddau yn gysylltiedig â gwneud neu gyhoeddi datganiadau ffug o ffaith yn bolisi newydd arwyddocaol ar gyfer etholiadau Cymru (ac ar gyfer etholiadau mewn mannau eraill yn y DU). O wybod yr ystyriaethau polisi sensitif a chymhleth a godir gan gyfyngiadau ar anerchiadau gwleidyddol … efallai y bydd angen ystyried yn ofalus y cydbwysedd rhwng yr hyn a bennir mewn*

[291] Y Cyfarfod Llawn, 4 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [155]
[292] MAB11 Transparency International UK

> *deddfwriaeth sylfaenol a'r hyn y gellir ei bennu'n fwy priodol mewn rheoliadau."*[293]

**400.** Yn ei dystiolaeth, mae'r Arglwydd Thomas yn awgrymu, o ystyried y diffyg manylion ar wyneb y Bil, y gallai fod yn ddoeth i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gorchymyn drafft cyn i'r Senedd gytuno ar y Bil a fyddai'n nodi rhagor o fanylion am gwmpas trosedd i'w gynnwys yn y Gorchymyn:

> *"[It] seems to me therefore it would be prudent to draft in detail the elements of the offence to be set out in the subordinate legislation now, so that a view can be taken of the desirability of proceeding further with this part of the legislation. I assume that this must have been done as part of the process of drafting the detailed power contained in the Bill."*[294]

**401.** Mynegodd yr Athro Jeremy Horder bryder ynghylch y canlyniadau anfwriadol o gynnwys dyletswydd i wneud gorchymyn ynghylch elfen benodol o ymddygiad mewn etholiad o fewn adran sydd fel arall yn ganiataol. Awgrymodd fod y gofyniad ar Weinidogion Cymru yn y Bil i wahardd datganiadau anwir neu ddatganiadau anwir a chamarweiniol yn groes i gymeriad caniataol Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru sydd yn gyffredinol yn grymuso Gweinidogion i gymryd camau gweithredu ar gynnal etholiadau ond nad yw'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd camau penodol.

**402.** Mewn byd delfrydol, dywed yr Athro Horder y byddai'r Bil yn grymuso Gweinidogion Cymru i gymryd camau o'r fath sy'n rhesymol a chymesur i annog ac atal gwneud neu gyhoeddi datganiadau anwir neu gamarweiniol.[295]

**403.** Mae Transparency International UK yn tynnu sylw'n benodol at y defnydd o'r gair 'rhaid' yn is-adran newydd (2A)[296], y mae'n credu sy'n peryglu rhwymo llywodraeth a senedd yn y dyfodol.

**404.** Fodd bynnag, yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn datgan:

> *"Ystyrir mai dyletswydd, yn hytrach na phŵer disgresiwn, sy'n briodol oherwydd hynt y Bil ar ddiwedd tymor y Senedd a fydd*

[293] MAB07 ERS Cymru
[294] MAB19 Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd
[295] MAB01 Yr Athro Jeremy Horder
[296] MAB11 Transparency International UK

> *yn ceisio sicrhau y caiff darpariaethau o'r fath eu cynnwys mewn Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn y dyfodol."*[297]

## Diffiniadau

**405.** Nid yw termau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn adran 22 o'r Bil wedi'u diffinio ar ei wyneb.

**406.** Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn datgan nad yw wedi bod yn bosibl cynnal ymgynghoriad oherwydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Bil cyn 2026. Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod y Pwyllgor Safonau wedi cynnal ymgynghoriad fel rhan o'r ymchwiliad i ddichell fwriadol y gofynnwyd iddo ei gynnal gan Lywodraeth Cymru.[298]

**407.** Fodd bynnag, yn ei adroddiad ar ddichell fwriadol, nododd y Pwyllgor Safonau ei farn ar bwysigrwydd cynnwys diffiniadau clir mewn unrhyw ddeddfwriaeth. Dywedodd:

> *"Y consensws cyffredinol ymhlith y rhai a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yw bod diffiniad clir yn hanfodol fel ffon fesur ar gyfer mesur a yw datganiad yn fater o ffaith neu'n farn, ac a gafodd ei ddweud yn fwriadol neu'n ddi-hid heb ystyried a yw'n wir neu beidio."*[299]

**408.** Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Safonau, galwodd y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman am eglurder llwyr yn y ddeddfwriaeth.[300]

**409.** Roedd Argymhelliad 1 o adroddiad y Pwyllgor Safonau ar ddichell fwriadol yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiffinio dichell fwriadol yn glir mewn deddfwriaeth yn ymwneud ag etholiadau'r Senedd.[301] Dywedodd y dylid atgynhyrchu'r diffiniad hwn mewn unrhyw ganllawiau a Rheolau Sefydlog ar ymddygiad aelodau er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y driniaeth o ymgeiswyr ac aelodau.

**410.** Yn ei dystiolaeth i ni, mynegodd Transparency International UK bryder ynghylch y canlynol:

---

[297] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3
[298] Memorandwm Esboniadol, paragraff 133
[299] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, paragraff 187
[300] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, paragraff 43
[301] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, argymhelliad 1

> *"… we are concerned that Part 3 would place power with Welsh Ministers to introduce a wide range of possible provisions under secondary legislation without full understanding of the implications of these provisions.*
>
> *This does not provide any clarity as to what might be an offence under this section, what the sanctions might be, or how accountability will be provided. If this were to go ahead, the detail would be of utmost importance in order to achieve the intended objective of improving public trust in politicians. We would suggest this detail should not be something that could be decided in secondary legislation and should instead be open to a wide consultation and tested with the public."*[302]

**411.** Awgrymodd Syr Paul Silk a Paul Evans yn eu tystiolaeth ysgrifenedig fod angen eglurder gan Weinidogion Cymru ynghylch sut y bydd y pŵer i benderfynu beth sy'n ddatganiad o ffaith ai peidio yn cael ei ddefnyddio.[303]

**412.** Awgrymodd Elkan Abrahamson, o ystyried bod ymgynghori pellach i ddigwydd, efallai na fydd angen diffinio 'datganiad o ffaith'. Dywedodd hefyd nad yw'r Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd)[304] yn diffinio'r termau anwir neu gamarweiniol. Fodd bynnag, mae'n rhagweld y bydd corff o sylwadau ac yn y pen draw cyfraith achosion yn datblygu o amgylch y ddeddfwriaeth honno (os a phan gaiff ei deddfu) a gallai hyn helpu Gweinidogion Cymru yn eu trafodaethau yn y dyfodol.[305]

**413.** Mae'r Athro Horder yn gwneud pwynt cysylltiedig, gan ddadlau bod 'datganiad o ffaith' ("statement of fact") yn ymadrodd cyffredin yn Saesneg ac felly nid oes angen ei ddiffinio yn y gyfraith. Dywedodd y canlynol wrthym:

> *"However, it would be helpful, being mindful of obligations to respect free speech, to make it clear that a statement of opinion is not to be regarded as a statement of fact, even when – as is commonly the case – the opinion relies on underlying factual assumptions."*[306]

[302] MAB11 Transparency International UK
[303] MAB10 Paul Evans a Syr Paul Silk
[304] Y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd)
[305] MAB16 Elkan Abrahamson
[306] MAB01 Yr Athro Jeremy Horder

**414.** Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, mae'r Comisiwn Etholiadol yn dweud, er bod manylion cyfyngedig yn y Bil a'r nodiadau esboniadol drafft ynghylch sut y byddai gwaharddiad yn cael ei ddiffinio neu ei orfodi, mae gwersi cyffredinol wedi'u nodi mewn ymchwil am waharddiadau tebyg mewn democratiaethau cymharol eraill. Ychwanegodd mai un o'r gwersi cyffredinol a nodwyd mewn ymchwil yw:

> *"I sicrhau y gwarchodir dadl gyfreithlon ac nad yw'n cael ei chyfyngu'n ormodol, dylai deddfwriaeth nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng datganiadau derbyniol ac annerbyniol, fel bod camau gorfodi yn canolbwyntio ar y datganiadau ffug mwyaf arwyddocaol."*[307]

**415.** Galwodd yr Athro Horder am eglurder ar ddiffiniadau datganiadau 'gwneud' a 'chyhoeddi'. Holodd a fyddent yn cynnwys anfon ymlaen neu gopïo a gludo datganiad, a negeseuon mewn sgwrs breifat neu grwpiau ar-lein.[308]

**416.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, mynegodd y Cwnsler Cyffredinol ei barn nad yw bob amser yn glir beth yw datganiad barn neu ddatganiad o ffaith, a dywedodd fod y materion a gwmpesir gan y Bil yn gymhleth.[309]

**417.** Gofynnwyd a fyddai'r Senedd, yn absenoldeb enghreifftiau penodol yn y Bil, yn creu deddfwriaeth na fyddai o bosibl yn gallu cael ei defnyddio. Wrth ymateb, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"I think it is about the principle of it. So, the principle is that a politician seeking election shouldn't deliberately deceive the public. That's the principle, isn't it? And, okay, I can't come up with one right now, but that doesn't mean that they don't exist. I think the principle is an important principle that we would all agree with, wouldn't we? Nobody's going to disagree that a politician shouldn't be allowed to deliberately deceive the electorate. I would be very surprised to find somebody who disagrees with that statement. So, I think, Sam, it is a point of principle rather than a specific that we're establishing, and it's*

[307] MAB15 Y Comisiwn Etholiadol
[308] MAB01 Yr Athro Jeremy Horder
[309] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [157]

> *why I think the piece of work that actually defines the offence itself should be undertaken by the next Senedd."*[310]

## Cynnwys datganiadau camarweiniol

**418.** O ran y posibilrwydd o gynnwys datganiadau o ffaith camarweiniol, mynegodd yr Athro Horder bryder ynghylch yr anhawster o benderfynu a yw datganiad yn gamarweiniol ai peidio:

> *"Any extension in the Bill that criminalises misleading – as well as false - statements about candidates themselves (or their politics) will enter into new and difficult territory, not least because whether a statement is adjudged to be 'misleading' necessarily involves a value judgement and not just empirical evidence, in relation to what may be highly contested issues."*[311]

**419.** Mae'r Athro Horder yn dadlau y dylai troseddoli ganolbwyntio ar ddatganiadau gwybodus (yn achos datganiadau camarweiniol) neu ddatganiadau bwriadol/di-hid (yn achos datganiadau anwir) sydd â'r bwriad o effeithio ar ganlyniadau etholiadau neu refferenda.[312]

**420.** Pwysleisiodd Crynwyr Cymru hefyd bwysigrwydd sicrhau bod elfennau datganiadau anwir neu gamarweiniol sy'n cael eu gwneud yn ddi-hid neu'n fwriadol wedi'u cynnwys mewn unrhyw waharddiad.[313]

**421.** Fodd bynnag, dywedodd Elkan Abrahamson y dylid cynnwys datganiadau camarweiniol gan fod ganddynt yr un effaith â datganiadau anwir, ond y dylai fod wedi gorfod cael eu gwneud yn fwriadol neu'n ddi-hid. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"It is important that candidates appreciate they cannot avoid liability by simply reposting social media entries, they must take responsibility for checking the veracity of any statements before circulating them."*[314]

**422.** Ar y pwynt hwn, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym am bwysigrwydd cynnwys 'bwriadol' ochr yn ochr ag unrhyw ddiffiniad o drosedd a gyflwynir o dan y Gorchymyn Cynnal Etholiadau. Er ei bod yn cydnabod ei bod hi'n anodd iawn

---

[310] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [152]
[311] MAB01 Yr Athro Jeremy Horder
[312] MAB01 Yr Athro Jeremy Horder
[313] MAB05 Crynwyr Cymru
[314] MAB16 Elkan Abrahamson

dod o hyd i enghreifftiau ohono, awgrymodd y Cwnsler Cyffredinol, wrth rannu neu ail-bostio gwybodaeth, y dylai pobl fod yn ymwybodol bod yr hyn maen nhw'n ei ailadrodd yn wir ac nad yw'n seiliedig ar anwiredd.[315]

**423.** Yn ei dystiolaeth, tynnodd Elkan Abrahamson sylw hefyd at y gwrth-ddweud ynghylch yr hyn y gellid darparu ar ei gyfer mewn gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf 2006 fel y'i diwygiwyd gan adran 22 o'r Bil. Mae is-adran newydd (2A) yn dweud bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn yn gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau anwir neu gamarweiniol ond mae is-adran newydd (2B)(b) yn dweud y gall darpariaeth sy'n ofynnol gan (2A) gynnwys gwahardd datganiadau anwir neu ddatganiadau anwir a chamarweiniol.[316]

## Ymgynghoriad ar Orchymyn

**424.** Fel y nodwyd uchod, nid oes gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori ar orchymyn a wneir gan ddefnyddio'r pwerau yn y Bil hwn. Mae tystiolaeth i'r Pwyllgor wedi mynegi pryder am hyn, ac felly gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol am hyn.

**425.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym, o ystyried natur dechnegol y Gorchymyn Cynnal Etholiadau, fod ymgynghori ar ei gynnwys fel arfer yn cael ei wneud gyda'r awdurdodau sy'n cynnal etholiadau. Pan ofynnwyd iddi a oedd yn fwriad ganddi gynnal ymgynghoriad cyhoeddus, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"… it's an interesting combination of a technical piece of work that does have quite an effect on the way the public exercises its democratic right. So, you could take the view that public consultation is appropriate. I don't think it's a particularly accessible piece of work, so you'd have to do some work around it if you were going to do some consultation."*

**426.** Ymhelaethodd ymhellach ar y pwynt hwn, gan ddweud:

> *"I have absolutely no objection at all to doing a public consultation on it as well. I think you would probably have to explain in a little more detail what you were consulting on and why. But that's not hard to do."*[317]

---

[315] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [149] a [150]
[316] MAB16 Elkan Abrahamson
[317] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [164]

## Gorfodadwyedd

**427.** Gofynnwyd i Gymdeithas y Bar Troseddol am yr anawsterau posibl o ran gorfodi gwaharddiad ar ddatganiadau anwir neu gamarweiniol yn unol â'r hyn sydd yn y Bil ar hyn o bryd. Dywedodd Alexander Greenwood:

> *"The evidential considerations are difficult, the investigation phase. But they should be, should they not, because these are serious allegations, and in order to make them you need concrete evidence."*

**428.** Ymhelaethodd ymhellach, gan ddweud:

> *"... the period of time during which investigations could take place may be lengthy, but that doesn't mean to say that the state should not hold these matters in extremely high regard and demonstrate that through, perhaps, the use of the criminal law."*[318]

**429.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, tynnodd y Comisiwn Etholiadol ein sylw at wersi allweddol a nodwyd gan ddemocratiaethau cymharol fras sy'n nodi y dylid "ystyried cwynion a'u datrys yn gyflym, gyda chamau cywiro effeithiol y mae modd eu defnyddio a'u rhoi mewn grym yn ymarferol".[319]

**430.** Mewn tystiolaeth lafar, ymhelaethodd Tom Hawthorn o'r Comisiwn Etholiadol ymhellach ar hyn a phwysleisiodd yr angen am eglurder go iawn ynghylch y mathau o ddatganiadau a fydd yn cael eu cynnwys, er mwyn sicrhau bod gwahaniaeth rhwng datganiadau derbyniol ac annerbyniol. Galwodd am y canlynol:

> *"... a mechanism that would allow complaints to be resolved quickly, so that voters and campaigners have certainty and confidence while the election is taking place and before the conclusion of the election, and also to make sure that whichever body is responsible for enforcing that prohibition has the confidence and impartiality to be able to deliver that process. So, I think it's about making sure that the provisions will support confidence and will be workable in practice."*[320]

---

[318] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [190] a [191]
[319] MAB15 Y Comisiwn Etholiadol
[320] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 18 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [113]

**431.** Ar fater datrys problemau mewn modd amserol, dywedodd yr Athro Horder:

> *"… it is typically much easier to deal swiftly and immediately with a false claim by countering it publicly online and in the media, than it is to take action though the police/courts. That matters, in what is commonly a fast-moving information environment at election (or referendum) time."*[321]

**432.** Tynnodd Transparency International UK ein sylw hefyd at yr anawsterau posibl o orfodi gwaharddiad o'r fath, gan awgrymu na fyddai'n llwyddo i wella ymddiriedaeth mewn gwleidyddion. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"Introducing an offence that would be hard to prove and difficult to prosecute risks simply adding another mechanism where the public see no accountability for the perceived or alleged offence."*[322]

## Amserlen ar gyfer cyflwyno Gorchymyn

**433.** Fel y nodwyd uchod, mae adran 13 o Ddeddf 2006 yn darparu pŵer eang i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch etholiadau'r Senedd drwy orchymyn. Fel y'i drafftiwyd, mae'r pŵer hwn yn ganiataol ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau ynghylch cynnal etholiad ar nifer o faterion ond nid yw'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny. Nid oes gofyniad ychwaith i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn ynghylch cynnal etholiadau cyn pob etholiad.

**434.** Nodwn uchod fod Rhan 3 o'r Bil yn diwygio adran 13 o Ddeddf 2006 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn yn gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiad o ffaith anwir neu ddatganiad o ffaith anwir a chamarweiniol cyn neu yn ystod etholiad; fodd bynnag, nid oes amserlen wedi'i gosod ar y ddyletswydd hon.

**435.** Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai'n rhaid cyflawni'r ddyletswydd i gyflwyno Gorchymyn erbyn yr etholiad nesaf. Fodd bynnag, nid yw hynny'n wir yn y Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd. Mewn llythyr dilynol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, eglurodd y Cwnsler Cyffredinol y pwynt hwn, gan ddatgan:

---

[321] MAB01 Yr Athro Jeremy Horder
[322] MAB11 Transparency International UK

> *"Unwaith y bydd is-adran newydd 13(2A) wedi'i deddfu ac wedi dod i rym, a fydd ar ôl etholiad 2026, bydd Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd. Er nad oes terfyn amser ar gyfer cydymffurfio â'r ddyletswydd, credaf y bydd yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau eu bod wedi gwneud darpariaeth i fodloni'r ddyletswydd cyn yr etholiad nesaf pan fyddai unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan adran 13(2A) yn cael effaith.*
>
> *Er nad oes gofyniad deddfwriaethol penodol i ddiweddaru'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau cyn pob etholiad, mae'r Gorchymyn hwn wedi'i adolygu neu ei ailwneud cyn pob etholiad y Senedd a gynhaliwyd hyd yma. Credaf ei bod yn annirnadwy na fyddai hyn yn parhau i fod yn wir, o ystyried y rôl hanfodol y mae'r Gorchymyn yn ei chwarae wrth alluogi etholiad i gael ei gynnal.".*[323]

**436.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig dywedodd Elkan Abrahamson:

> *"The duty at the new subsection 2A ('The Welsh Ministers must…)is open -ended, I.e. no time scale. I would suggest that a time scale be added so that it reads 'The Welsh Minister must within (say) 12 months of this Act being passed etc.' Without a time limit there is no accountability and no opportunity to challenge delay."*[324]

## Cymhwyso'r gwaharddiad

**437.** Fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn rhinwedd adran 22, dim ond cyn neu yn ystod etholiad Senedd y byddai unrhyw orchymyn a gyflwynir i wahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau o ffaith anwir neu gamarweiniol yn gymwys.

**438.** Fodd bynnag, cwestiynodd yr Athro Horder pam, pe bai'n cael ei gyflwyno, na fyddai gwaharddiad yn ymestyn i ymgyrchoedd refferendwm.[325]

**439.** Yn yr un modd, ni fyddai'r gwaharddiad yn berthnasol ar hyn o bryd i gynnal etholiad llywodraeth leol.

---

[323] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Rhagfyr 2025
[324] MAB16 Elkan Abrahamson
[325] MAB01 Yr Athro Jeremy Horder

**440.** Mae adran 13 o Ddeddf 2006 yn ymwneud â chynnal etholiadau'r Senedd. Felly, ni fyddai'n bosibl ehangu cwmpas trosedd i etholiadau llywodraeth leol na refferenda gan ddefnyddio'r pŵer a roddir i Weinidogion Cymru gan adran 13.

## Asesiad effaith ar gyfiawnder ac asesiad effaith ar hawliau dynol

**441.** Nid yw'r asesiadau effaith ar gydraddoldeb a chyfiawnder a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil yn ystyried goblygiadau hawliau dynol na'r effaith ar y system gyfiawnder o Ran 3 o'r Bil. Dywed Llywodraeth Cymru y byddai hyn yn cael ei ystyried pan wneir unrhyw orchymyn sy'n gwahardd datganiadau o ffaith anwir neu gamarweiniol.

**442.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd yr Athro Horder[326] ac Elkan Abrahamson[327] ffyrdd y gallai'r darpariaethau yn y Bil ryngweithio. O ran hawliau dynol, roedd hynny'n cynnwys os nad yw'r gwaharddiad ar ddatganiadau anwir neu gamarweiniol yn gofyn am brawf o fod yn fwriadol neu'n ddi-hid, os yw'r cosbau'n anghymesur, neu os yw'r cyfnod y mae'r gwaharddiad yn berthnasol ynddo yn aneglur.

**443.** Roedd yr angen i gydbwyso hawliau unigolion yn erbyn unrhyw fanteision a geir drwy droseddoli dichell fwriadol a'r effaith bosibl ar adnoddau a chapasiti'r system gyfiawnder yn faterion a archwiliwyd ymhellach gan y Pwyllgor Safonau yn ei adroddiad ar ddichell fwriadol.[328]

**444.** Yn eu tystiolaeth, amlinellodd Alex Greenwood a Jonthan Elystan Rees CB (yn cynrychioli Cymdeithas y Bar Troseddol) eu barn y dylai unrhyw drosedd fod yn destun asesiad effaith cyfiawnder llawn.

**445.** Pan ofynnwyd iddo ymhelaethu ar ei farn, dywedodd Jonathan Elystan Rees CB:

> *"… because this is an interesting and also serious proposal for a new provision of criminal law in Wales, that it ought to be dealt with by way of primary legislation, it ought to have proper consultation and scrutiny, and it ought to have a proper justice impact assessment.*

[326] MAB01 Yr Athro Jeremy Horder
[327] MAB16 Elkan Abrahamson
[328] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol, Chwefror 2025

> *The proposal at the moment of simply creating a duty upon the Welsh Ministers to act on the Bill, requiring a prohibition to be created, means that, in fact, at this stage at least, there is no justice impact assessment on the consequence of imposing that duty. And there will be a consequence, there will be an effect, because you're not proposing at the moment simply to draw to the Welsh Ministers' attention that they have the power to do this. The Bill actually says, 'The Minister must do this', and we understand from the justice impact assessment for the rest of the Bill that it's very clear that the Welsh Government at least understands that that provision in the Bill requires them to create a prohibition via a new criminal offence. It actually says that. So, there is a justice impact that will flow from the present proposal, but no such impact assessment has been done. I understand the reason why; it's because it's very difficult to carry out an impact assessment on a criminal offence—a serious criminal offence—that we don't actually know the terms of."*[329]

## Ein barn ni

**446.** Mae democratiaeth gadarn yn dibynnu ar aelodau'r cyhoedd yn gwneud penderfyniadau gwybodus am y bobl y maent yn eu dewis i'w cynrychioli. Mae datblygiad technolegau fel cyfryngau cymdeithasol a deallusrwydd artiffisial wedi ei gwneud hi'n anodd gwahaniaethu rhwng gwirionedd a chelwydd, ac nid oes gwadu bod hynny wedi effeithio ar drafodaeth wleidyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**447.** Fel Pwyllgor, rydym yn cytuno bod diogelu rhag lledaenu gwybodaeth anwir yn fwriadol yn bwysig er mwyn gweithredu etholiadau a'n system ddemocrataidd yn briodol.

**448.** Nid yw'r rhai sy'n cynnig eu hunain i'w hethol yn gwneud hynny ar chwarae bach. Felly, mae hi ond yn iawn eu bod yn glir ynghylch y ffiniau y mae'n rhaid iddynt ymddwyn oddi eu mewn, a'r canlyniadau difrifol o grwydro y tu allan i'r hyn sy'n dderbyniol ac i'r hyn sy'n ymddygiad troseddol.

**449.** Byddem yn adleisio barn y Cwnsler Cyffredinol y byddai'n anodd canfod unrhyw un sy'n anghytuno â'r egwyddor o ddwyn i gyfrif y rhai y canfyddir eu bod

[329] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion [146] i [147]

wedi camarwain yn fwriadol er mwyn effeithio ar ganlyniad etholiad. Yn wir, mae ymddygiad ymgeiswyr mewn etholiadau eisoes wedi'i reoleiddio'n fawr.

**450.** Fodd bynnag, mae cyflwyno unrhyw drosedd newydd, yn enwedig un sy'n ymwneud â rhyddid i lefaru a gweithredu ein system ddemocrataidd yn briodol, yn fater difrifol iawn. Mae yna egwyddor gyfansoddiadol ers amser mai dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y dylid cyflwyno troseddau newydd lle gallant fod yn destun ymgynghori craffu, asesu a diwygio llawn.

**451.** Er ei fod yn wir, fel y mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu, fod y Gorchymyn Cynnal Etholiadau presennol ar gyfer etholiadau'r Senedd yn cynnwys troseddau, mae'r troseddau hyn yn tarddu o ddeddfwriaeth sylfaenol. Er enghraifft, cyflwynwyd y drosedd bresennol o wneud datganiadau anwir am gymeriad personol ymgeisydd gyntaf drwy Ddeddf 1983.

**Casgliad 12.** Mae'r dadleuon a gyflwynwyd i ni mewn tystiolaeth yn awgrymu'n helaeth y dylai newid mor arwyddocaol â'r hyn a ddarperir yn adran 22 fod yn destun gwaith craffu a thryloywder y broses ddeddfwriaeth sylfaenol, ac na ddylid ei adael i Weinidogion Cymru ei gyflwyno drwy is-ddeddfwriaeth lle na ellid diwygio'r ddeddfwriaeth.

**452.** Mae'r pŵer a roddir i Weinidogion Cymru i wahardd gwneud datganiadau anwir neu gamarweiniol yn y Bil yn eang iawn. Nid yw'n diffinio cwmpas gwaharddiad posibl, ei gynnwys, i bwy y byddai'n berthnasol, na pha amddiffyniadau fyddai ar gael i unigolion. Er enghraifft, nid oes diffiniad o beth sy'n cyfrif fel "datganiad o ffaith," nac eglurder ynghylch beth a olygir gan y term "gwneud neu gyhoeddi". Nid yw'r Bil ychwaith yn sôn am yr amserlenni ar gyfer gwahardd, y cyfnod ar gyfer cwynion, cwmpas y bobl a gwmpesir, a ph'un a yw'r drosedd yn gofyn am wneud hynny'n fwriadol neu'n ddi-hid.

**Casgliad 13.** Credwn y byddai pŵer i gyfyngu ar ryddid i lefaru cyn neu yn ystod etholiad gyda chyn lleied o baramedrau o ran cwmpas unrhyw waharddiad yn eithriadol fel y'i drafftiwyd hyd yn oed pe bai wedi'i gynnwys o fewn deddfwriaeth sylfaenol.

**453.** Heb ddiffiniadau clir, roedd tystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at y posibilrwydd o gamddefnyddio'r drosedd newydd drwy gwynion maleisus gyda'r nod o dawelu dadl gyfreithlon. Clywsom sut y gallai hyn gael effaith 'iasol' ar ryddid i lefaru ac y gallai arwain at atal unigolion rhag sefyll mewn etholiadau rhag iddynt gael eu herlyn. I'r gwrthwyneb, ni fyddai'n atal y rhai a allai geisio ennill drwg-enwogrwydd neu fod yn 'ferthyrdod gwleidyddol' o achosion o'r fath.

**454.** Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y gellid bwrw ymlaen â gwaith pellach ar y manylion allweddol hyn yn y Senedd nesaf cyn cyflwyno Gorchymyn ond nid oes gofyniad i wneud hyn. Ar ben hynny, awgrymodd y Cwnsler Cyffredinol, er y gallai'r drosedd hon fod yn berthnasol i unrhyw aelod o'r cyhoedd, mai dim ond ar faterion a gynhwysir mewn gorchymyn cynnal etholiadau y dylid ymgynghori ag arbenigwyr etholiadol technegol.

**455.** Yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil, daeth yn amlwg yn gyflym y byddai cyflwyno trosedd yn gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau o ffaith anwir neu gamarweiniol yn ystod etholiad, boed yng nghyd-destun y Bil hwn neu fel arall, yn fater cymhleth iawn, yn enwedig gan fod llinell denau rhwng parchu hawliau gwarchodedig i ryddid mynegiant ac etholiadau rhydd a theg, a diogelu uniondeb democrataidd drwy atal ymddygiadau anonest.

**456.** Nodwn yn ei adroddiad ar ddichell fwriadol, fod y Pwyllgor Safonau wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu diffiniadau clir a sefydlu panel arbenigol i drafod materion sy'n ymwneud â dichell fwriadol yn llawn, o ystyried yr amser cyfyngedig oedd gan y Pwyllgor i gwblhau ei waith.

**457.** Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan nad oedd ganddi amser wrth ddrafftio'r Bil i ymgynghori ar y materion diffiniadol hollbwysig hyn nac i ymgysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron, y farnwriaeth na'r heddlu.

**458.** Mae'r manylion cyfyngedig ar gwmpas y drosedd newydd hon yn y Bil yn golygu nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu asesiad o'i goblygiadau ar gyfer hawliau dynol na llunio asesiad effaith ar gyfiawnder ar gyfer y rhan hon o'r Bil.

**459.** Mae pryder ynghylch y diffyg manylion ar wyneb y Bil hwn ynglŷn â'r gwaharddiad, ac felly'r anallu i asesu ei ganlyniadau a'i oblygiadau posibl, yn amlwg yn y dystiolaeth a gawsom.

**460.** Cyflwynwyd tystiolaeth i ni hefyd a oedd yn tynnu sylw at yr anawsterau o ran ymchwilio i droseddau o'r fath a'u herlyn. Mae'r angen am dystiolaeth gadarn i brofi bod datganiad nid yn unig yn anwir neu'n gamarweiniol ond hefyd wedi'i wneud gyda'r bwriad o effeithio ar ganlyniad etholiad, yn un o'n prif bryderon. Er mwyn cadarnhau honiadau mor ddifrifol, clywsom gan arbenigwyr cyfreithiol fod yn rhaid i'r galw am brawf fod yn gadarn a gallai'r broses sy'n dilyn fod yn hir ac yn gymhleth. Heb fecanweithiau clir, wedi'u diffinio'n dda i ymchwilio ac yna i ddarparu datrysiadau amserol, mae risg o danseilio hyder y cyhoedd yn y system ymhellach. Rydym yn pryderu y byddai'r canlyniadau anfwriadol a allai godi o

ganlyniad i ddiffyg ystyriaeth fanwl o'r cynigion hyn yn cael effaith sy'n groes i amcanion y Bil hwn, sydd wrth wraidd ei ymdrech i feithrin ymddiriedaeth yn ein system wleidyddol.

**461.** Pan wnaethom holi'r Cwnsler Cyffredinol pam ei bod yn ceisio cyflwyno'r ddarpariaeth hon heb gynnal unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus, atebodd mai dyna y gofynnwyd iddynt wneud. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym Mhennod 3, cytunodd y Pwyllgor Safonau i ehangu ei ymchwiliad i Atebolrwydd Aelodau Unigol ar gais y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd, o ganlyniad i gytundeb a geisiwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod Cyfnod 3 Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

**462.** Er ein bod yn derbyn bod y Bil wedi'i ddrafftio ar ôl i'r Pwyllgor Safonau gwblhau ei ymchwiliad er mwyn ymgorffori ei argymhellion, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i ddeddfu yn y maes hwn am y tro cyntaf 18 mis yn ôl.

**Casgliad 14.** Rydym yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Senedd roi ei chymeradwyaeth i greu trosedd ddifrifol newydd sydd ei diffinio, a allai gael canlyniadau 'sy'n diffinio bywyd', gan gyfyngu ar ryddid i lefaru yn ystod etholiad heb ystyriaeth ofalus. Nid yw'r dull a gymerwyd yn briodol o safbwynt ymarferol na chyfansoddiadol.

**Casgliad 15.** Rydym yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r cyfnod interim rhwng pasio *Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024* a chyflwyno'r Bil hwn i wneud y gwaith sy'n ofynnol i gyflwyno trosedd newydd. Erbyn hyn, byddem wedi disgwyl llawer mwy o fanylion ar wyneb y Bil y gellid eu harchwilio'n ystyrlon, yn ogystal â rhywfaint o ymgynghori ac asesiadau effaith manwl. Pe bai hyn ar gael adeg cyflwyno'r Bil, credwn y gallai fod wedi bod yn ymarferol i'r Pwyllgor graffu'n briodol, a gwneud argymhellion i gryfhau'r Bil.

**Casgliad 16.** Rydym yn cydnabod, ac yn cytuno, â'r bwriadau y tu ôl i adran 22 o'r Bil, i sicrhau bod etholiadau'n cael eu hamddiffyn rhag gweithredwyr gwael. Fodd bynnag, credwn y dylai troseddau o'r fath fod mewn deddfwriaeth sylfaenol a, heb ddigon o fanylion ar wyneb y Bil, ni allwn roi ein cymeradwyaeth i adran 22 fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd.

**Casgliad 17.** Mae mwyafrif y Pwyllgor o'r farn, oni bai bod Llywodraeth Cymru yn gallu nodi'r drosedd a gynigir yn llawn ar wyneb y Bil a darparu manylion am y gwaith sydd wedi mynd i baratoi'r drosedd, y dylid dileu adran 22 o'r Bil.

**Casgliad 18.** Credwn fod rhinweddau i Rannau 1 a 2 o'r Bil ac y byddent yn gwella atebolrwydd Aelodau o'r Senedd. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi'i amlygu ym Mhennod 3, rydym yn pryderu, oni bai bod adran 22 yn cael ei ailddrafftio yn unol â'r hyn yr ydym wedi'i nodi yn argymhelliad 11 (neu fod adran 22 yn cael ei dileu o'r Bil), ei bod yn peryglu y byddai'r Bil yn ei gyfanrwydd yn methu ar y cam olaf.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- ddrafftio darpariaethau manwl ar gyfer y drosedd a gynigir, i'w cynnwys ar wyneb y Bil, sy'n gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau o ffaith anwir neu gamarweiniol cyn neu yn ystod etholiad at ddibenion effeithio ar ethol unrhyw ymgeisydd;

- ymgynghori ar y darpariaethau hynny, gan gynnwys ymgysylltu'n gynhwysfawr â'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a chyhoeddi manylion yr ymatebion ymgynghori hynny;

- cynnal a chyhoeddi asesiadau o effaith ar gyfiawnder a hawliau dynol; ac wedi hynny

- cyflwyno'r gwelliannau perthnasol yng nghyfnod 2 a fyddai'n gosod manylion llawn y drosedd ar wyneb y Bil.

Os na tellir gwneud y newidiadau hyn mewn pryd ar gyfer trafodion Cyfnod 2, neu os ystyrir bod y gwelliannau a gyflwynwyd yng nghyfnod 2 yn annigonol ac felly ni chânt eu cefnogi, mae mwyafrif y Pwyllgor yn argymell y dylid dileu adran 22 o'r Bil er mwyn caniatáu i waith pellach ar y mater gael ei wneud mewn deddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol. Mae Sioned Williams yn credu y gellir diwygio adran 22 ymhellach i ddiffinio cwmpas y pŵer ymhellach.

**463.** Mae Sam Rowlands AS o'r farn nad yw adran 22 o'r Bil yn addas i'r diben ac mae'n credu y dylid ei dileu o'r Bil, yn enwedig o ystyried efallai na fydd mwyafrif o Aelodau o'r Senedd yn cefnogi ei chynnwys yn barhaus yn y Bil ac mae'n peri risg, felly, i Rannau 1 a 2 o'r Bil gael eu deddfu.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen y Pwyllgor ar y we.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **11 Tachwedd 2025** | **Hannah Blythyn AS**,<br>Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Senedd Cymru<br>**Meriel Singleton**,<br>Clerc y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Comisiwn y Senedd<br>**Huw Williams**,<br>Prif Gynghorydd Cyfreithiol, Comisiwn y Senedd<br>**Douglas Bain**,<br>Comisiynydd Safonau y Senedd<br>**Jonathan Thomas,**<br>Swyddfa Comisiynydd Safonau y Senedd |
| **18 Tachwedd 2025** | **Tom Hawthorn,**<br>Pennaeth Polisi, Y Comisiwn Etholiadol<br>**Clare Sim**,<br>Pennaeth Cymorth Aelodau, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol<br>**Eifion Evans**,<br>Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol<br>**Mark Pascoe**,<br>Ysgrifennydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol |
| **25 Tachwedd 2025** | **Daniel Greenberg CB**,<br>Comisiynydd Safonau Seneddol |
| **27 Tachwedd 2025** | **Alberto Costa AS,**<br>Cadeirydd Pwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin<br>**Dr David Stirling**,<br>Aelod Lleyg o Bwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin<br>**Alexander Greenwood,**<br>Cymdeithas y Bar Troseddol<br>**Jonathan Elystan Rees CB,**<br>Cymdeithas y Bar Troseddol |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **2 Rhagfyr 2025** | **Julie James AS**,<br>Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, Llywodraeth Cymru<br>**Will Whiteley,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio'r Senedd, Llywodraeth Cymru<br>**Ryan Price,**<br>Pennaeth Polisi'r Senedd, Llywodraeth Cymru<br>**Anna Hind**,<br>Uwch-gyfreithiwr, Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **MAB 01** | Yr Athro Jeremy Horder |
| **MAB 02** | Dr Ben Stanford |
| **MAB 03** | Cathy Mason ACD, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Breintiau, Cynulliad Gogledd Iwerddon |
| **MAB 04** | Yr Athro Alistair Clark |
| **MAB 05** | Crynwyr Cymru |
| **MAB 06** | Un Llais Cymru |
| **MAB 07** | Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (ERS Cymru) |
| **MAB 08** | Unlock Democracy |
| **MAB 09** | Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, Senedd Cymru |
| **MAB 10** | Paul Evans a Syr Paul Silk |
| **MAB 11** | Transparency International (UK) |
| **MAB 12** | Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol Cymru |
| **MAB 13** | Keith Bush CB |
| **MAB 14** | Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones, y Llywydd, Senedd Cymru |
| **MAB 15** | Y Comisiwn Etholiadol |
| **MAB 16** | Elkan Abrahamson |
| **MAB 17** | Cymdeithas yr Iaith |
| **MAB 18** | Jonathan Elystan Rees CB ac Alexander Greenwood |
| **MAB 19** | Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Llythyr gan Fwrdd Rheoli Etholiadau Cymru | 4 Rhagfyr 2025 |

# Eitem 5.2

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5.3

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon